# Gwerthusiad o Raglen Grantiau Gwirfoddoli Llywodraeth Cynulliad Cymru

**ADRODDIAD TERFYNOL**

**Awst 2009**

# *Gwerthusiad o Raglen Grantiau Gwirfoddoli Llywodraeth Cynulliad Cymru*

Adroddiad gan Old Bell 3 ar gyfer Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Pwyntiau Cysylltu**

Yn achos ymholiadau am y cyhoeddiad hwn, cysylltwch â:
Siân Jones, ffôn: 01685 729126
E-bost: SJ&LGResearch&Informationunit@cymru.gsi.gov.uk

**Awduron**
Old Bell 3 Ltd

**Cyhoeddwr**
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Leoliad**
Merthyr Tudful

© Hawlfraint y Goron 2009
ISBN: 978 0 7504 5363 9

**CYNNWYS** **TUDALEN**


**1.0 CRYNODEB GWEITHREDOL** *4*

**2.0 CYFLWYNIAD** **8**

2.1 Cefndir 8
2.2 Nod y Gwerthusiad *9*
2.3 Dull 9
2.4 Strwythur yr Adroddiad 10

**3.0 CEFNDIR: Y RHAGLEN GRANTIAU GWIRFODDOLI** **11**

3.1 Cyflwyniad 11
3.2 Polisi Gwirfoddoli yng Nghymru 11
3.3 Y Rhaglenni Grantiau: Hanes 14
3.4 Y Rhaglenni Grantiau: Cyllideb 15
3.5 Y Rhaglenni Grantiau: Nodau, Amcanion a Gweithrediad 16

**4.0 CANFYDDIADAU** **21**

4.1 Cyflwyniad 21

*4.1.1 Trosolwg o'r Adran 21*
*4.1.2 Proffil o'r Sefydliadau a Arolygwyd 21*

4.2 Adolygiad o'r Deilliannau a Gyflawnwyd gan Brosiectau a Ariannwyd 24

*4.2.1 Ffit Strategol y Rhaglenni Grantiau 24*
*4.2.2 Eglurdeb Amcanion y Rhaglenni Grantiau 26*
*4.2.3 Ceisiadau Prosiect a Chynigion Cyllid 28*
*4.2.4 Nodau ac Amcanion y Prosiect 35*
*4.2.5 Perfformiad yn erbyn Targedau 38*
*4.2.6 Gwerth Ymyriad 46*
*4.2.7 Effaith ar Sefydliadau a Ariannwyd 49*
*4.2.8 Effaith ar Wirfoddolwyr 52*

4.3 Addasrwydd y Strwythur Ariannu Cyfredol 54

*4.3.1 Hyrwyddo a Marchnata 54*
*4.3.2 Brandio 57*
*4.3.3 Proses Cais am Grant 57*
*4.3.4 Ansawdd Ceisiadau 62*
*4.3.5 Effeithlonrwydd y Panel Grantiau 63*
*4.3.6 Monitro Grantiau 64*
*4.3.7 Rheoli Rhaglen Grantiau 67*

4.4 Strwythur Cyllid y Dyfodol 68

*4.4.1 Cynlluniau Sefydliadau yn y Dyfodol 68*
*4.4.2 Barn ar Strwythur y Dyfodol 69*

**5.0 CASGLIADAU** **72**

**6.0 ARGYMHELLION 76**

ATODIAD 1 Rhestr Ymgynghoreion 80

ATODIAD 2 Holiadur Arolwg Ffôn 81

ATODIAD 3 Canllawiau Trafodaeth a Ddefnyddiwyd i Gyfweld â Sefydliadau a Dderbyniodd Grantiau 93

ATODIAD 4 Canllawiau Trafodaeth a Ddefnyddiwyd i Gyfweld â Gwirfoddolwyr 98

## 1.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau gwerthusiad o'r Rhaglenni Grantiau Gwirfoddoli a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a gynhaliwyd gan Old Bell 3 Cyf.

Cynhaliwyd y gwerthusiad rhwng mis Mai a mis Awst 2009 gyda'r nod o asesu os yw'r tri chynllun Grantiau Gwirfoddoli a weinyddwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru yn unigol a gyda'i gilydd wedi cyflawni eu hamcanion ac wedi cynyddu lefelau gwirfoddoli yng Nghymru; ac ystyried a gwneud argymhellion ar strwythur cyllid grant ar gyfer gwirfoddoli yng Nghymru yn y dyfodol.

Roedd y gwaith yn cynnwys adolygu dogfennau allweddol a data monitro rhaglenni a phrosiectau, cyfweld dros y ffôn â 50 o sefydliadau a dderbyniodd grantiau, cynnal ymweliad dilynol manwl i ddeuddeg o'r sefydliadau hyn i ymgynghori gyda staff allweddol y prosiectau a gwirfoddolwyr a gafodd eu recriwtio gyda help y grantiau, yn ogystal â chynnal ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid allweddol yn ymwneud â'r rhaglen grantiau.

Mae'r Rhaglen Grantiau Gwirfoddoli yn darparu cyllid drwy dri chynllun grant ar wahân i gynyddu lefelau gwirfoddoli yng Nghymru. Y tair rhaglen grant yw:

- Gwirfoddolwyr y Mileniwm (MV): rhaglen ar draws y Deyrnas Unedig gyda'r nod gyffredinol o annog pobl ifanc 16-24 oed i gwblhau 200 awr o wirfoddoli mewn blwyddyn;
- Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru (VWF): rhaglen grantiau yn canolbwyntio ar recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr newydd o grwpiau targed neilltuol, gyda chyllid am hyd at dair blynedd ar gael ar sail tapr;
- Cymru: Y Fenter Cymunedau Gweithredol (WAC): rhaglen grantiau i gefnogi ac ysgogi gweithgaredd gwirfoddoli ar draws pedair thema allweddol – seilwaith, cyfryngau a hyrwyddo, ymchwil a meithrin gallu.

Mae grant blynyddol o tua £2 miliwn ar gael i'r WCVA ar hyn o bryd i weinyddu'r rhaglenni hyn a dyrannwyd cyfanswm cyllideb o £6.9 miliwn i'r gweithgaredd hwn ers mis Ebrill 2006, pan benodwyd y WCVA i reoli'r

cynlluniau. Bu dwy o'r rhaglenni grantiau (VWF a MV) ar gael ers cryn amser a chyflwynwyd WAC yn ei ffurf bresennol yn 2007. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2008/09), gyda'i gilydd cefnogodd y tair rhaglen grant recriwtio dros 10,000 o wirfoddolwyr newydd, ar gost yn amrywio rhwng £140 a £357 fesul gwirfoddolwr unigol ar draws y tair rhaglen.

Canfyddiadau allweddol y gwerthusiad yw bod:

- Y tair rhaglen grant yn gyffredinol yn cefnogi'r agenda polisi strategol ar gyfer gwirfoddoli yng Nghymru a nodir yn y Trydydd Dimensiwn a Cymru'n Un. Ymhellach, maent hefyd yn cyd-fynd yn dda gyda'r agenda cysylltu â dinasyddion sy'n amlwg mewn ystod o bolisïau Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag mae diffyg eglurdeb cyffredinol am amcanion ehangach (er enghraifft, yn nhermau datblygiad personol y gwirfoddolwyr a darparu gwasanaethau ar gost isel) Llywodraeth y Cynulliad wrth geisio cynyddu gwirfoddoli drwy ei rhaglen grantiau gwirfoddoli: mae hyn wedi golygu y bu'n anodd asesu pa mor effeithlon fu'r rhaglenni grant wrth gyflawni eu hamcanion.
- Sefydlwyd y tair rhaglen grant i ddechrau yn annibynnol o'i gilydd, ac er yr ymddengys iddynt ddiwallu anghenion y sector dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, byddai'n awr yn amserol i ymdrechu i gael mwy o gydlyniaeth, llai o ddyblygu a chynnig mwy perthnasol i'r sector. Drwy wneud newidiadau priodol medrai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau mwy o hyblygrwydd a medrai sefydliadau sy'n derbyn grant gael mwy o sicrwydd cyllid.
- Bu galw sylweddol fwy am un rhaglen grantiau, VWF, nag am y ddwy arall gyda dim ond traean o'r sefydliadau a gyflwynodd geisiadau yn llwyddiannus, gan awgrymu y medrai grantiau VWF fod wedi manteisio o gyfran ychydig yn uwch o gyllid.
- Mae'r rhaglenni grant wedi arwain at recriwtio nifer sylweddol o wirfoddolwyr newydd a aiff beth ffordd tuag gynyddu lefelau gweithgaredd gwirfoddoli yng Nghymru. Adroddodd pob rhaglen grant berfformiad cyffredinol dda ar eu targedau gyda gorchudd cryf o grwpiau targed ac ardaloedd daearyddol eang, er bod lle i beth pryder y gall y treiddiad yn yr ardaloedd mwy poblog, megis Cymoedd De Cymru, fod wedi bod yn llai.

- Mewn llawer o achosion roedd gwirfoddolwyr yn cael ei gyrru i'r un graddau gan gymhellion dyngarol a datblygu personol ac roedd llawer o wirfoddolwyr yn datblygu ystod eang o sgiliau a phrofiadau y medrent wedyn fynd gyda hwy ar gyfer gwirfoddoli, astudio a chyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.
- Nid oedd rhai o'r rhaglenni grantiau mor effeithiol wrth ddenu unigolion heb unrhyw brofiad blaenorol o wirfoddoli h.y. er y gall y gwirfoddolwyr a recriwtiwyd fod wedi bod yn wirfoddolwr newydd i'r prosiect, nid oeddent mewn gwirionedd yn newydd i wirfoddoli. Ar yr un pryd, mae cynyddu'r cyfraniad gwirfoddoli a wneir gan wirfoddolwyr presennol yn darged haeddiannol nad yw efallai wedi cael yr ystyriaeth ddyledus yn amcanion y rhaglenni grantiau presennol.
- Mae amrywiaeth y prosiectau a ariannwyd yn aml wedi'i gwneud yn anodd datblygu unrhyw fath o darged cronnus neu ddangosyddion perfformiad ystyrlon. Wrth symud ymlaen, byddai ymdrechion i gasglu cyfanswm niferoedd gwirfoddolwyr a mewnbwn oriau fel canlyniad i'r rhaglenni'n gyffredinol yn cynyddu cadernid y data a adroddwyd.
- Awgrymodd yr adborth cyffredinol gan randdeiliaid a hefyd gan sefydliadau a dderbyniodd grantiau fod y rhaglenni grantiau'n cael eu hyrwyddo'n effeithiol a bod y WCVA yn rheoli'r broses gymeradwyo yn effeithiol. Mae lle ar gyfer rhai mân welliannau mewn rhai meysydd megis symleiddio ffurflenni cais, diwygiadau i amserlenni cais, gostwng y baich gweinyddol a ddodir ar sefydliadau sy'n derbyn grantiau a sicrhau mwy o hyblygrwydd o fewn trefniadau ymweliadiau monitro.

Yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn, mae'r adroddiad yn gwneud cyfres o un ar ddeg o argymhellion sy'n canolbwyntio ar yr angen i:

- Parhau'r cyllid grant i gefnogi gwirfoddoli yng Nghymru ar o leiaf yr un lefel â thros y tair blynedd diwethaf, ond gan adolygu'r rhaniad cymesurol ar draws y tair rhaglen a chynnydd cymesurol yn y cyllid ar gyfer y rhaglen VWF;
- Parhau i ddefnyddio'r WCVA i reoli cynlluniau grantiau gwirfoddoli (cyn belled â bod prosesau caffaeliad yn caniatáu hynny);
- Gosod dangosyddion perfformiad craidd a thargedau cyffredin ar gyfer pob rhaglen a phrosiect grant gwirfoddoli;

- o Rhoi mwy o eglurder am yr ystod o amcanion terfynol y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio eu cyrraedd drwy annog gwirfoddoli a'i gynlluniau ariannu;
- o Parhau i ganolbwyntio ar annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gwirfoddoli ac ymchwilio posibilrwydd cynnwys y rhaglen MV yn GwirVol, ar yr un pryd yn ailenwi ac yn ail-frandio dyfarniad MV;
- o Mynd i'r afael â'r cyfyngiadau presennol ar geisiadau MV sy'n wynebu'r rhai sy'n methu cyflwyno ceisiadau blynyddol rheolaidd ar gyfer y cynllun ariannu hwn;
- o Addasu rhaglenni grant WAC a VWF i raglenni grant treigl tair blynedd gyda phroses gais ar-lein i gefnogi;
- o Datblygu proses gais tair blynedd a model adrodd chwe-misol VWF yn ogystal â diwygio model tapr presennol o ariannu;
- o Ystyried rhagoriaethau integreiddio pellach rhwng rhaglenni grantiau WAC a VWF;
- o Dynodi'r rhesymau dros y lefelau isel o geisiadau o ardaloedd a dangynrychiolir a datblygu strategaeth i fynd i'r afael â'r materion wrth wraidd hyn;
- o Adolygu'n rheolaidd y grwpiau demograffig neilltuol i'w targedu yn nhermau cefnogaeth ar gyfer gwirfoddoli.

# 2.0 CYFLWYNIAD

## 2.1 Cefndir

Comisiynwyd **Old Bell 3 Cyf.** gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Mai 2009 i gynnal gwerthusiad o'i Rhaglenni Grantiau Gwirfoddoli.

Gweinyddir y Rhaglen Grantiau Gwirfoddoli gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ar ran Llywodraeth y Cynulliad. Mae'n darparu cyllid drwy dair rhaglen grantiau i gynyddu lefelau gwirfoddoli yng Nghymru. Y tair rhaglen grantiau yw:

- <u>Gwirfoddolwyr y Mileniwm (MV):</u> Rhaglen ar draws y Deyrnas Unedig [1] (gyda'r elfen Gymreig yn dod dan gylch gorchwyl Llywodraeth y Cynulliad) gyda'r nod gyffredinol o annog pobl ifanc 16-24 oed i gwblhau 200 awr o wirfoddoli mewn blwyddyn. Dyfernir tystysgrifau ar 50 awr a 100 awr a dyfernir Dyfarniad Rhagoriaeth am gwblhau 200 awr.

- <u>Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru (VWF):</u> Rhaglen grantiau yn canolbwyntio ar recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr newydd o grwpiau targed neilltuol sef pobl 60 oed a throsodd, pobl o gymunedau du a lleiafrif ethnig, pobl anabl, pobl ifanc dan 25 a phobl ddi-waith. Mae hyd at dair blynedd o gyllid ar gael ar sail tapr, yn amodol ar berfformiad boddhaol a phroses gais flynyddol.

- <u>Cymru: y Fenter Cymunedau Gweithredol (WAC):</u> Rhaglen grantiau i gefnogi ac ysgogi gweithgaredd gwirfoddoli mewn pedair thema allweddol (sef Seilwaith, Cyfryngau a Hyrwyddo, Ymchwil a Meithrin Gallu). Mae 27 o brosiectau Cymru-gyfan yn derbyn cyllid grant ar hyn o bryd i gyflenwi prosiectau dros gyfnod o dair blynedd (Ebrill 2007 - Mawrth 2010).

[1] Cafodd y Rhaglen ei disodli yn Lloegr gan Dyfarniadau V.

## 2.2 Nod y Gwerthusiad

Nod y gwerthusiad oedd asesu os yw'r tri chynllun Grantiau Gwirfoddoli a weinyddir gan y WVCA ar ran Llywodraeth y Cynulliad yn unigol a gyda'i gilydd wedi cyflawni eu hamcanion ac wedi cynyddu lefelau gwirfoddoli yng Nghymru; ac ystyried a gwneud argymhellion ar strwythur cyllid grant ar gyfer gwirfoddoli yng Nghymru yn y dyfodol.

Yn fwy penodol, bwriadwyd i'r gwerthusiad (fel yr amlinellwyd yn y briff):

- Canfod p'un a yw'r cronfeydd grantiau yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ddiwallu amcanion pob cynllun a phrif amcanion "Y Trydydd Dimensiwn";
- Dod i gasgliadau pendant p'un a yw'r dyraniad presennol o gronfeydd i bob un o'r tri chynllun gwirfoddoli yn briodol a'r ffordd orau i gyflawni'r amcan gyffredinol o gynyddu gwirfoddoli ar draws Cymru.

Mae'n werth nodi nad oedd yn ofynnol i'r gwerthusiad archwilio Grantiau Gwirfoddoli Ieuenctid Comisiwn Russell neu raglen ariannu GwirVol.

## 2.3 Dull

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar raglen waith a gynhaliwyd rhwng Mai a Gorffennaf 2009 oedd yn cynnwys:

- Cynnal adolygiad o'r rhaglen a data monitro lefel prosiect i ddatblygu darlun o lwyddiannau a pherfformiadau cyffredinol ar draws pob un o'r tair rhaglen;
- Cynnal 50 cyfweliad ffôn gyda sefydliadau a dderbyniodd grantiau ar draws y tair rhaglen grantiau yn seiliedig ar holiadur (Atodiad 2);
- Cynnal ymweliadau dilynol i 12 sefydliad a dderbyniodd grantiau i gyfweld â staff allweddol a nifer fechan o wirfoddolwyr oedd yn fuddiolwyr o fewn pob un o'r sefydliadau hyn (yn seiliedig ar ganllawiau trafod yn Atodiadau 3 a 4);
- Cynnal ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid allweddol (yn cynnwys yr WCVA a staff Llywodraeth y Cynulliad) a fu'n ymwneud gyda'r rhaglenni grant (gweler Atodiad 1).

## 2.4 Strwythur yr Adroddiad

Yng ngweddill yr adroddiad ystyriwn yn gyntaf gefndir pob un o'r cynlluniau Rhaglenni Grantiau Gwirfoddoli **(Adran 3)** cyn amlinellu ein canfyddiadau a strwythurwyd yn benodol i ddiwallu'r gofynion a nodwyd yn y briff gwerthuso **(Adran 4).** Wedyn amlinellwn ein casgliadau **(Adran 5)** a chyflwyno ein Hargymhellion **(Adran 6).**

# 3.0 CEFNDIR: Y RHAGLEN GRANTIAU GWIRFODDOLI

## 3.1 Cyflwyniad

Yn yr Adran hon, esboniwn y cyd-destun y cynhaliwyd y gwerthusiad ynddo. Yn gyntaf (yn Adran 3.2) archwiliwn y fframwaith polisi yng nghyswllt gwirfoddoli yng Nghymru cyn ystyried hanes (Adran 3.3), cyllideb (Adran 3.4) a nodau, amcanion a threfniadau gweithredu (Adran 3.5) y tair Rhaglen Grantiau.

## 3.2 Polisi Gwirfoddol yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi'n glir ei ymrwymiad i gefnogi cyfraniad y sector gwirfoddol yng Nghymru a gweithio gyda'r sector i gynyddu maint cyfraniad gwirfoddolwyr. Mae consenswS gwleidyddol eang dros gefnogi gwirfoddolwyr yng Nghymru a dangosir yr ymrwymiad hwn yn ***"Y Trydydd Dimensiwn*** *- Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol"* (Ionawr 2008) yn ogystal ag mewn fframweithiau polisi cynhwysfawr megis ***"Cymru'n Un"*** - yr olaf yn amlygu, yn neilltuol, fwriad Llywodraeth y Cynulliad i:

*"ymchwilio i ffyrdd o gydnabod a gwobrwyo gwirfoddoli ymhlith pobl ifanc"*[2].

Mae'r **Trydydd Dimensiwn** yn adeiladu ar yr egwyddorion a nodir yn y Cynllun Sector Gwirfoddol, a sefydlwyd pan grëwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel canlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a osododd ddyletswydd statudol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo buddiannau sefydliadau gwirfoddol wrth weithredu ei holl swyddogaethau. Mae'r Trydydd Dimensiwn yn nodi *"gweledigaeth, strategaeth a rhaglen weithredu Llywodraeth y Cynulliad a fydd yn sail i'w chefnogaeth i'r sector"*[3].

Mae'r ddogfen yn cydnabod fod y trydydd sector wedi cynyddu'n sylweddol o ran maint ac amrywiaeth mewn blynyddoedd diweddar a dywed fod o leiaf 30,000 o sefydliadau trydydd sector yn gweithredu yng Nghymru erbyn hyn. Credir fod gan tua 26,000 ohonynt ffocws lleol yn bennaf a'u bod yn dibynnu'n llwyr ar wirfoddolwyr. Yn ôl y cynllun gweithredu, mae mwy na 1.5 miliwn o wirfoddolwyr yng Nghymru, yn cyfrannu cynifer o oriau â 90,000 o weithwyr

[2] Tudalen 24 http://wales.gov.uk/about/strategy/publications/onewales/?lang=cy
[3] Tudalen 9

amser llawn bob blwyddyn. Mae tua 250,000 o blith y 1.5 miliwn o wirfoddolwyr yn gweithredu fel ymddiriedolwyr i sefydliadau trydydd sector. Fodd bynnag, mae'r Trydydd Dimensiwn yn cydnabod yr anawsterau wrth ddiffinio'r hyn a olygir gan y term gwirfoddoli ac fel canlyniad mae'n cyfaddef fod *"amcangyfrifon o ganran y boblogaeth sy'n gwirfoddoli naill ai yn ffurfiol i fudiad neu yn fwy anffurfiol i helpu cymydog neu gyfaill yn amrywio'n sylweddol, sy'n awgrymu bod angen gwybodaeth o ansawdd gwell ar lefel Cymru"*[4].

Wrth symud ymlaen, mae'r Trydydd Dimensiwn yn dynodi mai rhai o'r materion allweddol yn gysylltiedig â gwirfoddoli sy'n wynebu'r sector yw:

- y cwmpas i gynyddu cyfraniad gwirfoddolwyr presennol yng Nghymru. Ymddengys fod lefelau gwirfoddoli cyfredol yn weddol iach gyda'r WCVA[5] yn amcangyfrif fod tua 77% o oedolion yn gwirfoddoli un ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol (47% yn ffurfiol a 69% yn anffurfiol). Mae'r cynllun gweithredu dadlau gan fod dros hanner y rhai sy'n gwirfoddoli yn gwneud hynny am bump awr neu lai y mis fod cyfle mawr i gynyddu'r cyfraniad gyda gwell hyrwyddiad a chefnogaeth.
- yr angen i annog, cefnogi a hyfforddi gwirfoddolwyr i weithredu fel ymddiriedolwyr sefydliadau trydydd sector gyda ffocws neilltuol ar wneud pwyllgorau rheoli yn fwy cynrychioladol o'r cymunedau a wasanaethant.

Mae cynllun gweithredu'r Trydydd Dimensiwn yn amlinellu ymagwedd tri dimensiwn i gefnogi'r trydydd sector yng Nghymru, gyda'r cyntaf yn canolbwyntio ar weithgaredd gwirfoddoli ei hunan:

- *"cefnogi twf a datblygiad pellach gallu'r sector i gryfhau cymunedau o le a diddordeb;*
- *ffrwyno gwybodaeth ac arbenigedd y sector i helpu i ddylunio gwell polisïau a gwasanaethau cyhoeddus; ac*
- *annog a helpu'r sector i gyfrannu at bersonoli a gwell hygyrchedd i wasanaethau cyhoeddus o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar y dinesydd".*

---

[4] Tudalen 12

[5] Arolwg dinasyddiaeth 2005

Aiff ymlaen i ddweud y caiff y cyntaf o'r amcanion hyn ei ddiwallu yn y ffordd ddilynol:

*"Mae Pennod 5 y Cynllun Sector Gwirfoddol yn nodi ein hamcanion i:*

- *godi statws a gwella delwedd gwirfoddoli;*
- *ehangu'r hyn a olygir gan wirfoddoli i gynnwys pob math o gyfranogi sy'n gwella bywyd cymunedol a bod yn gymydog da;*
- *gwella mynediad i wirfoddoli i bob rhan o gymdeithas;*
- *ei wneud yn haws i bobl wneud cyfraniad gwirfoddol;*
- *annog cynnwys gwirfoddolwyr yn fwy effeithiol;*
- *gwella trefn ac isadeiledd gwirfoddoli."* [6]

Mae hefyd yn cydnabod bod yr amcanion hyn eisoes yn cael eu trafod drwy raglenni cyllid grant megis y Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru, Gwirfoddolwyr y Mileniwm a Cymru: y Fenter Cymunedau Gweithredol. Fodd bynnag, o gofio am y pwysigrwydd a roddir i wirfoddoli, nid yw'n syndod bod y tair rhaglen grant sy'n ffocws y gwerthusiad hwn yn rhan o ystod ehangach o gynlluniau i hyrwyddo gwirfoddoli:

*"Rydym yn bwriadu gweithio gyda'r WCVA, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, y Canolfannau Gwirfoddol a mudiadau'r sectorau cyhoeddus a phreifat i:*

- *godi statws gwirfoddoli yn llygaid y cyhoedd fel y gosodir gwerth uwch arno a'i fod yn cael ei werthfawrogi'n fwy;*
- *ddylunio a rhedeg ymgyrch barhaus yn y cyfryngau i wella swm, ansawdd, amrywiaeth ac effaith gwirfoddoli mewn cymunedau o ddiddordeb a lle;*
- *cyflawni newid sylweddol yn ymrwymiad cyrff y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector i gynyddu nifer y gwirfoddolwyr ac ansawdd y profiadau gwirfoddoli;*
- *cael gwared ar unrhyw rwystrau i wirfoddoli ffurfiol ac anffurfiol; a*
- *pharhau i greu'r isadeiledd o gefnogaeth ar gyfer gwirfoddoli."*[7]

Yn ei Gynllun Gweithredu manwl ar gyfer 2007/08 i 2009/10 mae'r Trydydd Dimensiwn yn nodi amcan cyffredinol o *"gynyddu nifer y gwirfoddolwyr a chynyddu ansawdd a nifer y cyfleoedd a'r profiad".* Mae'r amcan hwn yn

[6] Tudalen 21

awgrymu yn ymhlyg y ddwy nod allweddol o annog gwirfoddoli - yn gyntaf i helpu gyda darpariaeth cefnogaeth a gwasanaethau i'r gymuned ehangach (yn seiliedig ar gyfraniad dyngarol gan wirfoddolwyr fel modd i gyflawni diben) ac yn ail i roi'r cyfle ar gyfer datblygiad a chyflawniad personol i'r gwirfoddolwyr eu hunain. Fodd bynnag, ni chaiff y "cennad" deuol hwn o wirfoddoli ei fanylu'n neilltuol o glir.

Hefyd nid yw'r Cynllun Gweithredu yn awgrymu unrhyw dargedau meintiol ar gyfer y nod o gynyddu ansawdd cyfleoedd a phrofiadau gwirfoddolwyr. Yn wir ychydig o dargedau meintiol o gwbl y mae'n eu gosod yng nghyswllt gwirfoddoli - ar wahân i'r nod o gynyddu nifer yr oriau gwirfoddoli a gyfrannir gan bob person gan 5% bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae angen gosod y targed hwn yn y cyd-destun a drafodir uchod - y diffyg eglurder am linelli sylfaen gwirfoddoli yng Nghymru (union nifer yr unigolion yn gwirfoddoli yng Nghymru a'r oriau a gyfrannant) yn ogystal â thystiolaeth yn dangos bod nifer y gwirfoddolwyr eisoes yn gyfran sylweddol o'r boblogaeth. Mae angen cydnabod - yn neilltuol os yw'r amcangyfrifon uchaf yn gywir - fod cynyddu nifer absoliwt y gwirfoddolwyr yn debyg o fod yn her.

## 3.3 Y Rhaglenni Grant: Hanes

Bu dwy o'r rhaglenni grant a gaiff eu trafod gan y gwerthusiad hwn ar gael am gyfnod sylweddol – gyda'r VWF wedi'i sefydlu am y cyfnod hwyaf a MV wedi'i chyflwyno yn 1999. WAC yw'r newyddaf o'r tair rhaglen grant gan mai dim ond yn 2007 y cafodd ei chyflwyno yn ei ffurf bresennol (er ei bod wedi ei modelu'n eithaf agos ar gynlluniau blaenorol tair-blynyddol).

Nid oedd yn glir o un ai'r dogfennau cefndir na'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd sut y dynodwyd yr angen am bob rhaglen grant. Medrir esbonio hyn yn rhannol gan y ffaith y bu dwy o'r rhaglenni grant mewn bodolaeth am tua deng mlynedd a'r ffaith fod gwreiddiau dwy (MV a WAC) mewn rhaglenni a weithredir ar draws y Deyrnas Unedig. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y datblygwyd rhaglen grant MV mewn ymateb i'r dirywiad economaidd ddiwedd y 1990au (nodwedd a gredir oedd yn dychwelyd i fod yn berthnasol yn yr hinsawdd economaidd bresennol).

---

[7] Tudalen 22

Bu'r WCVA yn gyfrifol am weinyddu grantiau VWF a MV ers rhai blynyddoedd ond dim ond yn 2007 y'i penodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i weinyddu cronfa WAC. Yn ôl rhanddeiliaid, roedd y penderfyniad i gontractio'r cyfrifoldeb am reoli grant i'r WCVA yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i ganolbwyntio ar bolisi strategol yng nghyswllt gwirfoddoli yn hytrach na darpariaeth. Teimlid hefyd y byddai'r sector yn ymateb yn well i'r WCVA fel gweinyddydd grantiau.

## 3.4 Y Rhaglenni Grantiau: Cyllideb

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dyfarnu grantiau blynyddol i'r WCVA drwy lythyrau cynnig grant i weinyddu'r tair rhaglen a thalir grantiau dan Adran 70 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gyfer y symiau dilynol (Tabl 3.1):

*Tabl 3.1: Cyllid Rhaglen Grant 2006-2010*

| | AC | VWF | MV |
|---|---|---|---|
| Ebrill 2006 - Mawrth 2007 | d/ | £594,649 | £315,000 |
| Ebrill 2007 - Mawrth 2008 | £1,000,000 | £612,489 | £324,450 |
| Ebrill 2008 - Mawrth 2009 | £1,025,000 | £627,801 | £332,561 |
| Ebrill 2009 - Mawrth 2010 | £1,050,625 | £643,496 | £340,876 |
| Cyfanswm | £3,075,625 | £2,478,435 | £1,312,887 |

Mae'r grantiau oedd gael ar gyfer pob rhaglen wedi cynyddu ar sail flynyddol gan tua 2.5% i 3% yn unol â chwyddiant.

Talir yr holl grantiau mewn rhandaliadau chwarterol cyfartal i'r WCVA ond newidiwyd y patrwm talu ar gyfer MV yn ystod 2009/10. Cytunwyd y talid hanner y grant (£170,438) ar ddechrau'r flwyddyn er mwyn ei gwneud yn bosibl i ddosbarthu cyllid i'r partneriaid cydlynu lleol[8] ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyda gweddill y grant i'w dalu mewn rhandaliadau cyfartal ym mis Gorffennaf a mis Hydref 2009.

Yn flaenorol dyrannwyd cyllideb fwy i VWF a ddefnyddiwyd i ariannu swyddfeydd/canolfannau gwirfoddoli. Fodd bynnag, ar ôl mabwysiadu'r Cytundeb Partneriaeth rhwng y WCVA a Llywodraeth Cynulliad Cymru, roedd cyllid craidd ar gyfer y darparwyr hyn ar gael drwy'r gronfa Seilwaith.

[8] Mae grantiau blynyddol ar gael i 22 Partneriaeth Cydlynu Lleol i hyrwyddo dyfarniad MV i ddarpar wirfoddolwyr a hefyd fudiadau o fewn ardal eu hawdurdod lleol.

Yn achos MV a WAC, caiff cyllidebau gweinyddiaeth eu cynnwys yn glir o fewn cyllidebau rhaglen. Yn wahanol i hyn, caiff y VWF ei ddarparu o'r tu mewn i'r cyllid craidd a dderbyniwyd gan y WCVA dan y Cytundeb Partneriaeth.

### 3.5 Y Rhaglenni Grant: Nodau, Amcanion a Gweithredu

*Cymru: Y Fenter Cymunedau Gweithredol (WAC)*

Mae WAC yn gynllun ar draws y Deyrnas Unedig sy'n anelu i ailadeiladu ymdeimlad o gymuned ledled y Deyrnas Unedig drwy annog a chefnogi pob math o gyfranogi yn y gymuned.[9]

Bu rhaglen grant bresennol WAC, a ariannwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, ar gael o fis Ebrill 2007 i sefydliadau'n dymuno datblygu prosiectau oedd yn codi proffil ac yn ysgogi mwy o wirfoddoli a chyfranogi yn y gymuned. Fe'i hyrwyddwyd fel ffrwd cyllid ar gyfer gwaith prosiect ar sail Cymru-gyfan ac roedd yn benodol yn eithrio prosiectau lleol. Dyma'r fwyaf o'r tair rhaglen grant. Er wedi'i chysylltu gyda rhaglen y Deyrnas Unedig, ni fu ganddi unrhyw ymgyfraniad gweithredol gyda phrosesau ariannu y tu allan i Gymru.

Mae canllawiau ceisiadau WAC yn sôn am bedwar amcan allweddol ar gyfer y gronfa a dweud fod yn rhaid i ymgeiswyr fodloni o leiaf un ohonynt:

- gwella'r seilwaith;
- meithrin gallu;
- y cyfryngau a hyrwyddo; ac
- ymchwil [10].

Mae'r amcanion hyn yn eang a chyffredinol iawn o ran natur ac er bod hyn yn rhoi hyblygrwydd i ymgeiswyr wrth eu dehongli, ymddengys fod diffyg manylion am yr amcanion hyn (megis enghreifftiau) i egluro eu hystyr. Nid yw ychwaith yn glir o'r dogfennau a ddarparwyd sut y penderfynwyd ar yr amcanion hyn a sut y cawsant eu cytuno adeg cychwyn y rhaglen.

---

9 Canllawiau a nodiadau i ymgeiswyr Cymru: Y Fenter Cymunedau Gweithredol (WCVA)
10 Canllawiau a nodiadau i ymgeiswyr Cymru: Y Fenter Cymunedau Gweithredol (WCVA)

Dywedwyd wrth ymgeiswyr hefyd y dylai'r prosiectau a ariannwyd hyrwyddo a chynnal gwirfoddoli a chyfranogi yn y gymuned o blith chwe grŵp allweddol yn y boblogaeth:

- *cefn gwlad*
- *ieuenctid*
- *lleiafrifoedd ethnig*
- *pobl hŷn*
- *pobl anabl*
- *cyflogeion*

Eto nid yw'n glir o'r dogfennau a adolygwyd pam y dewiswyd y grwpiau neilltuol hyn fel grwpiau blaenoriaeth ar gyfer rhaglen grant WAC. Er bod y Trydydd Dimensiwn yn sôn am yr angen i dargedu grwpiau sydd leiaf tebygol o wirfoddoli, nid yw rhai o'r grwpiau a ddynodwyd gan WAC o reidrwydd yn rhan o'r categori hwn (gyda phobl hŷn y brif enghraifft [11]).

Ymhellach, disgwylid i ymgeiswyr roi sylw arbennig i'r ffordd y gwneir y canlynol:

- *gwella mynediad i gyfleoedd gwirfoddoli;*
- *cydgysylltu gwaith gwirfoddolwyr ac asiantaethau gwirfoddoli; a*
- *cynyddu'r arian ar gyfer gwirfoddoli a chyfranogi yn y gymuned.*

*Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru (VWF)*

Sefydlwyd VWF i ddarparu hyd at dair blynedd o gyllid ar sail tapr i sefydliadau sy'n dymuno recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr newydd. Nod y cynllun grant dewisol yw:

- Cefnogi prosiectau y caiff eu nodau eu cyflawni'n bennaf drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr;
- Cefnogi sefydliadau dielw sydd â'r prif bwrpas o recriwtio, hyfforddi a lleoli gwirfoddolwyr;
- Annog arfer da mewn gwirfoddoli; ac
- Annog prosiectau mewn ardaloedd lle mae gwirfoddoli wedi'i dan-ddatblygu oherwydd lleoliad neu fath y gweithgaredd gwirfoddoli [12].

[11] Mae arolwg Byw yng Nghymru Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awgrymu fod pobl hŷn ac aelwydydd heb fod o oedran gwaith yn gyffredinol gyfartal neu'n fwy tebygol o gymryd rhan mewn grwpiau gwasanaeth gwirfoddol a'r boblogaeth yn gyffredinol. Gweler http://wales.gov.uk/docs/statistics/2009/090430liw08volunteeringen.xls?lang=cy

[12] Canllawiau a nodiiadau i ymgeiswyr Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru 2009/10

Yn neilltuol, bu gan y VWF ffocws ar recriwtio gwirfoddolwyr o grwpiau targed penodol, sef pobl dros 60 oed (newidwyd yn ddiweddarach i bobl dros 50), pobl o gymunedau du a lleiafrif ethnig, pobl anabl, pobl dan 25 a phobl ddiwaith. Nid yw'n glir (ar wahân i ystyriaethau cyffredinol cyfle cyfartal) pam y dewiswyd y grwpiau penodol hyn yn grwpiau blaenoriaeth ar gyfer y rhaglen grantiau a pham eu bod yn wahanol i grwpiau blaenoriaeth WAC.

Mae'r canllawiau'n nodi'n glir y medrir defnyddio'r cyllid ar gyfer y dibenion dilynol:

- Prosiectau neu raglenni sy'n recriwtio, hyfforddi a lleoli gwirfoddolwyr NEWYDD;
- Prosiectau sy'n helpu i ddatblygu arfer da mewn gwirfoddoli; a
- Phrosiectau sy'n seiliedig ar wirfoddolwyr ac sy'n cael anhawster wrth ddenu cronfeydd o ffynonellau eraill.

Yn y cyswllt hwn, ystyriwyd fod y VWF *yn "ffrwd cyllid gobaith olaf"* ar gyfer mudiadau gwirfoddol ac mae'r canllawiau'n pwysleisio na fydd cyllid ar gael fel arfer i brosiectau sy'n gymwys am gyllid o ffynonellau sector cyhoeddus eraill.

Mae cyllid ar gael ar sail tapr gan gredu y bydd hyn yn annog mudiadau cyrff i ddatblygu prosiectau cynaliadwy. Uchafswm y cyllid sydd ar gael yn y flwyddyn gyntaf yw £25,000, £12,500 yn yr ail flwyddyn a £6,250 yn y drydedd flwyddyn. Fodd bynnag, nid oes unrhyw hawl awtomatig i gyllid parhad ar ôl y flwyddyn gyntaf: mae'r cyllid ar gyfer yr ail a'r drydedd flwyddyn yn amodol ar berfformiad boddhaol a phroses gais flynyddol. Nid yw grwpiau sydd eisoes wedi derbyn tair blynedd o gyllid o'r VWF yn gymwys i wneud cais arall am ddwy flynedd bellach ar ôl diwedd y cyllid.

*Gwirfoddolwyr y Mileniwm (MV)*

Mae MV yn gynllun ar draws y Deyrnas Unedig a gynlluniwyd i hyrwyddo a chydnabod gwirfoddoli ymysg pobl ifanc 16 – 24 oed. Fe'i sefydlwyd yn 1999 a'i lansio'n swyddogol yn 2000, a daeth yn gynllun adnabyddus ymysg sefydliadau addysg, cyflogwyr a'r gymuned ehangach ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig. Mae'n ofynnol i wirfoddolwyr gynnal gwaith gwirfoddol dros y flwyddyn a gweithio tuag at gwblhau 200 awr o wirfoddoli er mwyn derbyn

Dyfarniad Rhagoriaeth a lofnodwyd gan Brif Weinidog Cymru. Yn ddiweddar cyflwynwyd tystysgrifau i gydnabod y 50 a'r 100 awr gyntaf o gyfraniad gwirfoddoli i'r rhaglen. Medrir trosglwyddo'r dyfarniad ar draws pob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Mae'r rhaglen yn seiliedig ar egwyddorion allweddol model y Deyrnas Unedig. Yn Lloegr, daeth brand dyfarniad Gwirfoddolwyr y Mileniwm i ben ym mis Mawrth 2009 ac yn ei le cyflwynwyd y 'V Awards' cenedlaethol oedd ag egwyddorion tebyg. Mae'r 'V Awards' yn defnyddio'r un meini prawf â'r cynllun yng Nghymru ac mae wedi cyflwyno cerrig milltir tebyg (ond yn eithrio'r trothwy 200 awr):

- Tystysgrif diolch – i wirfoddolwyr sydd wedi dechrau ar eu gwirfoddoli;
- Dyfarniad v50 – i wirfoddolwyr sydd wedi bancio 50 awr o wirfoddoli;
- Dyfarniad vImpact – ar gyfer gwirfoddolwyr sydd wedi cyrraedd 100 awr o wirfoddoli.

Yn ôl llenyddiaeth hyrwyddo, prif nodau rhaglen MV yng Nghymru yw:

- Gwneud effaith cadarnhaol o fewn cymunedau lleol;
- Cynnig cyfleoedd gwirfoddoli heriol a diddorol i bob person ifanc;
- Galluogi pobl ifanc i ennill sgiliau a gwybodaeth newydd a datblygu'n bersonol;
- Cynyddu cydnabyddiaeth o wirfoddoli gan bobl ifanc yn y gymuned;
- Gosod safon ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli yng Nghymru;
- Annog perchnogaeth pobl ifanc ar y rhaglenni.

Mae cyllid dan y rhaglen ar gael yn y ffyrdd dilynol:

- Mae grant blynyddol o hyd at £8,000 ar gael i sefydliadau a all gynnig cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Defnyddiwyd y grantiau i dalu am y costau'n gysylltiedig gyda rhedeg y prosiectau a gallant gynnwys costau megis hyfforddiant, offer, teithio a threuliau a chostau cefnogaeth eraill sydd eu hangen gan y gwirfoddolwyr. Mae'r WCVA wedi mabwysiadu system o "gylchoedd cynnig" chwarterol ar gyfer ceisiadau i'r gronfa.
- Grant blynyddol o £5,000 i 22 Partneriaeth Cydlynu Leol i hyrwyddo dyfarniad MV i ddarpar wirfoddolwyr a hefyd fudiadau o fewn ardal eu hawdurdod lleol. Disgwylir i'r canolfannau hyn hefyd roi cefnogaeth ac

arweiniad i ymgeiswyr grant. Mae’r elfen hon yn cyfrif am tua 40% o holl gyllid y rhaglen.

- Gall sefydliadau wneud cais am statws MV heb ei ariannu sy’n eu galluogi i fabwysiadu’r model MV o wirfoddoli hyd yn oed os nad ydynt angen cyfraniad ariannol. Mae hyn yn rhoi’r budd i sefydliadau o fabwysiadu’r statws dyfarniad yn ogystal ag elfen o’r gefnogaeth sydd ar gael drwy’r rhaglen.

# 4.0 CANFYDDIADAU

## 4.1 Cyflwyniad

### 4.1.1 Trosolwg o’r Adran

Yn yr Adran hon, cyflwynwn ganfyddiadau ein gwerthusiad, gan dynnu ynghyd y dystiolaeth a gasglwyd o amrywiaeth o ffynonellau, yn cynnwys yr adolygiad o ddeunydd dogfennol yn cyfeirio at y cynlluniau, cyfweliadau gyda rhanddeiliaid ac yn hollbwysig, ein harolwg ffôn a chyfweliadau astudiaeth achos gyda sefydliadau a dderbyniodd grant. Cyflwynir y deunydd mewn tair prif Adran yn cyfeirio at y tri amcan allweddol a osodwyd ar gyfer y gwerthusiad: effeithlonrwydd y tair rhaglen grant wrth gyflawni’r amcanion a osodwyd ar eu cyfer yn unigol a gyda’i gilydd a chynyddu gwirfoddoli yng Nghymru (Adran 4.2); addasrwydd y strwythur ariannu cyfredol - yn cynnwys effeithlonrwydd y dulliau gweithredu cyfredol (Adran 4.3) a gofynion ar gyfer y dyfodol (Adran 4.4).

Fodd bynnag, cyn troi at y canfyddiadau hyn, yn Adran 4.1.2 rhoddwn beth gwybodaeth am y sampl o sefydliadau a dderbyniodd grantiau a roddodd lawer o’r data o fewn yr Adran hon.

### 4.1.2 Proffil Sefydliadau a Arolygwyd

Fel rhan o waith maes y gwerthusiad, cynhaliwyd 50 cyfweliad ffôn yn ystod mis Mehefin 2009 gyda sefydliadau a dderbyniodd grantiau. Cawsant eu dewis i gynrychioli’r tair rhaglen grant ond gydag ychydig o or-gynrychiolaeth o gohort WAC oherwydd maint a natur amrywiol y prosiectau a ariannwyd drwy’r gyfran hon, fel y dangosir yn Nhabl 4.1:

*Tabl 4.1 Sampl Cyfweliadau Ffôn*

| | **Nifer y sefydliadau a dderbyniodd grantiau (2008/09)** | **Targed Cyfweliad** | **Cyfweliadau a Gwblhawyd** |
|---|---|---|---|
| Cymunedau Gweithredol | 27 | 15 | 16 (59%) |
| Gwirfoddoli yng Nghymru | 53[13] | 22 | 22 (42%) |
| Gwirfoddolwyr y Mileniwm | 30[14] | 13 | 12 (40%) |
| Cyfanswm | 110 | 50 | 50 (45%) |


Cynhaliwyd ymweliad dilynol i 12 o'r sefydliadau hyn hefyd - chwech o sampl WAC, tri o VWF a thri o gronfa MV. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda chynrychiolwyr o'r sefydliadau a ariannwyd yn ogystal â gyda sampl o wirfoddolwyr yn ystod mwyafrif yr ymweliadau.

Roedd y sefydliadau a arolygwyd yn cynrychioli ystod resymol o feysydd diddordeb, gyda 13 o'r 21 fforwm pwnc trefniadol/rhwydweithiau trydydd sector a ddynodwyd yn y Trydydd Dimension wedi eu cynrychioli o fewn y sampl. Yn unol â'r proffil ar draws pob prosiect a dderbyniodd gyllid, y meysydd mwyaf poblogaidd o ddiddordeb oedd gweithgaredd ieuenctid (nid yn syndod o gofio am ffocws y rhaglen MV ar y grŵp oedran hwn a'r ffaith i hanner y sefydliadau a dderbyniodd y grant MV ddewis y categori hwn) ac iechyd a gofal cymdeithasol (oedd yn neilltuol o gyffredin ymysg yr is-sampl o raglen y VWF), gyda'r ddau wedi eu dynodi gan wyth sefydliad fel bod eu prif gylch gweithgaredd. Mae Siart 4.1 (ar y dudalen nesaf) yn cyflwyno dosbarthiad sefydliadau ar draws y meysydd diddordeb sector yma.

Yn gyffredinol, roedd proffil y sefydliadau a arolygwyd yn eang iawn o ran eu gorchudd daearyddol. Roedd 30% o'r sefydliadau a gyfwelwyd yn sefydliadau annibynnol yn gwasanaethu ardal leol o ddiddordeb, 12% yn sefydliadau annibynnol yn gwasanaethu ardal ranbarthol o ddiddordeb, 32% arall yn sefydliadau annibynnol gyda diddordeb Cymru-gyfan a 26% yn gangen leol neu ranbarthol o sefydliad Prydeinig mwy.

[13] Ffigur interim a gafwyd gan y WCVA
[14] Gan eithrio'r 22 partner cydlynu lleol a ariannwyd

*Siart 4.1: Meysydd diddordeb sefydliadau*




Amrywiodd y patrwm hwn yn sylweddol ar draws y tair rhaglen grant ac mae'n adlewyrchu'r meini prawf dethol - roedd mwyafrif (75%) y sefydliadau MV yn y ddau gategori cyntaf (ardaloedd diddordeb lleol a rhanbarthol) ac roedd holl sefydliadau WAC yn y ddau gategori olaf (diddordeb Cymru-gyfan neu gangen o sefydliad Prydeinig). Sefydliadau yn derbyn cyllid o'r VWF yng Nghymru oedd fwyaf amrywiol o ran gorchudd daearyddol.

Roedd bron hanner y sampl (46% neu 23 ymatebydd) yn fudiadau wedi'u sefydlu'n dda ar ôl bod mewn bodolaeth ers 1989 neu gynharach, roedd 22% arall (neu 11 ymatebydd) wedi sefydlu yn ystod y 1990au, a'r 30% (neu 15 ymatebydd) arall wedi sefydlu ers 2000[15]. Roedd y sefydliadau a dderbyniodd y grant MV yn tueddu i fod y rhai oedd wedi sefydlu hwyaf, sefydliadau a dderbyniodd gyllid gan VWF ddangosodd y pegynnu mwyaf (gyda hanner y sampl wedi'i sefydlu ers 2000 a'r hanner arall wedi eu sefydlu ers 1989 neu'n gynharach) tra mai sefydliadau a ariannwyd gan y VWF ddangosodd yr amrywiaeth fwyaf yn nhermau oedran y sefydliad.

Yn bennaf, roedd y sefydliadau a arolygwyd yn sefydliadau gweddol fawr o ran eu trosiant gyda 37% (neu 15 ymatebydd) yn adrodd trosiant o fwy na £1 miliwn y flwyddyn a'r un nifer yn adrodd trosiant o dros £100,000 (ond llai na

[15] Ni ymatebodd un sefydliad i'r cwestiwn am flwyddyn sefydlu

£1 miliwn)[16] . Roedd gan y 11 sefydliad arall drosiannau is - ond dim ond tri ohonynt oedd dan £25,000. Ni ddaeth unrhyw batrwm clir i'r amlwg ar draws rhaglenni grant unigol.

Roedd hanner y sefydliadau a arolygwyd (52% neu 24 o'r 46 a ymatebodd) yn cyflogi hyd at ddeg o bobl pan wnaethant gais am gyllid grant, roedd 13 o sefydliadau eraill (neu 28% o'r ymatebwyr), yn cyflogi rhwng 11 a 50 o staff a'r naw arall (neu 20% o ymatebwyr) yn cyflogi dros 51 aelod o staff. Roedd sefydliadau sy'n cyflogi nifer fawr o staff yn fwy tebygol o fod yn derbyn cyllid WAC tra bod sefydliadau yn derbyn cyllid VWF a MV yn fwy tebygol o fod yn cyflogi nifer is.

Daeth yr un patrwm i'r amlwg am nifer y gwirfoddolwyr yng Nghymru sy'n ymwneud â'r sefydliadau pan wnaethant gais am gyllid grant. Roedd y sefydliadau a dderbyniodd gyllid WAC yn tueddu i fod â'r nifer fwyaf o wirfoddolwyr yn ymwneud â'u gweithgaredd ar y cychwyn tra bod gan sefydliadau a dderbyniodd arian o VWF a MV nifer is o wirfoddolwyr yn cymryd rhan. Ar draws yr holl sampl, roedd gan 12 o sefydliadau (neu 26% o ymatebwyr) ddeg neu lai o wirfoddolwyr yn cymryd rhan ar y cychwyn, 13 o sefydliadu â rhwng 11 a 50 o wirfoddolwyr, a 21 o sefydliadau (neu 46% o ymatebwyr) â mwy na 50 o wirfoddolwyr [17].

## 4.2 Adolygu Deilliannau a Gyflawnwyd gan Brosiectau a Ariannwyd

### 4.2.1 Ffit Strategol y Rhaglenni Grant

Yn gyffredinol, er peth diffyg eglurdeb am resymeg y tri chynllun grant ac yn neilltuol dargedu grwpiau penodol o'r boblogaeth, yn gyffredinol ymddengys eu bod yn gydnaws â'r agenda polisi strategol ar gyfer gwirfoddoli yng Nghymru - gyda'i nod o gynyddu'r nifer sy'n gwirfoddoli ac ansawdd "profiad gwirfoddolwyr" a gyda ffocws neilltuol ar bobl ifanc - fel yr amlinellwyd yn y Trydydd Dimensiwn a Cymru'n Un. Mae'r cymorth cyllid grant oedd ar gael hefyd yn ffitio'n dda gydag agenda ymrwymiad y dinesydd sydd i'w weld mewn ystod ehangach o bolisïau Llywodraeth y Cynulliad, megis *"Creu'r Cysylltiadau".* Cafodd y farn hon yn gyffredinol ei chadarnhau gan y rhanddeiliaid y gwnaethom eu cyfweld.

[16] Ni fedrai naw ymatebydd roi ffigur trosiant ar gyfer eu corff.

Fodd bynnag, gan y datblygwyd y tair rhaglen grant yn annibynnol o'i gilydd, holodd nifer o randdeiliaid os oeddent yn awr yn dal i gynnig pecyn cydlynol o gyllid ar gyfer hyrwyddo gwirfoddoli o fewn y trydydd sector. Anghytunai eraill gan ddadlau er y medrai'r rhaglenni grantiau ymddangos *"ychydig yn anghymarus"* yr oedd yn wir resymeg sylfaenol a chydnawsedd yn eu strwythur. Cododd rhai rhanddeiliaid bryderon am y dyblygu rhwng cronfeydd (yn neilltuol bod y VWF a'r MV fel ei gilydd yn targedu pobl ifanc). Yn gyffredinol, ni chredai rhanddeiliaid fod perygl o brosiectau yn 'syrthio rhwng stolion' ond fe wnaeth rhai godi pryderon am y ffaith fod WAC yn amsugno cyfran sylweddol o gyllid ar gyfer nifer fechan o sefydliadau er afles cronfeydd cystadleuol iawn eraill megis y VWF.

Roedd gan randdeiliaid farn gymysg am sut yr oedd y rhaglenni cyllid yn ategu cynlluniau gwirfoddoli eraill - y cynllun allweddol a ddynodwyd oedd GwirVol. Soniodd rhai rhanddeiliaid am y dyblygu posibl rhwng rhaglen gyllid newydd GwirVol[18] a MV gan alw am adolygiad o'r berthynas rhwng y ddau gynllun penodol hyn a theimlai nifer fod y ffaith fod Lloegr yn ymarferol wedi rhoi'r gorau i'r brand MV a'r targed 200 awr yn golygu ei bod yn amser i *"symud ymlaen".* Credai eraill fod MV yn ategu gweithgareddau arfaethedig GwirVol gan ddadlau fod MV yn canolbwyntio ar ansawdd a dyfnder y profiad gwirfoddoli a gafwyd (o gofio ei ffocws ar nifer fawr o oriau gwirfoddoli) tra bo GwirVol yn canolbwyntio ar ddenu cynulleidfa fwy i wirfoddoli drwy hyrwyddo a thargedu gwirfoddolwyr newydd.

Soniodd nifer o randdeiliaid hefyd am y ffaith fod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi cytuno'n ddiweddar gyda WCVA i sianelu cyllid sylweddol i'r trydydd sector i gefnogi cyfleoedd gwirfoddoli gyda ffocws gwaith ar gyfer unigolion di-waith, gan weld hyn yn gyffredinol fel ategiad defnyddiol yn hytrach na dyblygu cynlluniau presennol Llywodraeth y Cynulliad [19].

Roedd consensws cyffredinol fod y tair rhaglen grantiau yn ategu ac yn gweithio wrth ochr y trefniadau presennol ar gyfer cyllid y seilwaith cyllid ac arweiniad sydd ar gael i gefnogi gwirfoddoli, a ystyriwyd yn gyffredinol fel bod

[17] Ni fedrai pedwar ymatebydd roi data ar nifer y gwirfoddolwyr yn ymwneud â'r sefydliad ar y cychwyn
[18] Mae GwirVol yn bartneriaeth a lansiwyd yn swyddogol ym mis Ebrill 2009 i hyrwyddo, cefnogi a hyrwyddo gwirfoddoli ieuenctid yng Nghymru. Mae'r cynllun yn bodoli i weithredu argymhellion y Comisiwn Russell a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

yn welliant sylweddol ar y system flaenorol lle'r oedd cyllid grantiau wedi eu *"brigdorri"* i roi cyllid craidd ar gyfer y Canolfannau Gwirfoddoli. Barnwyd fod rôl y Canolfannau hyn yn rhan hollbwysig o'r gwaith i hyrwyddo gwirfoddoli ac ystyriwyd fod ganddynt rôl hollbwysig fel brocer rhwng gwirfoddolwyr unigol a sefydliadau.

4.2.2 Eglurdeb Amcanion y Rhaglenni Grant

Er yr ystyriwyd bod nodau ac amcanion unigol MV a VWF yn glir, credai rhanddeiliaid fod nodau ac amcanion WAC ychydig yn fwy niwlog. Cydnabu rhanddeiliaid y targedid y grant yma at ariannu prosiectau mawr gyda chylch gorchwyl Cymru-gyfan neu ardal ranbarthol fawr. Fodd bynnag, ni fu bob amser yn glir os bwriedid i'r gronfa gefnogi prosiectau 'cymunedol' neu brosiectau 'gwirfoddoli' - cytunai rhanddeiliaid nad oedd yr amcan cyffredinol yn eglur ar y dechrau. Fodd bynnag mynegwyd pryderon fod rhai o'r sefydliadau a ariannwyd wedi dechrau ystyried y cyllid fel rhan o'u cyllid craidd (yn hytrach na chyllid ar gyfer prosiect penodol) a hyd yn oed o fewn cynllun cyllid cystadleuol bod gan y sefydliadau hyn ddisgwyliadau uchel am gyllid parhad.

Credai'r rhan fwyaf o randdeiliaid mai un rhesymeg sylfaenol allweddol ar gyfer pob un o'r tair rhaglen grantiau oedd y byddai gwirfoddolwyr yn medru datblygu amrediad o sgiliau a phrofiadau a fyddai'n eu galluogi i fanteisio ar gyfleoedd y dyfodol, yn cynnwys rhai'n gysylltiedig â chyflogaeth - mewn geiriau eraill, gwirfoddoli fel datblygiad personol yn hytrach na dim ond fel ffordd o ddarparu gwasanaethau neu gefnogaeth i drydydd parti. Ystyriwyd fod MV wedi ei anelu'n neilltuol i ddiwallu'r amcan hwn gan ei fod yn rhoi cyfle i bobl ifanc gael mynediad i leoliadau gwirfoddoli cyson ac fel canlyniad: *"Yr hyn a gânt allan ohono yw'r sgiliau a'r hyder a'r garreg gamu i fynd ymlaen i bethau eraill."*

Roedd hefyd gytundeb cyffredinol ymysg rhanddeiliaid fod amcan sylfaenol arall ar gyfer y rhaglenni grant yn gysylltiedig â chyrraedd cynulleidfaoedd targed nad oedd yn cael eu cyrraedd drwy lwybrau gwirfoddoli traddodiadol. Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod fod gweithgaredd gwirfoddoli wedi digwydd ac y bydd yn parhau i ddigwydd heb ystyried y rhaglenni ariannu ond bod yr

[19] http://www.dwp.gov.uk/newsroom/press-releases/2009/january-2009/emp124-120109.shtml

arian yn galluogi sefydliadau i *"gyrraedd y bobl na fyddent yn draddodiadol yn wirfoddolwyr".* Roedd consensws cyffredinol ymysg rhanddeiliaid y sefydlwyd y rhaglenni grant i ganolbwyntio ar ysgogi gweithgaredd gwirfoddoli mewn ardaloedd neu grwpiau lle na fodolai'n flaenorol. Fodd bynnag roedd llai o gonsensws os mai'r grwpiau targed a ddetholwyd oedd y rhai mwyaf addas. Credai'r rhan fwyaf o randdeiliaid y bu achos cryf dros ysgogi gwirfoddoli ymysg rhai grwpiau megis pobl ifanc, pobl ddiwaith ac unigolion segur. Fodd bynnag, cododd eraill gwestiynau am y ffocws ar grwpiau megis pobl hŷn (gyda'r data yn awgrymu eu bod yn tueddu i gael eu cynrychioli'n dda mewn gweithgaredd gwirfoddoli [20]) a dweud ei bod yn bwysig peidio tybio y dylai pob grŵp gyda chyfranogiad isel mewn gwirfoddoli gael eu targedu, gan sôn am rieni unigol fel enghraifft (lle'r oedd cyfiawnhad am y rhesymau dros ddiffyg ymrwymo mewn gwirfoddoli).

Dros gyfnod gwnaed rhai newidiadau i'r grwpiau targed a gefnogir gan y rhaglenni grant, yn arbennig y VWF e.e. cynnwys mewnfudwyr/ffoaduriaid. yn y VWF ac addasu'r diffiniad o bobl hŷn i 50+ yn hytrach na 60+. Roedd rhanddeiliaid yn croesawu'r newidiadau hyn ac yn credu ei fod yn gryfder fod y rhaglenni grant wedi medru mabwysiadu cynulleidfaoedd targed newydd neu wahanol. Credid mai'r unig eithriad i hyn oedd y WAC - gan fod hyn yn gylch cyllid tair blynedd, nid oedd yn ddigon hyblyg i ymateb i ofynion newydd gan grwpiau targed unwaith y dyrannwyd cyllid i gyrff. Fel canlyniad, galwodd rhai rhanddeiliaid am fwy o hyblygrwydd o fewn cronfa'r WAC i ymateb i amgylchiadau ar sail flynyddol a rhoi cwmpas i Lywodraeth y Cynulliad i efallai ariannu prosiectau peilot gyda'u ffocws ar flaenoriaethau newydd y Llywodraeth - megis effaith yr hinsawdd economaidd er mwyn targedu pobl ddiwaith neu bobl ifanc yr effeithid fwyaf arnynt gan newidiadau o'r fath.

### 4.2.3 Ceisiadau Prosiect a Chynigion Cyllid

*Cymru: Y Fenter Cymunedau Gweithredol*

Roedd y data a wnaed ar gael i ni gyfer Cymru: Y Fenter Cymunedau Gweithredol (WAC) a gynhwyswyd yn Adroddiad Diwedd y Flwyddyn 2007-08 WCVA a data taenlen lefel gronnus, ynghyd â thua dau-draean yr

[20] Gweler y cyfeiriad at Byw yng Nghymru yn Adran 3 uchod.

Adroddiadau Interim ar brosiectau unigol yn trafod perfformiad (yn cynnwys peth data cronnus) am chwe mis cyntaf 2008-2009.[21]

Derbyniwyd 52 cais i ddechrau a chefnogwyd 27 prosiect dan raglen grant WAC Fodd bynnag, aeth Weston Spirit, sefydliad yn canolbwyntio ar weithgareddau cyfranogiad ieuenctid, i ddwylo'r gweinyddydd yn ystod blwyddyn ariannol 2008-2009 a methodd barhau â'i ymgyfraniad. Cymerwyd ei le gan Rathbone Training, yn yr hyn a ystyriwyd yn newid "tebyg am debyg", a dderbyniodd ddwy flynedd o gyllid yn dechrau yn 2008-09.

Mae Tabl 4.2 yn rhoi gwybodaeth gefndir ar geisiadau a chynigion cyllid WAC. Dengys y tabl fod y rhaglen wedi cefnogi 28 o brosiectau ar wahân yn rhannu tua £1m o arian y flwyddyn gan Lywodraeth y Cynulliad. Amrywiai prosiectau o ran maint o cyn lleied â £14,000 a £29,000 y flwyddyn ar gyfer cynlluniau Cymdeithas Achub Bywyd Syrffio ac Ymddiriedolaeth Coetiroedd i dros £240,000 y flwyddyn ar gyfer prosiectau "Scope" a Busnes yn y Gymuned.

Dim ond i dri o'r prosiectau y dyfarnwyd cyllid oedd yn gyfartal â'r cyfanswm a geisiwyd a dim ond 50% o'r swm y gwnaethant gais amdano a dderbyniodd mwyafrif y prosiectau eraill (13 ohonynt). Mae hyn yn awgrymu'r graddau y cafodd cyllid ei 'ledaenu' yn hytrach nag ymagwedd fwy crynoëdig ac yn golygu fod angen i'r rhan fwyaf o sefydliadau a ariannwyd un ai gael ffynonellau eraill o gyllid er mwyn cyflenwi eu prosiectau neu gwtogi maint eu gweithgareddau. Roedd prosiectau WAC yn sylweddol fwy na'r rhai a ariannwyd drwy'r ddwy raglen ariannu eraill gyda chyllid cyfartalog blynyddol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer prosiectau WACyn fwy na £110,000 y prosiect.

Er bod canllawiau ceisiadau'n dweud yn glir y dylai prosiectau fod yn weithredol ym mhob rhan o Gymru, mewn gwirionedd dim ond dau-draean o'r prosiectau a ariannwyd oedd yn ceisio gwneud hyn gyda'r traean arall yn dewis gweithredu mewn rhannau mawr o Gymru megis gogledd neu dde Cymru.[22]

[21] Cyflwynwyd 18 Adroddiad Interim ar gyfer 2008-09 i CGGC ac fe'u hanfonwyd at y gwerthuswyr i'w hadolygu.

[22] Dywedodd 19 o'r 28 prosiect a ariannwyd yn benodol eu bod yn ceisio gorchudd 'Cymru-gyfan', ceisiau eraill i gael gorchudd mewn rhannau mawr o Gymru e.e. 'Gogledd Cymru a De Cymru'.,

*Tabl 4.2: Ceisiadau a Chynigion Ariannu WAC*

| | Blwyddyn 1 2007-08 | Blwyddyn 2 2008-09 | Blwyddyn 3 2009-10 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru | £1,000,000 | £1,025,000 | £1,050,625 | £3,075,625 |
| Ceisiadau a ystyriwyd | 52 | 1 | dim ar gael | 53 |
| Nifer prosiectau newydd a ariannwyd | 27 | 1 | 0 | 28 |
| Cyfanswm Swm Grant y gwnaed cais amdano (pob ymgeisydd) | £4,102,557 | £4,184,915 | £4,232,065 | £12,519,537 |
| Cyfanswm Grantiau y gofynnwyd amdanynt (ymgeiswyr llwyddiannus) | £2,041,846 | £2,012,367 | £2,059,933 | £6,114,146 |
| Grantiau a Gytunwyd Adeg Gwneud Cais | £999,960 | £988,359 | £1,013,209 | £3,001,528 |

Dangosodd y data ar sefydliadau a wnaeth gais fod 17 o'r 28 cynnig llwyddiannus (a 33 o'r 53 ymgeisydd i gyd) gan sefydliadau yn seiliedig yng Nghaerdydd. Fodd bynnag mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu dwysedd cymharol sefydliadau gwirfoddol mwy yn seiliedig yn y brifddinas yn hytrach na bod yn adlewyrchiad o unrhyw gyfyngiadau wrth roi cyhoeddusrwydd i'r rhaglen.

Fel canllaw dangosol, prosiectau gyda ffocws ar ieuenctid oedd y math amlaf o brosiect a ariannwyd: roedd tua 25% o'r holl sefydliadau prosiect a ariannwyd yn y categori hwn. Fel gyda'r ddwy raglen grant arall, roedd cynrychiolaeth dda hefyd o sefydliadau gyda ffocws iechyd.

Nodwyd fod prosiectau a ariannwyd gan WAC yn tueddu i dargedu ystod cymharol eang o grwpiau targed ac mai pobl 16-25 oed, pobl o gymunedau du a lleiafrif ethnig a phobl anabl gafodd eu targedu orau.[23] Roedd y cynulleidfaoedd targed yn cynnwys rhai na nodwyd i ddechrau ar gam dylunio'r prosiect ac yn ymarferol ariannodd y rhaglen brosiectau oedd yn cefnogi grwpiau ar draws naw ardal (o gymharu â chwech gwreiddiol). Y meysydd targed 'newydd' a ddaeth i'r amlwg oedd menywod, ardaloedd difreintiedig/incwm isel ac unigolion di-waith.

Awgrymodd adroddiad Crynodeb Diwedd y Flwyddyn WCVA yn ymarferol mai ychydig o brosiectau oedd yn gwrthod gorchudd daearyddol ledled Cymru ond bod rhai yn cael eu cyfynjgu gan safleoedd llinell sylfaen cymharol fach.

*Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru*

Cafwyd gwybodaeth ar ddangosyddion allweddol a gwariant ar gyfer y VWF rhwng 2007 a 2010. Mae Tabl 4.3 yn rhoi data yng nghyswllt y ceisiadau a'r dyfarniadau ar gyfer y rhaglen grant hon. Dengys i raglen VWF dderbyn 441 cais am dros £7.3 miliwn dros y tair blynedd a darparu bron £1.9 miliwn i 156 o'r prosiectau hyn. Mae hyn yn raddfa gymeradwyaeth o ychydig dros draean yn nhermau nifer y prosiectau a thua chwarter yn nhermau'r cyllid y gofynnwyd amdano. Fodd bynnag, dylid cofio fod yn rhaid i brosiectau a ariennir ym Mlwyddyn 1 grant lenwi cais ar gyfer Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3, sy'n golygu fod cyfradd llwyddiant ceisiadau 'newydd' yn sylweddol is - efallai mor isel ag un mewn pump - hyd yn oed ar ôl caniatáu am y ffaith nad yw pob sefydliad yn ailymgeisio. Mae hyn yn awgrymu fod llawer iawn mwy o geisiadau nag o gyllid ar gael ar gyfer y rhaglen hon (yn neilltuol o gymharu gyda'r ddwy raglen arall). Cadarnhawyd y canfyddiad hwn gan randdeiliaid a oedd yn bennaf yn cytuno mai dyma'r gronfa yr oedd mwyaf o gynigion amdani heb fod cyllid ar eu cyfer.

Mae'n amlwg y bu cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau yn 2008-09 efallai'n adlewyrchu nifer o ffactorau - y datblygiadau mewn gweithgareddau codi ymwybyddiaeth gan y WCVA,[24] gwaith y 'Ddesg Gymorth' yn cefnogi cyfraddau uchel o gwblhau (yn 2008-09 cyhoeddwyd 193 pecyn cais/gwybodaeth, ac aeth 90% ymlaen o'r sefydliadau a dderbyniodd ymlaen i gyflwyno cynnig) a'r gostyngiad mewn ffynonellau eraill o gyllid megis y Loteri yn ystod y flwyddyn.

Mae'r canfyddiadau'n dangos cysondeb amlwg yn nifer y prosiectau a gefnogwyd bob blwyddyn: yn 2007-08 a 2008-09 roedd tua 40% o'r prosiectau yn gynlluniau 'Blwyddyn 1' a thua traean yn gynlluniau 'Blwyddyn 2'. Mae hyn yn rhannol gysylltiedig gyda lefelau cyllideb cyffredinol sydd wedi parhau'n gyson mewn termau real [25] er y gall hefyd adlewyrchu'r hyn a dybir yw'r cyfuniad gorau rhwng prosiectau newydd a phrosiectau dilynol.

[23] Seiliedig ar ddata cais Cymru: Y Fenter Cymunedau Gweithredol

[24] Er fod yr union berthynas yn aneglur – dywed Adroddiad Interim 2008-09 (Hydref 2008) y cynhaliwyd nifer o weithgareddau cyhoeddusrwydd y flwyddyn ariannol honno, ond mae'n debygol y byddai ceisiadau am brosiectau 'byw ' yn 2008-09 fel arfer wedi eu cwblhau yn 2007-08, hynny yw, cyn y gweithgaredd hyrwyddo.

[25] Mae cyllideb 2009-10 yn £643,496, 2.5% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, yn unol gyda chynnydd blaenorol

*Tabl 4.3 Ceisiadau a Chynigion Cyllid VWF*

| | Blwyddyn1 2007-08 | Blwyddyn 2 2008-09 | Blwyddyn 3 2009-10 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ceisiadau a ystyriwyd | 125 | 174 | 142 | 441 |
| Nifer y prosiectau a ariannwyd | 56 | 53 | 49 | 156 |
| Cyfanswm swm grant y gwnaed cais amdano (pob ymgeisydd) | £2,158,264 | £3,175,560 | £2,009,777 | £7,343,601 |
| Grantiau a gytunwyd pan wnaed cais (ymgeiswyr llwyddiannus) | £611,790 | £627,801 | £649,628 | £1,889,219 |

Roedd lefel cyfartalog y cymorth prosiect yn 2008-09 tua £11,000 y flwyddyn. Drwy'r dull tapr amrywiai hyn o tua £18,000 ar gyfer prosiectau 'Blwyddyn 1' i £4,000 ar gyfer prosiectau 'Blwyddyn 3'. Mae'r rhan fwyaf o geisiadau wedi tueddu i fod tuag at ben uchaf yr hyn a ganiateir: derbyniodd tua hanner y ceisiadau llwyddiannus gyllid o 80% neu fwy o'r uchafswm am y flwyddyn honno, gyda 16% yn derbyn y grant llawn a ganiateid. Ychydig o ymgeiswyr a geisiodd gyllid ar ben isaf y lefelau a ganiateir.

Yn nhermau'r mathau o brosiectau a ariannwyd, roedd nifer ohonynt yn cynnwys dau neu fwy o sectorau a ddiffiniwyd gan y Trydydd Dimensiwn. Fodd bynnag, dengys dadansoddiad o grynodebau gweithgaredd prosiect ar gyfer 2007 i 2008 bwyslais cymharol gryf ar 'Iechyd a Gofal Cymdeithasol' a 'Cyngor ac Adfocatiaeth', heb fawr ddim o'r sectorau 'Crefyddol' a 'Cymorth rhyngwladol/argyfwng'.

Medrir dod i gasgliadau cadarnach o leoliad prosiectau a'u hardaloedd cyflenwi. Targedodd tua 21% y prosiectau Gaerdydd yn y cyfnod ariannol 2007-09. Roedd prosiectau 'Cymru gyfan' yn cynrycholi 12% o'r cyfanswm am y ddwy flynedd. Fodd bynnag, tu hwnt i hyn, mae'r prosiect wedi dangos pwyslais clir ar siroedd mwy gwledig. Cafodd chwarter y prosiectau rhwng 2007 a 2009 eu cyflwyno yng Ngwynedd, Powys, Ceredigion, Sir Benfro neu Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn cymharu gyda dim ond 18% o brosiectau a gyflwynwyd yn ardaloedd cymharol fwy poblog Abertawe, Casnewydd, Wrecsam, Rhondda Cynon Taf a Chaerffili. Ymddengys bod ardaloedd Cymoedd De Cymru, yn neilltuol, wedi derbyn yn gymharol lawer llai o gymorth fesul pen o'r VWF. Mae'r rhesymau am hyn yn aneglur ond medrent gynnwys wrth gwrs, alluedd y canolfannau gwirfoddoli, i ba raddau y cynhelir

gweithgareddau hyrwyddo yn yr ardal, a'r cymorth grant arall sydd ar gael. Fodd bynnag, byddai'n ymddangos yn annhebyg fod hyn yn cyfeirio at natur y grwpiau targed gan fod canran uwch o bobl iau, y di-waith a grwpiau pobl dduon a lleiafrif ethnig yn ardaloedd mwy trefol Cymru.

Mae adborth gan randdeiliaid yn cadarnhau'r ffaith nad yw'r VWF wedi darparu'n dda ar gyfer ardaloedd gyda dwysedd poblogaeth isel megis Cymoedd De Cymru ac mai *"ychydig iawn o geisiadau a phrosiectau llwyddiannus"* a welodd y gronfa o'r ardaloedd hyn. Cododd rhai bryderon am hyn yn arbennig oherwydd bod cronfeydd eraill (megis Sefydliad Carnegie) wedi'u sefydlu'n benodol i dargedu cymunedau gwledig. Ar y llaw arall, awgrymodd rhanddeiliaid eraill y medrai ardaloedd trefol amddifadus fod wedi cyrchu ffynonellau eraill o gyllid cystadleuol mwy a llai cystadleuol (megis cyllid Cymunedau yn Gyntaf) - er ei bod yn ddiddorol i'n gwerthusiad diweddar o'r rhaglen Cymunedau@Ei Gilydd a dargedwyd yn benodol at ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ganfod patrwm tebyg o gymharol lai o gyllid yn cael ei gyrchu gan grwpiau mewn ardaloedd fel Cymoedd De Cymru, efallai'n dangos diffyg galluedd grwpiau gwirfoddol a chymunedol mewn ardaloedd o'r fath i ymateb yn effeithlon i systemau cyllid cystadleuol.

Yn ddiddorol, fodd bynnag, credai rhanddeiliaid gyda llai o ymwneud gyda'r gronfa nad oedd llawer o geisiadau'n dod i law gan sefydliadau bach mewn ardaloedd gwledig ac yng ngogledd Cymru. Mae'n bosibl i'r canfyddiad hwn gan ei borthi gan y diffyg gwybodaeth oedd gan rhai canolfannau gwirfoddolwyr am y prosiectau a ariannwyd o fewn eu hardal (ac yn sicr byddai gwybodaeth o'r fath wedi ei groesawu gan y rhai a gyfwelwyd).

*Gwirfoddolwyr y Mileniwm*

Derbyniodd y rhaglen MV 198 cais am dros £1.1 miliwn ers 2007 ac wedi rhoi dros £766,000 i 140 o'r prosiectau hyn (gweler Tabl 4.4). Ar gyfartaledd cafodd tua 50-55 prosiect eu cefnogi'n ariannol bob blwyddyn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf sy'n cynnwys y 22 prosiect Partneriaeth Cydlynu Lleol a ariannwyd. Mae natur dreigl proses gais y rhaglen yn golygu mai dim ond 44 cais (yn cynnwys ceisiadau'r Partneriaethau Cydlynu Lleol) a dderbyniwyd hyd yma ar gyfer 2009-10. Fodd bynnag, mae hyn yn ffigur tebyg i'r un cyfnod yn 2008-09, gan awgrymu y derbynnir cyfanswm o tua 75 o 80 o geisiadau eto ar gyfer 2009-10.

Bu tua thri ym mhob pedwar o'r ceisiadau yn llwyddiannus; cymhareb weddol gyson dros y blynyddoedd. Yn 2008-09, y grant fesul prosiect oedd £5,157 (ychydig yn uwch ar gyfer Partneriaid Cyflenwi yn unig). Roedd y ffigur hwn 12% yn is na'r flwyddyn flaenorol. Dengys archwiliad agosach mai ychydig o bartneriaid cyflenwi dderbyniodd y grant llawn o £8,000 ac ymhellach nad oedd cydberthynas glir rhwng swm y cyllid a'r sector neu fath o sefydliad a gyflenwodd y prosiect.

*Tabl 4.4 Ceisiadau a Chynigion Cyllid Gwirfoddolwyr y Mileniwm*

| | **2007-08** | **2008-09** | **2009-10 hyd yma** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Nifer ceisiadau | 76 | 78 | 44 | 198 |
| Nifer ceisiadau llwyddiannus | 55 | 52 | 33 | 140 |
| Cyfanswm swm grant y gwnaed cais amdano | £418,978 | £448,543 | £256,248 | £1,123,769 |
| Cyfanswm grantiau a ddyfarnwyd | £321,106 | £268,172 | £176,990 | £776,268 |

Dangosodd dadansoddiad o ddata prosiect 2008-09 orchudd daearyddol da ar draws Cymru. Cafodd ceisiadau eu derbyn, a phrosiectau eu hariannu, ym mhob sir yng Nghymru. Caerdydd dderbyniodd y nifer fwyaf o geisiadau (12) er mai Abertawe oedd â'r nifer fwyaf o brosiectau a ariannwyd (7%) - sy'n cynrychioli cyfradd lwyddiant o 100% ar gyfer y ceisiadau a gyflwynwyd yn y sir honno. Yn gyffredinol, mae patrwm y prosiectau a ariannwyd yn dangos gorchudd gweddol gyfartal ar draws y siroedd. O gofio'r amrywiad cymharol fach yng nghyllid y prosiect, mae hyn yn awgrymu gwariant gweddol debyg ar draws y rhan fwyaf o siroedd yng Nghymru. Sylwir fodd bynnag na chafodd unrhyw Bartneriaid Cyflenwi eu hariannu (na cheisiadau wedi eu derbyn) yn 2008-09 yn sir Caerffili, Sir Ddinbych a Sir Gaerfyrddin.[26]

Wrth gwrs, medrai gorchudd cynhwysfawr ar draws Cymru godi pryderon os oedd Partneriaid Cyflenwi yn cael eu hariannu oherwydd 'eu bod yn gorchuddio sir' yn hytrach nag ansawdd cymharol eu cais. Yn yr un modd, ar faterion ansawdd, ymddengys hefyd fod gan Bartneriaid Cyflenwi gyfle uwch o lwyddo os nad ydynt yn cyflwyno ceisiadau yng nghohort mis Mawrth. Mae'n aneglur os yw hyn yn benderfyniad agored a gymerwyd gan yr Aseswyr yn seiliedig ar gyflawni nifer cymharol gyson o ddechreuadau

[26] Dim ond Partneriaethau Cydlynu Lleol a ariannwyd

newydd ar draws cyfnodau chwarter, neu os yw'n cyfeirio at ffactorau eraill megis amrywiaeth yn argaeledd y cymorth i ymgeiswyr ar draws y flwyddyn. Sicrhawyd gwasgariad da hefyd yn y math o sefydliadau Partner Cyflenwi, er, fel y medrid disgwyl, sefydliadau math 'ieuenctid' ac 'addysg' oedd y mwyaf niferus. Cafodd cyfran uwch o'r prosiectau eu harwain gan sefydliadau yn y sectorau chwaraeon a hamdden; amgylcheddol a lles anifeiliaid o gymharu â rhaglenni'r VWC a WAC. Yn yr un modd, roedd cymharol lai o ddiddordeb gan sefydliadau yn y sector iechyd ac anabledd. Ym mhob achos, y grŵp targed oedd, wrth gwrs, bobl 16-24 oed.


Ar hyn o bryd, caiff deg prosiect 'nas ariennir' eu cyflenwi ar draws wyth sir yng Nghymru. Ymddengys fod y rhaglen wedi sicrhau cyfuniad da o sefydliadau yma hefyd, yn cynnwys ieuenctid, cyfiawnder cymunedol, addysg, chwaraeon a hamdden, a Phartneriaid Cyflenwi yn canolbwyntio ar gyngor ac arweiniad.

*Barn y Sector - Ceisiadau a Chynigion Cyllid*

Mae adborth o'r sefydliadau a arolygwyd a dderbyniodd grant yn cadarnhau'r data a gafwyd gan yr WCVA, gyda llawer o ymgeiswyr yn gorfod derbyn lefel llawer is o gyllid nag y gwnaethpwyd cais amdano i ddechrau (yn aml cyn lleied â hanner yr hyn y gwnaed cais amdano'n wreiddiol). Er enghraifft, er mai dim ond 18 corff (neu 36% o ymatebwyr) a wnaeth gais am gyllid o lai na £10,000, yn ymarferol cynigiwyd grantiau i 31 sefydliad (neu 64% o ymatebwyr) o'r maint hwn. Ar y llaw arall er i 11 sefydliad wneud cais am gyllid grant o dros £100,000, dim ond tri sefydliad a gafodd grant dros £100,000. Roedd hyn yn neilltuol o wir am y rhaglenni grant VWF a WAC fel y dangosir yn Siart 4.2 (trosodd) sy'n dangos y bu'n rhaid i bron y cyfan o'r ymgeiswyr hyn am grantiau setlo am gynnig cyllid is.

Dywedodd ychydig dan hanner y sefydliadau a arolygwyd (24 sefydliad neu 48% o'r ymatebwyr) fod gan eu prosiect gylch gorchwyl Cymru-gyfan. Roedd y rhan fwyaf ohonynt (15 sefydliad) yn brosiectau a ariannwyd gan WAC er ei bod yn werth nodi y dywedodd dau sefydliad a ariannwyd gan WAC nad oedd ganddynt orchwyl Cymru-gyfan.

*Siart 4.2: Ceisiadau a Dyfarniadau Cyllid - Sefydliadau a Arolygwyd*




Roedd nifer o brosiectau yn gweithredu mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol a'r rhai gyda'r gorchudd gorau oedd yr awdurdodau lleol hynny yn ne ddwyrain Cymru yn cynnwys Caerdydd (chwe phrosiect), Bro Morgannwg (pum prosiect) a Merthyr Tudful (pedwar prosiect). Nid oedd cynrychiolaeth gystal o fewn ein sampl yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru gyda dim ond chwe phrosiect er enghraifft yn gorchuddio pob rhan o ogledd Cymru - mae hyn yn fwy o arwydd o gyfradd ymateb is gan y rhanbarthau hynny i'n harolwg na'r union nifer o brosiectau a gefnogir yn yr ardaloedd hyn.

4.2.4 Nodau ac Amcanion y Prosiect

Nid oes gwybodaeth am nodau ac amcanion y prosiect yn y data cronnus ond mae ar gael o'n data arolwg ffôn.

Fel y dangosir yn Siart 4.3 yr heriau gwirfoddoli allweddol yn wynebu'r sefydliadau a arolygwyd cyn cyflwyno cais am grant oedd anawsterau'n recriwtio gwirfoddolwyr newydd (y soniodd 26 neu 52% o'r holl ymatebwyr amdanynt) ac anawsterau'n recriwtio gwirfoddolwyr newydd o amrywiaeth o gefndiroedd a phrofiad (a nodwyd gan 24 sefydliad neu 48% o'r holl ymatebwyr). I bob sefydliad a dderbyniodd arian gan y VWF, tybiwyd mai recriwtio gwirfoddolwyr newydd oedd yr her fwyaf (nodwyd gan 14 o'r 22


sefydliad neu 64% o ymatebwyr VWF) a ddilynwyd gan anawsterau yn cadw gwirfoddolwyr newydd.

O gymharu, ar gyfer rhai'n derbyn cyllid o'r VWF, barnwyd mai mater recriwtio sylfaen gwirfoddoli mwy amrywiol oedd yr anhawster mwyaf (nodwyd gan 14 o'r 16 neu 63% o sefydliadau'r VWF) a ddilynwyd gan anawsterau yn recriwtio gwirfoddolwyr newydd yn gyffredinol. Mae'n werth nodi fod y gronfa hon o sefydliadau hefyd yn llawer mwy tebyg o ddweud eu bod wedi wynebu anawsterau wrth hyrwyddo eu sefydliad i ddarpar wirfoddolwyr - gan efallai adlewyrchu'r ffaith eu bod yn gyffredinol yn sefydliadau mawr ac yn gorfod canfod gwirfoddolwyr newydd yn gyson.

Ar y llaw arall sefydliadau yn ymwneud gyda MV oedd fwyaf tebygol o nodi mai anawsterau yn ymwneud â hyfforddi neu gynyddu sgiliau gwirfoddolwyr oedd yr her fwyaf (gyda phump o'r 12 sefydliad neu 42% o ymatebwyr MV yn nodi fod hyn yn broblem) a ddilynwyd gan anawsterau yn darparu cyfleoedd a lleoliadau gwirfoddoli. Efallai bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith a ymddangosodd iddi gael ei chadarnhau gan ein hastudiaethau achos fod cynlluniau MV yn pryderu llai am ddenu gwirfoddolwyr yn y lle cyntaf na'u cadw i gymryd rhan a gwella ansawdd y cyfleoedd a gynigir.

Dynododd deg sefydliad i gyd heriau gwirfoddoli eraill oedd yn eu hwynebu, yn cynnwys peidio medru cyrchu cyllid i dalu am y costau yn gysylltiedig â gwirfoddoli, diffyg staff i recriwtio a rheoli tîm gwirfoddolwyr yn ogystal â bod gwirfoddoli yn faes gwaith nad oeddent wedi ymwneud ag ef yn flaenorol. Dywedodd dau sefydliad mai eu prif broblem oedd gormod o alw: *"fel arfer mae gennym fwy o wirfoddolwyr â diddordeb nag y medrwn eu cymryd".*


*Siart 4.3: Heriau gwirfoddoli yn wynebu sefydliadau (%)*




Fel y medrid disgwyl, mae'r amcanion ar gyfer y sefydliadau yn nhermau eu cais am gyllid yn adlewyrchu'n glir yr anawsterau tybiedig oedd yn eu hwynebu. Felly, yr un amcan pwysicaf ar draws y prosiectau a ariannwyd oedd recriwtio gwirfoddolwyr newydd (a nodwyd gan 28 sefydliad neu 56% o'r holl ymatebwyr) a ddilynwyd gan y nod o recriwtio gwirfoddolwyr newydd o grwpiau targed penodol megis pobl anabl, pobl o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig (a nodwyd gan 18 sefydliad neu 36% o'r holl ymatebwyr). Dangosir hyn yn Siart 4.4.

Rhoddodd sefydliadau yn ymwneud â'r VWF fwy o bwyslais ar recriwtio gwirfoddolwyr newydd (yr un amcan pwysicaf) yn ogystal ag amcanion eraill megis gwella cadw gwirfoddolwyr a chynyddu'r ymrwymiad gan gronfa bresennol o wirfoddolwyr. Nododd sefydliadau a ariannwyd gan WAC y gallu i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli i ddarpar wirfoddolwyr newydd fel eu prif amcan (nodwyd gan wyth sefydliad neu 50% o'r sefydliadau WAC a arolygwyd) a ddilynwyd gan y cyfle i recriwtio gwirfoddolwyr newydd o grwpiau targed penodol. Rhoddodd sefydliadau WAC hefyd fwy o bwys na'u cymheiriaid ar amcan gwell rheolaeth cynlluniau a gweithgareddau gwirfoddoli. Roedd sefydliadau a ariannwyd drwy MV yn dodi llawer mwy o bwyslais ar hyfforddiant a chynyddu sgiliau eu gwirfoddolwyr (gyda naw sefydliad neu 75% o holl sefydliadau MV yn dewis yr opsiwn hwn), yn ogystal â medru darparu mwy o gyfleoedd/lleoliadau gwirfoddoli.

*Siart 4.4: Nodau ac Amcanion Prosiectau*




Cadarnhawyd y canfyddiadau hyn gan yr adborth a gafwyd gan y sefydliadau hynny a gyfwelwyd, gyda phrosiectau WAC yn dangos llawer mwy o amrywiaeth ac mewn sawl achos â chysylltiad agosach â hybu amcanion y sefydliad yn nhermau amrywiaeth a “delwedd”, roedd prosiectau MV yn canolbwyntio mwy ar wella profiad gwirfoddoli a phrosiectau VWF yn ymwneud yn fwy uniongyrchol gyda chefnogi recriwtio gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, roedd yn ddiddorol y cyfeiriodd llawer o sefydliadau at nodau ac amcanion eu prosiect fel bod yn ymwneud â gwasanaeth neu ddarpariaeth a bod y ffocws ar wirfoddoli mewn ffordd yn gyfrwng ar gyfer cyflenwi’r gwasanaeth, gyda datblygiad personol ac ansawdd y gwirfoddoli yn bendant iawn yn amcan eilaidd. Ystyriwyd yn aml fod gwirfoddoli yn ffordd gost-effeithlon i gyflenwi amcanion ehangach sefydliad. Yn yr ystyr hwn fe welsom enghreifftiau o sefydliadau oedd yn ymarferol wedi defnyddio’r grant i ehangu eu darpariaeth neu wasanaeth craidd yn hytrach na datblygu ‘prosiect’ hollol newydd.

4.2.5 Perfformiad ar Dargedau

*Cymru: y Fenter Cymunedau Gweithredol*

Cawsom Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2007-08 WCVA ac adroddiad Interim Ebrill-Medi 2008 ar gyfer pob un o brosiectau WAC. Mae’r adroddiadau’n rhoi gwybodaeth gynhwysfawr ar ystod o fesurau targed, a gytunwyd gyda phob sefydliad a ariannwyd gan WAC. Mae’r mesurau hefyd yn cynnwys nifer o

fesurau'n gysylltiedig â seilwaith, proses a cherrig milltir yn ogystal â ffigurau deilliant meintiol yn cynnwys nifer gwirfoddolwyr newydd. Mae'n amlwg y diffiniwyd y targedau ar y lefel prosiect i fod mor addas ag sydd modd i'r gweithgaredd a gynlluniwyd. Mae systemau casglu data prosiect hefyd yn amrywio i adlewyrchu'r anghenion a ddisgrifiwyd ar lefel y prosiect yn cynnwys, mewn rhai prosiectau, arolygon a gwblhawyd megis lefelau boddhad cwsmeriaid, yn ogystal â chofnodion mwy cyffredinol o weithgaredd prosiect.

Mae data lefel cronnus a roddwyd gan WVCA yn awgrymu perfformiad da ar y targedau yn ystod 2007-08. Yn 2007-09, recriwtiwyd 6,108 o wirfoddolwyr ar draws 22 o'r prosiectau (yr oedd data ar gael ar eu cyfer), 54% yn uwch na'r targed a gytunwyd ar draws y prosiectau hyn i gyd. Yn yr un modd, roedd Adroddiadau Interim prosiectau, oedd ar gael am y chwe mis cyntaf o weithgaredd yn 2008-09 yn dangos cynnydd parhaus: o'r 18 Adroddiad Interim a dderbyniwyd, ymddangosai fod dau draean yn gadarn ar y trac i gyflawni eu targed 'gwirfoddolwyr newydd a recriwtiwyd' erbyn mis Mawrth 2010.

Dylid nodi ei bod yn anodd mewn rhai achosion i benderfynu beth oedd yn cael ei gyfrif fel 'gwirfoddolwr' gan yn aml fod y nifer a recriwtiwyd a'r nifer a hyfforddwyd wedi'u cofnodi fel gwirfoddolwr newydd. Roedd yn aneglur lle yn y broses yr oedd person a recriwtiwyd yn dod yn wirfoddolwr, neu i'r gwrthwyneb, os oedd gwirfoddolwyr heb eu hyfforddi yn mynd ymlaen i wneud gwaith gwirfoddol (efallai ddi-grefft) o fewn y sefydliad. Yn y cyswllt hwn, mae diffyg cysondeb yn y defnydd o 'oriau gwirfoddoli' fel mesur yn wendid amlwg yn y trefniadau monitro.

Mae perfformiad yng nghyswllt y llu o ddangosyddion eraill a fabwysiadwyd gan brosiectau hefyd yn ymddangos yn gryf. Roedd y gweithgaredd prosiect a adroddwyd ar gyfer 2007-08 (blwyddyn 1) yn cynnwys sefydlu 126 o grwpiau cefnogaeth, cyflenwi 131 o gyrsiau hyfforddiant, cynhyrchu 125 pecyn cymorth a datblygu mwy na 500 partneriaeth. Er ei bod yn aneglur sut mae'r ffigurau hyn yn cymharu'n benodol gyda'r rhifau targed, mae Adroddiadau Interim (chwe misol) y prosiect ar gyfer 2008-09 yn dangos lefelau da o berfformiad ar gerrig milltir a gweithgareddau targed (e.e. gweithgareddau hyrwyddo) a mesurau allbwn a deilliant arall (e.e. sefydlu

'grwpiau gwirfoddol' ar draws Cymru). Mae hefyd yn glir fod WAC yn rhoi cefnogaeth i lawer o fuddiolwyr ar draws Cymru, er yn y cyswllt hwn mae Adroddiadau Interim 200809 yn dweud yr ymddengys fod rhai proisectau wedi gosod targedau rhy optimistig.

Mae Adroddiadau Interim 2008-09 hefyd yn dangos i'r prosiectau wynebu nifer o broblemau gweddol gyson, sef:

- o Cadw a salwch staff;
- o Cydlynu nifer cynyddol o wirfoddolwyr ar draws Cymru;
- o Cost hyfforddiant a rhoi ystyriaeth i wahanol anghenion - efallai nad yw darpariaeth hyfforddiant 'un maint i bawb' yn addas pan fo cymaint o amrywiaeth mewn sgiliau llinell sylfaen;
- o Argaeledd arian cyfatebol (e.e. amrywiad yn y graddau y byddai gwahanol awdurdodau ledled Cymru yn darparu arian cyfatebol).

Cafodd y problemau hyn, yn ogystal â rhai eraill, rai effeithiau ar wariant proseictau er yn gyffredinol mae'r data taenlen ac Adroddiadau Interim prosiectau 2008-09 yn dangos mai ychydig o brosiectau oedd wedi amrywio mwy na ±10% o'r gyllideb erbyn Hydref 2008, ac na ddisgwylid iddynt wneud hynny erbyn diwedd y cylch ariannu tair blynedd. Byddai hyn yn ymddangos yn ddangosydd cadarnhaol iawn o reolaeth dda ar brosiectau a rhaglenni.

*Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru*

Y prif ddangosyddion perfformiad ar gyfer y rhaglen VWF oedd 'nifer y gwirfoddolwyr a recriwtiwyd' a 'nifer oriau gwirfoddolwyr'. Cyflwynir y data ar y perfformiad targed a gwirioneddol ar gyfer y mesurau hyn yn Nhabl 4.5. Mae'r tabl yn awgrymu perfformiad cryf wrth recriwtio gwirfoddolwyr i'r prosiectau gyda chyflawniad gwirioneddol 7% yn uwch na'r targed a osodwyd ar gyfer 2007-08. Mae'r WCVA yn rhagweld y bydd y rhaglen ar darged yn 2008-09 (pan fydd data'r flwyddyn lawn ar gael). Dylid pwysleisio fodd bynnag y caiff y dadansoddiad o oriau gwirfoddolwyr ei gymhlethu gan y ffaith nad yw'r ffigurau a gofnodwyd yn cynnwys data gan wirfoddolwyr a recriwtiwyd yn y flwyddyn gyntaf ond sy'n dal i wneud gwaith gwirfoddol ar y prosiect ym mlynyddoedd dau a/neu dri (yn rhannol yn ganlyniad y gofyniad am geisiadau blynyddol). Y canlyniad yw bod y data a gofnodwyd gryn dipyn yn is na'r oriau gwirioneddol o wirfoddoli gan wirfoddolwyr newydd a recriwtiwyd dros oes tair blynedd llawer o'r prosiectau. Felly er bod data cronnus dros y ddwy flynedd

yn dangos diffyg tua 29% is na'r targed, yn ymarferol mae'n debygol y bydd oriau gwirfoddolwyr - yn yr un modd â'r gwirfoddolwyr a recriwtiwyd - yn uwch na'r targed.

*Tabl 4.5: Perfformiad VWF o gymharu â thargedau*

| | **2007-08** | | **2008-09** | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Targed** | **Gwir** | **Targed** | **Gwir (11 mis)** | **Disgwyliedig 2008-09** |
| Nifer gwirfoddolwyr a recriwtiwyd | 2,000 | 2,149 | 2,000 | 1,757 | 2,000 |
| Nifer oriau gwirfoddolwyr | 175,000 | 129,168 | 175,000 | 118,164 | 200,000 |

Dan y lefel hon, nid yw'r WCVA yn casglu gwybodaeth ar ddosbarthiad gwirfoddolwyr newydd ac oriau gwirfoddoli rhwng y gwahanol grwpiau targed a gefnogwyd drwy'r prosiectau a bu'n amhosibl i ni bennu o'r data cronnus i ba raddau y mae'r VWF yn cyflawni'r targedau a osodwyd gan y prosiectau.

*Gwirfoddolwyr y Mileniwm (MV)*

Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael ar yr union wariant cronnus gan y partneriaid bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae Tabl 4.6 yn rhoi data ar berfformiad ar fesurau targed. Mae'r tabl yn datgelu perfformiad cyffredinol gryf yn y nifer a recriwtiwyd i'r prosiect gyda rhifau 'gwir' 2007-09 bron 10% yn uwch na'r targed. Fodd bynnag, gwelodd y proseict ostyngiad o 21% yn y nifer a recriwtiwyd yn 2008-09 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

*Tabl 4.6: Perfformiad MV yn erbyn targedau*

| **Mesur** | **Targed 2007-08** | **Gwir** | **Targed 2008-09** | **Gwir** | **Targed 2009-10** |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl ifanc a recriwtiwyd i'r rhaglen | 1,600 | 1,834 | 1,400 | 1,452 | 1,400 |
| Nifer y bobl ifanc a enillodd dystysgrif 50-awr | D/B | D/B | 1000 | 751 | 1000 |
| Nifer y bobl ifanc a enillodd dystysgrif 100-awr. | 900 | 713 | 800 | 719 | 800 |
| Nifer y bobl ifanc a enillodd dystysgrif 200-awr. | 640 | 533 | 600 | 572 | 600 |
| Nifer y Partneriaid Cydlynu Lleol a dderbyniodd grantiau | 22 | 22 | 22 | 22 | 22 |
| Nifer y Partneriaid Cyflenwi a dderbyniodd grantiau | 45 | 33* | 40 | 30** | 35 |
| Nifer y bobl ifanc a recriwtiwyd drwy chwe Phrosiect Grant Strategol Estynedig Russell | 610 | 452 | 610 | 527 | D/B |
| Adroddiad matrics MV/Russell Matrix i'w orffen | Ebrill 2007 | Ebrill 2007 | Rhag 08 | Ion 09 | Ionawr 2010 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| erbyn diwedd | | | | | |
| Gwerthuso ac adroddiad ar brosiectau peilot strategol | Mai 2007 | Mai 2007 | Ebrill 2008 | Ebrill 2008 | D/B |
| Adroddiad gwerthuso rhaglen MV i'w orffen erbyn | Mehefin 2007 | June 2007 | Mawrth 2009 | Mawrth 2009 | D/B |

* a 4 prosiect nas ariannwyd
* a 6 prosiect nas ariannwyd

Cyflwynwyd y dystysgrif 50 awr ym mis Ionawr 2008. Cyflawnwyd 75% o darged 2008-09, er y gall y ffigur hwn fod yn is na'r gwir ffigur gan nad oedd yn cynnwys y prosiectau nad oedd eto wedi hawlio eu tystysgrifau 50 awr (er iddynt gael eu hannog i wneud hynny).

Yn yr un modd, methodd y rhaglen o drwch blewyn i gyrraedd ei thargedau ar gyfer gwirfoddolwyr yn darparu 100 awr a 200 awr o amser gwirfoddoli gydag amrywiad yn erbyn y targed o 16% a 11% yn yr un drefn ar gyfer y cyfnod 2007-09. Mae *"Gwirfoddolwyr y Mileniwm Adroddiad Monitro Dangosyddion perfformiad 2007-08"* y WCVA i Lywodraeth y Cynulliad yn nodi y medrai methu cyrraedd y targedau hyn yn y flwyddyn honno fod oherwydd canolbwyntio mwy ar hyrwyddo a'r newid mewn systemau gweinyddol, er ei bod yn parhau'n aneglur i ba raddau yr oedd hyn.[27] Dylid nodi, fodd bynnag, mai dim ond cynnydd bychan a ddangosodd ffigurau'r flwyddyn ddilynol (2008-09) yn y nifer yn cyrraedd y trothwyon 100 awr a 200 awr. Mae hyn yn awgrymu un ai fod tanberfformio gwirioneddol yn 2007-08 neu fod y targedau a osodwyd yn or-optimistig, gyda'r rheswm olaf hwn yn 'ffitio' y gostyngiad a welwyd mewn targedau yn gyffredinol am y flwyddyn ddilynol (2008-09).

Yn y cyd-destun hwn, dywedodd rhai rhanddeiliaid fod y targedau a osodwyd (h.y. yr angen i unigolyn gwblhau 200 awr) yn afrealistig ac yn rhy uchel i fwyafrif yr unigolion dan sylw - rhywbeth a adlewyrchwyd yn y penderfyniad yn Lloegr i roi gorau i'r targed 200 awr wrth symud i Ddyfarniadau V. Cafodd y farn hon hefyd ei hadleisio gan rai o'r sefydliadau yn ein hastudiaethau achos a dderbyniodd grantiau a ddywedodd ei bod bron yn amhosibl i bobl ifanc mewn addysg neu waith gyrraedd y trothwy o 200 awr o fewn blwyddyn. Dywedodd un sefydliad *"byddai angen i'n gwirfoddolwyr wirfoddoli am tua 5 awr yr wythnos er mwyn cyrraedd y targed 200 awr, ac mae hynny'n amhosibl i rai ohonynt".*

[27] Tudalen 1

Dywedodd rhanddeiliaid yn gyffredinol iddynt groesawu cyflwyno trothwyon is o 100 a 50 awr. Soniodd rhai hefyd am y diffyg targedau penodol ar gyfer grwpiau difreintiedig o fewn y broses cais ac adrodd MV, gan ddweud na fu'r MV fel canlyniad mor llwyddiannus ag y medrai fod wedi bod wrth dargedu pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant gan ganolbwyntio yn lle hynny ar y *"grwpiau targed rhwyddaf".*

Ar gyfer y cyfnod 2007-09, derbyniodd 66 partneriaid cyflenwi cyllid o gymharu â tharged o 85 - unwaith eto'n awgrymu i ymgeiswyr ar gyfartaledd geisio mwy o gyllid nag a ragwelwyd. Yn wir, ymddengys fod yr adroddiadau Monitro Perfformiad a gyflwynwyd gan y WVCA am y cyfnod hwn yn awgrymu i derfynau cyllid, yn hytrach na safon isel ceisiadau, bennu nifer y prosiectau y medrid eu cefnogi. Dylid pwysleisio fodd bynnag i tua 10 o bartneriaid cyflenwi ychwanegol dderbyn statws 'nas ariannwyd' yn ystod y cyfnod hwn, gan ddod â chyfanswm y targed i tua 90% o'r targed.


Ni chafodd targedau eu cyrraedd ychwaith am y chwe phrosiect Grant Strategol Estynedig Russell dros y cyfnod 2007-09. Fodd bynnag, bu gwelliant amlwg mewn perfformiad yn 2008-09, efallai yn manteisio o'r gwaith hyrwyddo a'r gweithgaredd sefydlu cyffredinol a wnaethpwyd y flwyddyn flaenorol.

Yn olaf, dengys Tabl 4.6 y bu perfformiad ar waith cysylltiedig â phroses – gwerthusiadau, adroddiadau ac ati – yn gyson ar y targed.

*Barn sefydliadau am berfformiad*

Gan droi i ganlyniad ein gwaith maes gyda sefydliadau a ariannwyd, gofynnwyd i'r ymatebwyr a arolygwyd am natur eu dangosyddion perfformiad prosiect ac i ba raddau yr oeddent yn cael eu cyflawni. Er bod bron y cyfan o'r prosiectau'n gweithio tuag at darged o recriwtio gwirfoddolwyr newydd (gweler Siart 4.5), roedd cyfrannau is yn gweithio tuag at dargedau eraill megis hyfforddi gwirfoddolwyr (30 ymatebwyr neu 64%) neu'n cynyddu ymrwymiad presennol gwirfoddolwyr (16 ymatebydd neu 33%).

*Siart 4.5: Dangosyddion Perfformiad Prosiectau*




Yn unol â'r data a gafwyd gan y WCVA ar gyfer pob un o'r tair rhaglen grant, dywedodd prosiectau a ariannwyd drwy'r WAC eu bod yn fwy tebygol na'r lleill i fod ag ystod ehangach o dargedau. Er enghraifft, roedd prosiectau a ariannwyd gan WAC yn fwy tebygol o fod â thargedau ar gyfer hyfforddi unigolion (dywedodd 14 o'r 16 prosiect a ymatebodd fod ganddynt dargedau hyfforddiant i'w cyrraedd), targedau ar gyfer cynorthwyo unigolion yn ogystal â mathau eraill o dargedau (dywedodd naw o'r 16 prosiect a ymatebodd fod yn rhaid iddynt gyrraedd y ddau darged). Roedd prosiectau a ariannwyd gan VWF yn fwy tebygol o ddweud fod ganddynt dargedau penodol i'w cyrraedd ar gyfer cynorthwyo unigolion (dywedodd 12 o'r 22 prosiect a ymatebodd fod ganddynt dargedau i'w cyrraedd ar gyfer cynorthwyo unigolion) a chynyddu ymrwymiad gwirfoddolwyr presennol (gyda naw o'r 22 sefydliad yn dweud hynny).

Byddai'n ymddangos y byddai rhwng chwarter a hanner y prosiectau eisoes wedi medru cyflawni neu ragori ar eu gwahanol dargedau, gyda bron y cyfan o'r sefydliadau eraill yn dweud eu bod ar y llwybr i'w cyflawni. Roedd yn union hanner y prosiectau a ariannwyd wedi medru cyflawni neu ragori ar eu targedau 'eraill', roedd traean wedi cyflawni neu ragori ar eu targedau ar gyfer cynyddu ymrwymiad gwirfoddolwyr presennol tra bod tua chwarter wedi cyflawni neu ragori ar y tri tharged arall yn yr arolwg (recriwtio gwirfoddolwyr newydd, cynorthwyo unigolion a hyfforddi unigolion). Roedd yn galonogol

gweld ei bod yn aml yn wir mai dim ond un prosiect o'r holl sampl ym mhob achos oedd heb fod yn debygol o gyflawni pob math o darged.

Cafodd rhai heriau cyffredin eu dynodi gan y sefydliadau wrth gyrraedd targedau prosiect, sef:

- Materion rheolaeth prosiect - megis cynllunio cyllideb a rheoli cyllid: *"roedd ein hamcangyfrif costau yn anghywir felly roedden ni'n wynebu anawsterau yn talu costau teithio";*
- Roedd diffyg cyllid i reoli'r prosiect yn golygu y bu'n rhaid i rai sicrhau ffynonellau eraill o gyllid: *"doedd gennym ni ddim digon o gyllideb i gyflogi staff felly bu'n rhaid i ni gael grant arall i dalu am staff rheoli prosiect";*
- Anawsterau mewn hyrwyddo i, recriwtio a chadw diddordeb ymysg gwirfoddolwyr newydd: *"cael gwirfoddolwyr newydd i gymryd diddordeb yn y lle cyntaf"* a *"ei gadw'n ddiddorol ar gyfer pobl ifanc - mae llawer ohonyn nhw'n colli diddordeb ar ôl ychydig wythnosau";*
- Materion amserlen oedd yn digwydd yn aml fel canlyniad i gychwyn hwyr neu faint o amser a gymerwyd i sefydlu prosiect newydd: *"roedden ni flwyddyn yn hwyr yn cychwyn".*

Dangosodd ein cyfweliadau gyda rhai astudiaethau achos ei bod yn anodd weithiau i sefydliadau a dderbyniodd gyllid i ehangu eu darpariaeth neu wasanaeth craidd (yn hytrach na sefydlu prosiect hollol newydd) er mwyn medru gwahaniaethu effaith y cyllid grant ar eu sefydliad. Fel canlyniad, roedd rhai o'r canlyniadau a adroddwyd (e.e. nifer y bobl o gymunedau du a lleiafrif ethnig a recriwtiwyd fel gwirfoddolwyr) yn cyfeirio at y sefydliad cyfan a medrid dadlau y medrid bod wedi cyflawni rhai ohonynt hyd yn oed pe na bai cyllid grant.

*Barn rhanddeiliaid am berfformiad*

Yn gyffredinol, credai rhanddeiliaid fod y prosiectau a ariannwyd drwy'r tair rhaglen yn perfformio'n dda ar y cyfan. Roedd unigolion oedd yn ymwneud yn agos â'r prosiectau yn gwybod am nifer fechan o brosiectau oedd yn tanberfformio ond credent y cymerwyd camau priodol i ddatrys y materion hyn. Derbyniwyd nad oedd rhai rhaglenni grant (yn arbennig MV) wedi medru cyflawni rhai o'r targedau lefel uwch yn y gorffennol (gweler y drafodaeth uchod).

Roedd un o'r negeseuon allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn ymwneud â diffyg targedau gwirfoddoli cronnus ar gyfer WAC. Cydnabu rhanddeiliaid y bu proses gweddol drwyadl ar waith i bennu targedau prosiectau unigol ond fod y cysyniad o ddatblygu targedau rhaglen-gyfan yn un newydd ac anodd i WAC o gofio am amrywiaeth y gweithgareddau a dynesiadau a ariannwyd. Fodd bynnag, credai'r rhan fwyaf o randdeiliaid fod angen mynd i'r afael â'r mater wrth symud ymlaen i ddeall effaith yr holl raglen grant.

Ar y llaw arall teimlwyd y bu rhaglenni grant MVC a VWF yn fwy llwyddiannus wrth ddatblygu ac adrodd ar dargedau gwirfoddoli cronnus - gyda rhai rhanddeiliaid o'r farn y bu hyn yn haws oherwydd bod y prosiectau a ariannwyd yn debycach a'u bod yn canolbwyntio mwy ar rifau: *"caiff targedau cronnus eu cyfrif ar sail gwirfoddolwyr newydd ac oriau. Mae ychydig yn rhwyddach na WAC oherwydd bod y prosiectau yn debycach".*

Mater arall a ddaeth yn amlwg yn ystod ein gwerthusiad oedd y diffyg cysondeb gan sefydliadau wrth ddiffinio targedau megis 'gwirfoddolwyr newydd'. Er i rai ystyried bod y diffiniad hwn yn golygu 'unigolion newydd a recriwtiwyd', defnyddiodd eraill ddiffiniadau megis 'unigolion newydd sydd wedi dilyn yr hyfforddiant anwytho' ac 'unigolion newydd sydd wedi cyfrannu amser i weithio gyda buddiolwyr'.

4.2.6 Gwerth Ymyriad

*Cymru: Y Fenter Cymuendau Gweithredol*

Mae'n anodd canfod o'r data cronnus yn union i ba raddau y mae perfformiad yn amrywio ar draws prosiectau, o gofio am wahanol ffocws a dangosyddion prosiectau. Yn y cyswllt hwn, gall fod yn anaddas i hyd yn oed cymharu prosiectau ar gyfer y 'nifer o wirfoddolwyr a recriwtiwyd' - a fesurwyd ym mhob achos - fel oedd yn glir o'n hastudiaethau achos. Serch hynny, mae'n amlwg fod amrywiadau sylweddol yn y 'gost fesul gwirfoddolwr newydd'. Er enghraifft, mae'r adroddiadau Interim yn awgrymu y ceisiodd prosiect Scope recriwtio 15 gwirfoddolwr dros dair blynedd ar gost i Lywodraeth y Cynulliad o £16,279 fesul gwirfoddolwr. Ar y llaw arall, derbyniodd Busnes yn y Gymuned lefelau tebyg o gyllid ond bwriadent recriwtio 6,500 o wirfoddolwyr ar gost o

tua £37 fesul gwirfoddolwr (er, yn ymarferol, oherwydd gosod targedau rhy optimistig, roedd y wir gost fesul gwirfoddolwr a recriwtiwyd ar gyfer ‘Busnes yn y Gymuned’ tua £100 yn 2007-08).[28]

Mae’n dilyn y medrai amcangyfrif ‘cost fesul gwirfoddolwr newydd’ hefyd fod yn ffordd anaddas o gymharu prosiectau. Fodd bynnag, mae’r data sydd ar gael ar 22 o’r 27 prosiect yn 2007-08 yn awgrymu y cofnodwyd ffigur dangosol o £140 o gyllid Llywodraeth y Cynulliad fesul gwirfoddolwr WAC newydd yn 2007-08 o gymharu â ffigur targed deilliedig o dros £215 fesul gwirfoddolwr newydd. Byddai’r ddau ffigur yn uwch pe cynhwysid cyllid arall a ddefnyddiwyd i gyflenwi’r prosiect.

*Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru (VWF)*

Mae Tabl 4.7 yn cyflwyno gwybodaeth ar y costau a gafwyd wrth gyflawni canlyniadau 2008-09.

*Tabl 4.7: Cost Ymyriad VWF*

| | **Targed** | **Gwir (11 mis i Chwefror 08)** | **Costau a ragwelir 2008/09** |
|---|---|---|---|
| Cost fesul gwirfoddolwr a recritiwyd | £314.00 | £357 | £314.00 |
| Cost fesul awr gwirfoddolwr | £3.60 | £5.31 | £3.14 |

Mae’r canfyddiadau’n awgrymu fod y gost fesul gwirfoddolwr yn debygol o ostwng rhwng £314 a £357. Yn yr un modd, medrem ddisgwyl i gost fesul awr gwirfoddolwr fod rhwng £3.14 a £5.31.

Cafodd data ‘cost fesul gwirfoddolwr newydd’ a ‘cost fesul awr gwirfoddolwr newydd’ ei ddadansoddi i bennu os byddai prosiectau gyda ffocws ‘Cymru gyfan’ yn ddrutach. Gwnaed cymariaethau ar gyfer prosiectau ar sail debyg am debyg (yr un flwyddyn).[29] Mae’r canlyniadau’n awgrymu ym mhob categori ‘blwyddyn’, bod prosiectau ‘Cymru gyfan’ yn tueddu i fod yn ddrutach na

[28] Derbyniodd y ddau brosiect 50% o gyllid gan WAC, oedd tua 66% o gyfanswm cost prosiect Busnes yn y Gymuned (daeth 33% o‘r cyfanswm cyllid o fannau eraill). Roedd cyfanswm blwyddyn gyntaf ‘cost fesul gwirfoddolwr a recriwtiwyd’ felly tua £150 – yn dal i fod yn sylweddol is na Scope, nad oedd wedi cyrchu cyllid arall.

[29] Roedd data ar gael ar gyfer cyfnodau tri chwarter 2008-09. Lle nad oedd y prosiectau wedi rhoi gwybodaeth, ni chafodd y rhain eu cynnwys wedyn.

phrosiectau eraill. Gall hyn fod oherwydd y defnyddiwyd costau i weinyddu gweithgaredd mwy niwlog.

Defnyddiwyd dadansoddiad tebyg i ystyried y costau fesul prosiect - lle diffiniwyd ‘math’ fel y gyfatebiaeth agosaf i’r categorïau hynny a ddisgrifiwyd yn y strategaeth Trydydd Dimensiwn. Ymddengys fod peth tystiolaeth y medrai prosiectau math Plant a Theuluoedd weithredu ar ben uchaf cost fesul awr gwirfoddolwr (gan efallai adlewyrchu’r angen am wiriadau mwy trylwyr a hyfforddiant), tra bod prosiectau math Chwaraeon a Hamdden yn gweithredu ar y pen isaf. Eto, mae’r graddau y mae prosiectau’n gweithio ar draws mathau’n golygu mai dim ond dangosol y gall canlyniadau fod, a byddai angen ystyried data gweithgaredd proisect mwy manwl cyn y medrid gwneud casgliadau cadarn.

Fel pwynt cyffredinol, ymddengys fod y prosiectau yn fwy cost-effeithlon dros amser. Mae prosiectau ‘Blwyddyn 3’, ar gyfartaledd, yn rhoi cost is fesul awr gwirfoddolwr (er eu bod yn cael llai o gyllid yn gyffredinol) o gymharu â phrosiectau ‘blwyddyn 2’ neu ‘blwyddyn 1’.

*Gwirfoddolwyr y Mileniwm (MV)*

Heb ddata cost gwirioneddol mae’n amhosibl llunio casgliadau cywir ar y gost gyffredinol yn gysylltiedig gyda’r mesurau perfformiad cronnus hyn. Fodd bynnag, ar gyfer dibenion dangosol, medrid gwneud cymariaethau rhwng nifer y gwirfoddolwyr a recriwtiwyd a’r cyfanswm grantiau a ddyfarnwyd. Mae hyn yn rhoi ffigur o tua £179 fesul gwirfoddolwr a recriwtiwyd yn y cyfnod 2007-09 (a £185 fesul gwirfoddolwyr a recriwtiwyd yn 2008-09 yn unig).

Nid oedd y data a roddwyd ar gyfer 2008-09 yn galluogi dadansoddiad trwyadl a manwl o’r effeithlonrwydd cost yn gysylltiedig gyda gwahanol fathau, a lleoliadau, partneriaid cyflenwi. Fodd bynnag, bu modd i ni ddynodi’n betrus fod prosiectau gwirfoddoli a gyflwynir o fewn lleoliad addysgiadol (prifysgol, ysgolion ac ati) yn recriwtio niferoedd cymharol uchel o wirfoddolwyr ac felly o bosibl yn cynnig mwy o werth am arian.

Yn gyffredinol credai rhanddeiliaid fod MV yn rhoi gwerth da am arian gyda *“symiau bach o gyllid ... yn mynd yn bell iawn”* yn aml. Yn fwy cyffredinol, awgrymodd rhai er bod sefydliadau llai yn cynnig mwy am y cyllid nid yw o

reidrwydd yn dilyn eu bod yn perfformio'n ddim gwell na sefydliadau cenedlaethol sydd â rheolaeth gref ar waith a mwy o brofiad o reoli gwirfoddolwyr.

*Beth fyddai digwydd pe na byddai cyllid ar gael?*
Mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu fod y cyllid wedi gwneud gwahaniaeth diriaethol gwirioneddol i allu sefydliadau i gyflenwi eu prosiectau. Dywedodd cyfran uchel (20 sefydliad neu 41% o ymatebwyr) na fyddai eu prosiect wedi digwydd o gwbl pe na bai cyllid grant ar gael - ac roedd bron y cyfan o'r prosiectau a ariannwyd gan WAC yn y categori hwn. Credai nifer fawr o'r ymatebwyr eraill y byddai'r prosiect wedi ei addasu mewn rhyw ffordd - credai 15 sefydliad (neu 31% o'r holl ymatebwyr) y byddai'r prosiect wedi ei ddarparu ar raddfa lai gyda chyllid o fan arall a theimlai tri (neu 6%) y byddai'r prosiect wedi ei ddarparu yn ddiweddarach. Roedd prosiectau a dderbyniodd gyllid MV yn fwy tebygol o ddweud y byddai eu prosiectau wedi eu cyflwyno ar raddfa lai gyda chyllid o fan arall - unwaith eto'n adlewyrchu'r ffaith fod MV yn tueddu i ychwanegu gwerth i'r profiad gwirfoddoli yn hytrach na'i greu. Er enghraifft, dywedodd arweinydd prosiect un astudiaeth achos y byddent yn parhau i gynnal eu prosiect MV oherwydd *"dyma'r peth fwyaf gwerth chweil rwy'n ei wneud"* yn nhermau ei effaith ar y bobl ifanc sy'n cymryd rhan ond cydnabu y byddent yn llawer mwy tebygol o gael problemau yn cadw gwirfoddolwyr.

Dim ond 11 sefydliad (neu 22% o ymatebwyr) a gredai y byddai eu prosiect wedi mynd ymlaen yn yr un modd gyda chyllid o fan arall, gyda phrosiectau a ariannwyd drwy'r rhaglen VWF yn fwy tebygol o ddewis yr opsiwn hwn.

### 4.2.7 Effaith ar Sefydliadau a Ariannwyd

Holodd yr arolwg o sefydliadau a ariannwyd ymatebwyr am gyfraniad ychwanegol gwirfoddoli i'w sefydliad fel canlyniad i'r proisect. Dengys y canfyddiadau fod amrywiaeth enfawr yn y cyfraniad ychwanegol a wnâi gwirfoddoli gan wirfoddolwyr newydd a rhai oedd eisoes yn gwirfoddoli. Dywedodd tua thraean yr ymatebwyr (15 sefydliad) fod hyd at ddeg o wirfoddolwyr newydd wedi ymuno â'u sefydliadau fel canlyniad i'r prosiect, dododd traean (16 sefydliad) arall yr allbwn hwn rhwng 11 a 50 o wirfoddolwyr a dywedodd y 13 arall fod yr allbwn yn fwy na 50 gwirfoddolwr. Mae'n debyg fod y ffigurau hyn yn adlewyrchu maint y prosiectau a

ariannwyd: roedd prosiectau a ariannwyd gan WAC yn fwy tebygol o nodi'r allbynnau uwch na'r ddwy raglen grant arall.

Daeth tueddiad ychydig yn wahanol i'r amlwg ar gyfer cynnydd yn y nifer o wirfoddolwyr presennol yn awr yn gwirfoddoli am fwy o oriau bob wythnos neu fis gyda'r cynnydd mewn gwir allbwn yn llawer llai nag ar gyfer gwirfoddolwyr newydd. Er enghraifft dim ond chwe sefydliad (neu 15% o ymatebwyr) ddywedodd fod mwy na 50 o wirfoddolwyr blaenorol yn awr yn gwirfoddoli am fwy o oriau bob wythnos neu fis a dywedodd y mwyafrif helaeth (65% neu 26 sefydliad) fod hyn yn cyfeirio at lai na deg o wirfoddolwyr. O'r rhain, ni adroddodd wyth y bu unrhyw effaith yn nhermau gwirfoddolwyr presennol yn gwirfoddoli am fwy o oriau bob wythnos neu fis.

Yn nhermau'r oriau ychwanegol o amser gwirfoddolwyr a roddwyd i'w sefydliadau bob wythnos fel canlyniad i'w prosiect, mae'r canfyddiadau'n cryn wahaniaeth yn y darlun - credai 21 sefydliad fod y cyfraniad yn llai na 50 awr yr wythnos a chredai naw ei fod dros 100 awr yr wythnos. Unwaith eto roedd proisectau a ariannwyd gan WAC yn llawer mwy tebygol o nodi'r cyfraniad uchaf tra bod prosiectau a ariannwyd gan MV yn fwy tebygol o nodi'r cyfraniadau is. Methodd cryn nifer o sefydliadau roi'r data hwn i ni (un ai oherwydd nad oedd y wybodaeth ganddynt yn gyfleus yn ystod y cyfweliad neu oherwydd nad oeddent yn ei chasglu).

Byddai'n ymddangos i'r cyllid grant fynd gryn ffordd i helpu'r sefydliadau cysylltiedig i fynd i'r afael â rhai o'u heriau hollbwysig. Y ffyrdd allweddol y dynodwyd fod cyllid yn cael effaith fawr iawn yw:

- Goresgyn anawsterau'n ymwneud â hyfforddi a chynyddu sgiliau gwirfoddolwyr (gyda 36% o'r sefydliadau'n dweud y cafodd y prosiect effaith fawr iawn). Soniodd nifer o'r sefydliadau y gwnaethom ymweld â hwy fod rhaglenni hyfforddiant ffurfiol wedi eu rhoi ar waith fel rhan o'r prosiect. Er enghraifft, mae un sefydliad a dderbyniodd gyllid drwy'r VWF wedi medru datblygu a chyflenwi pecyn hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer gwirfoddolwyr newydd a recriwtiwyd drwy'r rhaglen gan arwain at gymhwyster Mentor OCN Lefel 2. Medrodd sefydliad arall a ariannwyd gan MV gynnig Tystysgrif NVQ Lefel 2 mewn Arweinyddiaeth Chwaraeon fel rhan o'r rhaglen;

- Goresgyn anawsterau wrth recriwtio gwirfoddolwyr newydd (gyda 34% o sefydliadau'n dweud y cafodd y prosiect effaith mawr iawn). Dywedodd y rhan fwyaf o'r sefydliadau y gwnaethom ymweld â hwy y bu'r cyllid yn hollbwysig wrth eu galluogi i ganolbwyntio ar ddenu gwirfoddolwyr newydd - yn bennaf yn cael staff yn eu lle i hybu'r ymgyrch recriwtio;
- Goresgyn anawsterau yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli neu leoliadau (gyda 32% o'r sefydliadau'n dweud y cafodd y prosiect effaith fawr iawn).

Ni thybir y bu'r cyllid lawn mor effeithlon wrth fynd i'r afael â heriau gwirfoddoli eraill megis helpu i fynd i'r afael ag anawsterau rheoli gwirfoddolwyr (credai 28% un ai na chafodd y cyllid unrhyw effaith neu mai effaith bychan a gafodd ar y maes hwn) a goresgyn yr anawsterau yn cadw gwirfoddolwyr (gyda 26% yn credu na chafodd y cyllid unrhyw effaith neu mai effaith bach a gafodd ar y maes yma).

Yn ogystal ag ateb yr heriau hyn, medrodd nifer o'r sefydliadau ddynodi manteision eraill cymryd rhan yn cynnwys:

- Gwell cydnabyddiaeth a safleoliad i'r sefydliad - mewn sawl achos roedd y gweithgaredd hyrwyddo a wnaethpwyd drwy'r prosiect wedi helpu'r sefydliad i ddod yn opsiwn mwy deniadol i'w cynulleidfa wirfoddoli darged - er enghraifft, atal delweddau stereoteip;
- Gwella cysylltiadau a phartneriaethau gyda sefydliadau eraill bydded yn ysgolion, grwpiau cymunedol neu sefydliadau cyflenwi;
- Galluogi sefydliadau i barhau neu ehangu eu darpariaeth gwasanaeth;
- Gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan wirfoddolwyr fel canlyniad i gynyddu hyfforddiant a buddsoddiad mewn ymgeiswyr dethol: *"mae safon y gwirfoddolwyr yn well";*
- Cynyddu brwdfrydedd ymysg y gronfa bresennol o wirfoddolwyr;
- Gwell ymrwymo gyda grwpiau penodol a'u sefydliadau cynrychioladol cysylltiedig e.e. pobl o gymunedau du a lleiafrif ethnig, pobl ifanc.

Dim ond dau o'r sefydliadau a soniodd am unrhyw anfanteision mewn cymryd rhan, gyda'r ddau yn nodi fod hyn yn gysylltiedig â'r cynnydd mewn gwaith papur.

Trafodwyd mater cyllid tapro yn faith gyda'r sefydliadau hynny oedd yn derbyn grantiau VWF. Soniodd sefydliadau a ariannwyd a rhanddeiliad am resymeg y model tapro hwn gan mai'r bwriad oedd gostwng dibyniaeth y sefydliad ar y cronfeydd grantiau a'u hannog i sicrhau ffynonellau o gyllid heb fod gan y llywodraeth. Fodd bynnag mewn gwirionedd, codwyd cwestiynau os oedd y model yn gweithio. Ni welsom unrhyw brosiectau a gredai y byddai y byddai eu gweithgareddau yn hollol gynaliadwy ar ôl y drydedd flwyddyn o gyllid *"gan ein bod yn colli gwirfoddoli rydym yn gorfod recriwtio rhai newydd drwy'r amser".* Soniodd nifer o sefydliadau a ariannwyd gan y VWF eu bod yn edrych yn barhaus ar bob ffynhonnell o gyllid posibl i gefnogi recriwtio, hyfforddi a rheoli gwirfoddolwyr ac y byddai hyn yn wir bob amser: mewn un achos, roedd y sefydliad wedi cyrchu VWF tair blynedd ar nifer o achlysuron, gan ddefnyddio cyllid elusennol arall o'r sector preifat i lenwi'r bylchau yn y 'blynyddoedd hesb' pan nad oeddent yn gymwys am VWF.

4.2.8 Effaith ar Wirfoddolwyr

Awgrymodd yr arolwg fod y prosiectau wedi medru darparu nifer o fanteision i'r gwirfoddolwyr a gymerodd rhan yn nhermau datblygiad personol, gyda chynnydd mewn hunanhyder y mwyaf ohonynt, a ddilynwyd gan wella eu sgiliau a'u profiad gwaith. Credai nifer ychydig yn is fod y profiad wedi gwella rhagolygon gwirfoddolwyr o sicrhau swyddi cyflogedig a dim ond ychydig a gredai fod y profiadau wedi galluogi gwirfoddolwyr i sicrhau swyddi cyflogedig. Mae'n bosibl fod y gyfran yma'n is gan fod llawer o'r prosiectau'n dal i gymryd rhan yn y prosiectau adeg yr arolwg.

Holwyd y gwirfoddolwyr a gyfwelwyd yn yr astudiaethau achos am eu cymhelliant am gymryd rhan. Soniodd tua hanner y rhai a gyfwelwyd am resymau dyngarol (yn neilltuol wirfoddolwyr mwy aeddfed a deimlai fod ganddynt lawer i'w roi'n ôl i gymdeithas) tra cyfeiriodd yr hanner arall at gyfleoedd datblygu personol:

- *"Roeddwn yn arfer gweithio mewn ffatri ac fe gollais fy swydd ddechrau'r flwyddyn. Dywedodd ffrind wrthyf am y prosiect yma ac roeddwn yn teimlo ei fod yn cynnig newid gyrfa llwyr i mi"* (prosiect VWF);
- *"Rwy'n astudio am gymhwyster gofal plant yn y coleg ar hyn o bryd ond yn meddwl am fynd i wasanaethau ieuenctid. Fedra'i ddim cael y*

*profiad hwnnw ar fy lleoliadau coleg felly roedd hyn yn beth delfrydol i mi"* (prosiect VWF);

- *"Mae rhai o'r boibl ifanc yn eitha pell o gael swyddi neu fynd i'r coleg. Felly mae'n achos o un cam ar y tro gyda nhw. Mae dim ond eu cael i siarad gyda phobl, gwneud ffrindiau, yn beth mawr".* (Rheolwr prosiect MV);
- Credai un gwirfoddolwr MV y byddai'r profiad a gafodd wrth weithio gyda phlant iau yn berthnasol i'w gyrfa yn y dyfodol, yn neilltuol pe byddai'n ymuno â'r proffesiwn dysgu;
- Roedd sefydliad arall a ariannwyd gan MV yn gwybod am werth y dyfarniad MV ymysg gwirfoddolwyr wrth wneud cais am leoliadau prifysgol neu gyfleoedd gwaith yn y dyfodol.

Yn gyffredinol byddai'n ymddangos fod gan fwyafrif helaeth y gwirfoddolwyr yn ymwneud â'r prosiectau beth profiad blaenorol o wirfoddoli gyda sefydliadau eraill (gyda 30 o'r sefydliadau a arolygwyd neu 63% yn credu fod un ai rai neu'r cyfan o'r gwirfoddolwyr wedi gwneud hynny'n flaenorol). Dim ond ychydig o sefydliadau (chwech) a ddywedodd nad oedd gan ddim o'u gwirfoddolwyr brofiadau gwirfoddoli blaenorol ac roedd y rhain yn llawer mwy tebygol o fod yn sefydliadau a ariannwyd drwy'r rhaglen MV[30]. Cadarnhawyd y canfyddiad hwn ar ein hymweliadau i sefydliadau a ariannwyd - roedd gwirfoddolwyr oedd yn ymwneud gyda phrosiectau WAC yn llawer mwy tebygol o fod â phrofiadau gwirfoddoli blaenorol a gwirfoddolwyr MV heb fod â hynny.

Caiff yr awgrym fod sefydliadau a ariennir â grant o leiaf mewn rhai achosion yn denu'r rhai sydd eisoes yn wirfoddolwyr hefyd ei gadarnhau gan yr ymatebion gan sefydliadau a arolygwyd pan ofynnwyd iddynt beth y byddai'r gwirfoddolwyr newydd a ddenwyd drwy'r prosiect wedi'i wneud onibai am y prosiect. Yn gyffredinol, credai ychydig dan hanner y sefydliadau (23 neu 46%) y byddai'r unigolion a recriwtiwyd fel canlyniad i'w prosiect wedi ymchwilio un ai gyfleoedd gwirfoddoli eraill neu gyflogaeth ar dâl neu gyfuniad o'r ddau pe na bai'r prosiect wedi eu recriwtio, gyda chwarter y sefydliadau (13 sefydliad neu 27%) yn dweud na fyddai'r unigolion dan sylw wedi gwneud gwirfoddoli arall pe na bai'r prosiect wedi bodoli (a'r gweddill yn ateb na wyddent). Cadarnhaodd ymatebion gan y gwirfoddolwyr a gyfwelwyd yr

amrywiad hwn gyda sylwadau'n amrywio o *"mae'n debyg y byddwn yn eistedd adre"* i *"fe fedrech chi'n ddweud mod i'n wirfoddolwr dibaid, felly byddwn, fe fyddwn wedi dod o hyd i rywbeth arall"* [h.y. gwirfoddoli].

Mae'r canfyddiadau hyn yn codi rhai cwestiynau pwysig am allu rhaglenni grant WAC a VWF i dargedu gwirfoddolwyr hollol 'newydd' yn hytrach na denu unigolion sydd eisoes yn cyfrannu tuag at y galluedd gwirfoddoli o fewn Cymru. Yn wir, mae'n debygol mewn rhai achosion, fod y cyllid hyd yn oed yn 'potsio' gwirfoddolwyr o weithgareddau gwirfoddoli eraill. Fodd bynnag ni ddylem fychanu gallu prosiectau o'r fath i fynd i'r afael ag agenda'r Trydydd Dimensiwn o gynyddu ymrwymiad gwirfoddolwyr presennol.

Ymhellach, roedd math cyffredin o adborth a roddodd gwirfoddolwyr yn ystod ein gwaith maes yn ymwneud ag ansawdd y profiad a'r gydnabyddiaeth a roddwyd i'w gwaith fel canlyniad i'r prosiectau. I rai oedd â phrofiadau gwirfoddoli blaenorol, dadleuodd llawer fod eu profiadau drwy'r prosiectau wedi bod yn llawer mwy gwerth chweil:

- *"maen nhw'n gwneud i chi deimlo eich bod yn wirioneddol yn cael eich gwerthfawrogi – eich bod yn un o'r tîm, go iawn"*
- *"bu'r profiad yn werth chweil iawn - pan welwch y gwahaniaeth y medrwch ei wneud i gleientiaid";*
- *"mae ansawdd y profiad gwirfoddoli wedi bod yn rhagorol - o'r hyfforddiant a'r anwythiad oedd ar gael, y ffordd y cawn ein rheoli mor broffesiynol i'r gydnabyddiaeth a roddir i'n gwaith".*

Cyfeiriodd nifer o wirfoddolwyr at eu mwynhad a'u boddhad yn yr hyn a wnaethent (beth bynnag oedd eu cymhelliant gwreiddiol dros gymryd rhan).

## 4.3 Addasrwydd y Strwythur Ariannu Cyfredol

### 4.3.1 Hyrwyddo a Marchnata

Fel y medrid bod wedi disgwyl, soniodd rhanddeiliaid fod WCVA wedi defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau i hyrwyddo'r tair rhaglen grant yn uniongyrchol i sefydliadau targed, yn cynnwys:

[30] Ni fedrai'r sefydliadau eraill roi'r wybodaeth hon am wahanol resymau.

- o rhoi gwybodaeth a dogfennau cais am grant ar eu gwefan: *“mae’r wefan yn arf hollbwysig, oherwydd ei bod bob amser yn fyw ac mewn theori mae bob amser yn gyfoes”;*
- o deunydd hyrwyddo megis cylchlythyr e-wybodaeth WCVA;
- o cyfeirio at y rhaglenni grant drwy eu Desg Gymorth;
- o hysbysebion mewn gwahanol gylchgronau (megis papur newydd Rhwydwaith Cymru) a gohebiaeth;
- o hyrwyddo drwy ddarparwyr/rhwydweithio cyfryngol yn gweithio gyda sefydliadau targed (e.e. Rhwydwaith Gweithredu Gwirfoddol a gwasanaethau ieuenctid);
- o presenoldeb a chyflwyniadau mewn digwyddiadau a gynhaliwyd gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol.


Credai rhanddeiliaid y bu’r dulliau a ddefnyddiwyd yn gadarn ac ni awgrymodd neb ffyrdd y dylid gwella’r marchnata neu’r hyrwyddo. Fel canlyniad credai rhanddeiliaid fod ymwybyddiaeth dda o’r rhaglenni grant ymysg sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru. Dangoswyd hyn gan *“y ffaith fod yn gyffredinol lefelau uchel o geisiadau sy’n awgrymu fod pobl yn gwybod yn eitha am y rhaglenni”.* Mewn rhai achosion teimlwyd y bu cynnydd diweddar mewn diddordeb cyllid grant oherwydd y gostyngiad yn y grantiau sydd ar gael i’r sector drwy Gyngor y Celfyddydau a’r Cyngor Chwaraeon (effaith y gemau Olympaidd ar gyllid yng Nghymru).

Ymysg y sefydliadau a arolygwyd, y ffordd fwyaf cyffredin o ddigon o glywed am y gwahanol raglenni grant oedd drwy wefan WCVA/Llywodraeth y Cynulliad (gweler Siart 4.6). Nid yw hyn yn annisgwyl o gofio am y cyfoeth o wybodaeth sydd ar gael ar wefan WVCA ar bob rhaglen grant (yn cynnwys pecynnau cais y medrir ei lawrlwytho). Mae’n ddiddorol bod bron y cyfan (18 o 20) o’r sefydliadau a ddewisodd yr opsiwn hwn yn cael eu hariannu drwy raglen grant VWF. Ar y llaw arall, dim ond un sefydliad (2%) ddywedodd iddo glywed am y cynlluniau gyntaf drwy fod yn bresennol mewn digwyddiad neu sioe deithiol.

Dywedodd un mewn pump o sefydliadau eu bod eisoes yn ymwneud gyda’r WVCA cyn canfod am y rhaglen grant ac roedd y rhain yn llawer mwy tebygol o fod yn sefydliadau a ariannwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Adleisiwyd y canfyddiad hwn gan y sylwadau a wnaed gan gwpl o’r rhanddeiliaid a

gyfwelwyd - cododd un rhanddeiliad bryderon efallai nad yw'r hyrwyddiad ond yn cyrraedd y sefydliadau hynny sydd eisoes wedi sefydlu o fewn y WVCA. Teimlai rhanddeiliad arall nad oedd WVCA wedi gor-hyrwyddo'r gronfa WAC oherwydd ofn byddai'n derbyn llawer mwy o geisiadau nag y medrid eu diwallu.


*Siart 4.6: Dull o glywed am raglen grant*




Credai'r holl ymatebwyr a arolygwyd y bu'n rhwydd cael gwybodaeth am eu rhaglen grant berthnasol (gweler Siart 4.7). Roedd sefydliadau a ariannwyd drwy WAC yn fwy tebygol na'r ddwy raglen arall i ddweud i'r profiad hwn fod yn rhwydd iawn ond gall hyn adlewyrchu soffistigeiddrwydd y sefydliadau a ariennir drwy'r system grant yma.

O gofio am eu profiad cadarnhaol, ni fedrai mwyafrif yr ymatebwyr awgrymu unrhyw ffyrdd y medrai gwybodaeth am y rhaglen grant fod wedi bod ar gael yn rhwyddach, a chanmolodd nifer y WVCA ar gyfoeth yr wybodaeth sydd ar gael ar eu gwefan. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r ffocws yn y dyfodol fod ar godi ymwybyddiaeth o'r rhaglenni grant ymysg sefydliadau llai gan fod *"gwybodaeth ar gael yn rhwydd unwaith eich bod yn gwybod fod y rhaglen grantiau i gael!"*

*Siart 4.7: Rhwyddineb cael gwybodaeth am raglen grant*




4.3.2 Brandio

Trafodwyd brandio'r rhaglenni grant yn ystod yr ymgynghoriadau rhanddeiliaid, gyda barn gymysg i'w gweld am werth y tri brand presennol. Yn gyffredinol credai rhanddeiliaid mai am frand MV yr oedd yr *"adnabyddiaeth fwyaf"* a *"hoffter"* ymysg y gynulleidfa darged ond roeddent yn llai sicr am werth ei gynnal - ystyriai rhai rhanddeiliaid fod y brand yn un oedd yn cael ei adnabod yn eang ac yn dda tra soniodd eraill am ei natur hynafol. Roedd rhai o'r dadleuon dros foderneiddio'r brand yn neilltuol o gryf - y ffaith fod Lloegr wedi mabwysiadu brand arall (V Awards), bod yr Alban yn adolygu ei rhaglen MV ac y credid fod y cysylltiad gyda'r term 'Mileniwm' wedi dod yn hen ffasiwn i'r gynulleidfa yr oedd yn ei thargedu.

Roedd llai o drafodaeth am y ddau frand eraill, er y dadleuodd rhai rhanddeiliaid bod VWF a WAC bellach yn frandiau adnabyddus o fewn y sector.

4.3.3 Proses Cais am Grant

Ymddengys fod pob rhaglen grant wedi mabwysiadu prosesau cais cynhwysfawr yn cynnwys yr elfennau dilynol:

- o Ffurflenni cais - ffurflenni unigol sy’n amrywio o ran hyd a natur y cwestiynau;
- o Canllawiau cais - canllawiau unigol sy’n seiliedig i raddau helaeth ar roi cyngor ar gyfer pob cwestiwn a ofynnir yn y ffurflen gais;
- o Ffurflen monitro cyfle cyfartal – i gasglu gwybodaeth am y sefydliad sy’n gwneud cais a’i weithwyr a gwirfoddolwyr;
- o Ffurflen asesu grant Asesydd Proisect - defnyddir gan asesydd y prosiect i asesu meini prawf cymhwyster a ffitrwydd sefydliadol yn ogystal ag i sgorio cynnig y prosiect;
- o Ffurflen asesu Panel Grant – defnyddir gan y panel grantiau i sgorio cynigion y prosiect;
- o Llinell gymorth rhaglen grant – a gaiff ei staffio fel arfer gan yr asesydd grant perthnasol.


Credwn fod y dogfennau a fabwysiadwyd wedi bod yn gynhwysfawr ac yn gyffredinol yn addas i’r diben. Fodd bynnag, byddem yn gwneud y sylwadau dilynol:

- o Ar hyn o bryd gall ymgeiswyr WAC ddiffinio targedau eu prosiect eu hunain a chredwn y byddai’n fanteisiol i gais WAC i ofyn i ymgeiswyr nodi allbynnau ar o leiaf graidd cyffredin o dargedau yn ychwanegol at hyn (e.e. nifer gwirfoddolwyr newydd);
- o Nid oes cysondeb yn y gofynion i ymgeiswyr roi targedau yn erbyn grwpiau targed cymwys - er enghraifft dim ond gofyn iddynt ddiffinio pa grŵp targed y bydd ymgeiswyr yn canolbwyntio arnynt mae WAC tra bod MV ar y llaw arall yn llawer mwy eglur am y maes yma (er bod maint y grantiau yn llawer llai);
- o Nid yw dim o’r ceisiadau yn holi am ansawdd y profiadau a gaiff gwirfoddolwyr (h.y. p’un ai a fydd yn wirfoddoli ffurfiol neu anffurfiol) gan felly wneud unrhyw fonitro ar amcanion y Trydydd Dimensiwn yn y maes hwn yn anodd;
- o Ymddengys bod diffyg eglurdeb a chanllawiau manwl am amcanion allweddol y cynllun WAC (h.y. ystyr gwella’r seilwaith, meithrin gallu, cyfryngau a hyrwyddo ac ymchwil). Credwn y byddai rhai enghreifftiau o’r math o weithgareddau a ddisgwylid gan ymgeiswyr yn ddefnyddiol yma;
- o Mae diffyg cysondeb yn y dull a ddefnyddiwyd ar draws ffurflenni cais pan ofynnir am ddulliau i’w mabwysiadu ar gyfer monitro a gwerthuso

effaith prosiectau a ariannir - er enghraifft (ac er y ffaith fod y grantiau a ddyfernir yn llawer is) mae MV yn gofyn yn benodol am ddulliau gwerthuso a monitro a rhoi enghreifftiau o ddulliau o'r fath (e.e. gwerthusiad ar ôl prosiect, adroddiadau diwedd prosiect, tystiolaeth portffolio, astudiaethau achos ac ati) tra bod y WAC yn llawer llai penodol.

Roedd yr adborth ar y broses gais a gafwyd gan sefydliadau a ariannwyd yn gadarnhaol iawn yn gyffredinol. Canfu mwyafrif helaeth yr ymatebwyr a arolygwyd y ffurflen cais am grant un ai'n rhwydd iawn neu'n weddol rwydd ei llenwi - dim ond chwe sefydliad (neu 14% o'r holl ymatebwyr) a ddywedodd fel arall[31] er bod y rhai a dderbyniai gyllid VWF a MV yn fwy tebygol o ddynodi anawsterau na rhai'n derbyn cyllid WAC (gweler siart 4.8). Efallai y medrid esbonio hyn gan y ffaith fod gan sefydliadau a ariannwyd gan WAC fwy o brofiad blaenorol o lenwi ffurflenni cais am grant a bod ganddynt rwydwaith gefnogaeth ehangach ar gael iddynt o fewn eu sefydliadau mwy.

*Siart 4.8 Rhwyddineb llenwi'r ffurflen gais am grant*




Yn ddiddorol, roedd rhanddeiliaid yn fwy tebygol na'r sefydliadau a wnaeth gais i bwysleisio'r angen i symleiddio'r broses gais. Er enghraifft galwodd un Ganolfan Gwirfoddoli am yr angen i symleiddio a chwtogi'r broses gais ar gyfer darparwyr cyflenwi MV : *"mae'r broses gais yn rhy hir ar gyfer y swm o*

[31] Ni fedrai chwech o'r ymatebwyr a arolygwyd ymateb i'r cwestiwn yma gan na fuont yn gyfrifol am lenwi'r cais. Roedd pob un o'r chwech yn staff proseictau a ariannwyd gan WAC.

*gyllid sydd ar gael - dydyn ni ddim wedi denu llawer o ddiddordeb yma oherwydd y bydd sefydliadau allan yna yn cael mynediad i fwy o arian ac yn gorfod rhoi llai o wybodaeth mewn man arall".* Cyfeiriodd rhanddeiliad arall at gwynion a dderbyniodd yn y gorffennol am *"gwestiynau hirwyntog".* Fodd bynnag byddai'n ymddangos y gwnaed ymdrechion yn y gorffennol i symleiddio'r ffurflenni cais a bod unrhyw gamau pellach yn y cyfeiriad hwn yn profi'n anodd.

Dywedodd rhanddeiliaid oedd yn ymwneud â chyflenwi'r rhaglenni grant (heb fod yn annisgwyl) fod sefydliadau llai yn fwy tebygol o ofyn am gyngor ac arweiniad gan y WCVA na sefydliadau cenedlaethol mwy a oedd yn debycach o fod â thimau arbenigol ar gael i gefnogi'r broses gais. Fe wnaethant gadarnhau pwysigrwydd rhoi'r gefnogaeth yma er yr ystyriwyd bod y sefydliadau mwy yn *"dargedau rhwyddach"* gan fod yn aml werth arbennig yn y math o weithgaredd gwirfoddol a gynigir gan brosiectau bach lleol.

Nododd rhanddeiliaid fod yn aml fwy o risg mewn cefnogi sefydliadau llai a mwy dibrofiad a bod angen defnyddio systemau monitro effeithlon i ddynodi unrhyw broblemau gyda'r prosiectau ar gam cynnar yn eu cyflenwi.

Gofynnwyd i'r nifer fechan o ymatebwyr i'r arolwg a soniodd am anawsterau wrth lenwi ffurflenni cais i roi mwy o fanylion am eu profiadau. Roedd rhai o'r sylwadau'n cynnwys:

- Eu diffyg profiad wrth lenwi ffurflenni cais: *"hwn oedd y cais gyntaf am grant i mi erioed ei lenwi. Roedd yn anodd amcangyfrif costau fel teithio. Fe wnes amcangyfrif anghywir felly mae gennym broblem yn awr yn talu am gostau teithio gwirfoddolwyr";*
- Anawsterau yn gysylltiedig â blaengynllunio: *"bu'n rhaid llenwi'r ffurflen chwe mis cyn recriwtio a gan nad oedden ni'n gwybod beth oedd gwirfoddolwyr newydd ei angen na'u diddordebau adeg honno does ganddon ni ddim digon o arian i dalu am eu hanghenion hyfforddi mewn meysydd neilltuol".*
- Anawsterau gyda'r ffurflen ei hunan: *"angen gwybodaeth ddiangen", "cwestiynau ailadroddus"* a *"hir a rhy fanwl".*

Pan ofynnwyd pa newidiadau y dymunent eu gweld yn y ffurflenni cais, awgrymodd nifer fechan o'r ymatebwyr a arolygwyd y dilynol:

- o Darparu ffurflen gais ar y we y medrir ei chadw a'i dychwelyd i a/neu anfon y ffurflen gais bresennol yn electronig;
- o Gostwng yr hyn sy'n ymddangos yn ailadrodd cwestiynau ar y ffurflenni cais presennol;
- o Darparu hyfforddiant a chefnogaeth i geisiadau grant tro cyntaf (e.e. adolygu drafft geisiadau a rhoi cyngor ar feysydd megis costau treuliau); gan fod darpariaeth o'r fath, mewn gwirionedd, wedi bod ar gael drwy'r WVCA, efallai bod hyn yn dangos yr angen i geisio hyd yn oed yn galetach i sicrhau fod darpar ymgeiswyr yn gwybod am y cyfleoedd hyn.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a arolygwyd i roi eu barn ar agweddau neilltuol o'r broses cais am grant a chymeradwyo. Roedd yr adborth yn gyffredinol iawn:

- o Credai pawb a ymatebodd fod y WVCA wedi delio'n dda iawn neu'n dda gyda'u hymholiadau;
- o Credai pawb heblaw un o'r ymatebwyr y bu cyflymder cymeradwyo'r cais un ai'n dda iawn neu'n dda. Gall hyn adlewyrchu penderfyniad diweddar gan WVCA i newid cyfarfod y panel grantiau WVF yn hwyrach i fis Tachwedd/Rhagfyr fel y caiff ymgeiswyr eu hysbysu am y canlyniad ym mis Ionawr yn hytrach nag ym mis Chwefror neu fis Mawrth fel mewn blynyddoedd blaenorol, gan roi mwy o amser iddynt baratoi i gychwyn ym mis Ebrill;
- o Credai'r holl ymatebwyr y bu'r hysbysiad am ganlyniad y cais am grant un ai'n dda iawn neu'n dda (er efallai nad yw hyn yn annisgwyl gan mai dim ond ymgeiswyr llwyddiannus a holwyd!)

Yn nhermau newidiadau neu welliannau i'r broses gais a chymeradwyo grant, awgrymodd ymatebwyr y syniadau dilynol:

- o Ar gyfer VWF, roedd cefnogaeth gref i symud ymaith o gais blynyddol ac ailymgeisio i broses gais dair blynedd a fyddai'n gostwng yr ymrwymiadau amser yn sylweddol ar gyfer sefydliadau o'r fath. Roedd mwyafrif, ond nid cyfan, y rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn gwybod am y baich ychwanegol hwn ar brosiectau a ariennir gan VWF a chytunwyd fod angen trafod y mater i sicrhau gwell gwerth am arian i'r rhaglen grant hon wrth symud ymlaen;
- o Ar gyfer MV, goresgyn mater bwlch chwarterol mewn cyllid sy'n dod oherwydd gorfod cyflwyno adroddiad diwedd blwyddyn cyn ystyried y

cais am gyllid y flwyddyn ddilynol. Ar hyn o bryd mae hyn yn cynhyrchu problem wrth gadw gwirfoddolwyr ac roedd rhai sefydliadau yn canfod fod yn rhaid iddynt gychwyn o'r cychwyn eto yn yr ail flwyddyn. Nododd dau o'r sefydliadau MV yr ymwelwyd â hwy eu bod wedi colli ar gyllid MV am flwyddyn oherwydd bod gormod o wahaniaeth rhwng yr amserlen gwneud cais â'r flwyddyn academaidd ac er nad oedd hyn wedi arwain at i'r prosiect beidio rhedeg yn y naill achos na'r llall, roedd wedi gosod straen ar gyllid a gostwng maint y gweithgaredd. Eto cydnabu rhanddeiliaid oedd yn ymwneud â chyflenwi MV fod y mater hwn wedi achosi problemau i rai sefydliadau ac nad oedd yn fater rhwydd i'w ddatrys o gofio am yr angen i'r panel grantiau weld cynnydd yn erbyn targedau cais. Awgrymwyd y medrai fod yn bosibl i'r panel grantiau seilio penderfyniad ar adroddiadau interim yn hytrach na phrosiectau prosiect terfynol yn y dyfodol;

- Cyflwyno 'cynllun pasbort' lle cyflwynir gwybodaeth safonol megis cyfrifon sefydliadau unwaith i'r WCVA a'u cadw ar gyfer ceisiadau'r dyfodol. Deallwn fod yr WCVA wedi mabwysiadu cynllun o'r fath yn ddiweddar (lle caiff dogfennau cyfansoddiadol eu cyflwyno unwaith i'r WCVA a'u storio dan y cynllun Pasbort i'w defnyddio ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol) a bod yr adborth gan sefydliadau gwirfoddol yn awgrymu fod hyn yn symudiad a groesewir.

Ar y cyfan credai rhanddeiliaid y bu'r prosesau a gweithdrefnau cais a ddefnyddiwyd gan y WCVA yn addas iawn. Er yn cydnabod yr angen i fedru mabwysiadu cynigion cais electronig yn y dyfodol, credai rhai y dylid hefyd gynnal ceisiadau papur i alluogi'r rhai sy'n cwblhau ceisiadau ysgrifenedig i barhau i wneud hynny os dymunant.

### 4.3.4 Ansawdd Ceisiadau

Roedd rhanddeiliaid oedd yn ymwneud â'r broses gais yn gyffredinol fodlon gydag ansawdd y ceisiadau a ddaeth i law ar gyfer y tair rhaglen grant. Teimlid fod ansawdd ceisiadau WAC rywfaint yn well na'r ddwy arall - efallai yn adlewyrchu dwy ffactor, yn gyntaf, fod sefydliadau'n rhoi mwy o ymdrech i'r cais hwn gan mai dim ond unwaith bob tair blynedd y mae ar gael o gymharu â'r grant VWF sy'n tueddu i dderbyn ceisiadau mwy sbeciannol, ac yn ail, mae ceisiadau WAC yn fwy tebygol o gael eu gwneud gan sefydliadau

gwirfoddol mwy sydd â mwy o brofiad o wneud ceisiadau. Yn achos y gronfa MV, roedd rhanddeiliaid yn ymwneud ag asesu ceisiadau wedi gweld gwelliant uniongyrchol yn ansawdd y ceisiadau a gyflwynwyd ar gyfer y grant hwnnw lle bu hyfforddiant ar gael ymlaen llaw

Er bod cydnabyddiaeth gyffredinol fod mwy o alw am gronfeydd nag o gyllid ar gael, ystyriwyd bod hon yn sefyllfa iach. Ni theimlid fod cymaint mwy o alw nag o gyllid ar gael fel bod ceisiadau cryf yn cael eu gwrthod na bod unrhyw gynnydd yn y gyllideb yn fater o frys - er, o gofio am y dystiolaeth yn Adran 4.2.3, medrid meddwl fod y VWF yn profi lefelau mor uchel o alw fel bod yn rhaid bod risg fod prosiectau da yn cael eu gwrthod.

Credai rhanddeiliaid fod gweithdrefnau addas ar gael i ymgeiswyr aflwyddiannus apelio. Er na wnaethom gasglu data ar nifer yr apeliadau a wnaed ar bob rhaglen grant, awgrymodd rhanddeiliaid nad oedd llawer o sefydliadau wedi cymryd y llwybr hwn gan ddadlau yn lle hynny bod yr adborth a roddwyd i ymgeiswyr aflwyddiannus wedi dileu'r angen am apeliadau.

### 4.3.5 Effeithlonrwydd Paneli Grant

Sefydlwyd panel grant a hwyluswyd gan y WVCA ar gyfer pob rhaglen grant ac mae'n ystyried yr argymhellion a wnaed gan yr asesydd grantiau. Teimlai'r rhanddeiliaid hynny a fedrodd roi sylwadau fod aelodaeth y panel yn addas, yn cynnwys cynrychiolaeth dda o'r trydydd sector yn ogystal â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad fel sylwedyddion: ystyriwyd bod y paneli yn ddull pwysig o gadw Llywodraeth y Cynulliad mewn cysylltiad gyda chynnydd a phroblemau rhaglenni. Ystyriwyd fod y paneli dyfarnu grantiau yn cael eu rheoli'n dda a'u bod yn cyfrannu'n effeithiol at y prosesau penderfynu, fel y dangosir gan y sylwadau dilynol:

*"Rwy'n credu fod y system panel yn gadarn iawn. Mae cylch gorchwyl clir, fframwaith clir ar gyfer sgorio prosiectau."*

*"Yn sicr mae gan WCVA brosesau a gweithdrefnau clir iawn ar waith ar gyfer rhedeg paneli grantiau."*


Dywedodd un sylwedydd fod ffurflenni cais yn cael eu hanfon at aelodau mewn da bryd cyn cyfarfodydd a bod ffocws y drafodaeth ar achosion anodd. Awgrymodd adborth fod y paneli yn herio barn aseswyr am geisiadau yn effeithlon ac nad dim mater o amenio syml oedd hi. Yn gyffredinol teimlid fod yr asesiadau sgorio yn werthfawr a bod hefyd ddigon o hyblygrwydd o fewn y system i roi ystyriaeth i ffactorau ehangach.

Fodd bynnag mynegwyd rhai pryderon am drosiant cymharol uchel aelodau panel yn ogystal â'r anawsterau a wynebai rai o'r paneli wrth recriwtio a sicrhau mewnbwn pobl ifanc fel aelodau.

4.3.6 Monitro Grantiau

Mae adborth gan yr ymatebwyr a arolygwyd yn tueddu i awgrymu eu bod yn wynebu ychydig mwy o anawsterau yn cwblhau'r ffurflenni monitro grant o gymharu gyda'r ffurflenni cais am grant, gyda phump o'r sefydliadau (neu 7% o'r ymatebwyr) yn dweud eu bod un ai'n anodd iawn neu'n weddol anodd. Roedd tri o'r sefydliadau hyn yn derbyn cyllid WAC a'r ddau arall yn derbyn cyllid VWF. Ar ôl dweud hyn, credai 19 sefydliad (neu 41% o'r ymatebion) fod y ffurflenni monitro yn rhwydd iawn eu cwblhau a chredai 22 sefydliad arall (neu 48% o ymatebwyr) eu bod yn weddol rwydd, fel y dangosir yn Siart 4.9.

*Siart 4.9 Rhwyddineb llenwi ffurflenni monitro grant*



Gofynnwyd i'r ymatebwyr a arolygwyd sut (os o gwbl) y medrid gwella'r ffurflenni monitro. Roedd y mwyafrif yn fodlon gyda'r ffurflenni presennol eu hunain ond gwnaed rhai awgrymiadau:

- o Gostwng eu hamlder (yn arbennig y VWF) i adroddiadau monitro blynyddol neu chwe misol (soniodd pedwar o ymatebwyr yr VWF am y mater hwn);
- o Dileu *"natur ailadroddus rhai o'r cwestiynau";*
- o Rhoi mwy o ofod i roi adroddiad ar gynnydd *"dim digon o le i ysgrifennu popeth a'i ysgrifennu mewn hyn a hyn o eiriau. Mae'n edrych fel na fyddem wedi gwneud llawer o waith".*

Trafodwyd amlder adroddiadau VWF gyda rhanddeiliaid a oedd yn bennaf yn ymwybodol o'r rhwystredigaeth ymysg sefydliadau am yr adroddiadau beichus. Amddiffynnodd rai'r dull monitro rheolaidd a ddefnyddiwyd gan y rhaglen grant, yn neilltuol yn ystod blwyddyn gyntaf cyllid, gan ei fod yn galluogi'r WCVA i asesu cynnydd prosiectau a mynd i'r afael ag unrhyw feysydd o danberfformiad ar gam cynnar iawn yn y broses. Dadleuwyd y medrai monitro llai aml, dyweder ar sail chwe misol, arwain at ddynodi problemau'n rhy hwyr yn y dydd gyda'r canlyniad nad oedd prosiectau'n cael ail flwyddyn cyllid. Fodd bynnag dadleuodd mwyafrif y rhanddeiliaid bod angen gostwng y baich adrodd a roddir ar brosiectau VWF, yn neilltuol yn yr ail a'r drydedd flwyddyn pan fyddai prosiectau wedi sefydlu'n dda a dod ag ef i gydymffurfio gyda'r adroddiadau chwech misol a ddefnyddir gan WAV a MV. Dywedodd rhai rhanddeiliaid y byddai'r newid hwn hefyd yn arwain at i'r rhaglen grant gynnig gwell gwerth am arian.

Roedd dros hanner (29 sefydliad neu 59% o'r ymatebwyr a arolygwyd[32]) wedi cael ymweliad monitro gan asesydd grant WVCA yn ystod oes y prosiect. Fel y byddid wedi disgwyl o gofio am y faint a'r niferoedd cysylltiedig, roedd y gyfran hon yn amrywio'n helaeth ar draws y tair rhaglen grant - gyda'r holl brosiectau a dderbyniodd arian WAC, tua hanner y rhai VWF a dim ond dau o'r prosiectau MV wedi derbyn ymweliad monitro. Roedd hyn yn cadarnhau ymagwedd WVCA a ddywedodd fod ymweliadau monitro yn amrywio o holl brosiectau WAC i tua 5% o'r prosiectau MV. Dangosodd y cyfweliadau gyda sefydliadau a dderbyniodd grant fod WCVA wedi gwneud cais am rai

[32] Ni wnaeth un ymateb i'r cwestiwn yma

ymweliadau monitro ond y bu'n amhosibl eu trefnu oherwydd y byddent wedi gorfod cael eu cynnal ar fin nos.

Roedd yr holl ymatebwyr a fedrai roi sylwadau ar ymweliad monitro (22 i gyd) yn fodlon gyda'r broses gysylltiedig ac adleisiwyd hyn yn ein cyfweliadau astudiaeth achos, lle'r oedd y rhai a gyfwelwyd yn gyffredinol yn canmol y profiad. Dywedodd ymatebwyr yr arolwg y bu angen iddynt ddarparu amrywiaeth o ddata a gwybodaeth ar gyfer yr asesydd yn cynnwys:

- Gwybodaeth a systemau cyfrifeg prosiectau;
- Adroddiadau cynnydd prosiect;
- Tystiolaeth dros allbynnau dangosydd perfformiad;
- Systemau monitro prosiect;
- Astudiaethau achos gwirfoddolwyr.

Ni chredai unrhyw un o'r sefydliadau fod angen gwneud newidiadau i'r ymweliadau monitro.

Rhoddodd rhanddeiliaid hefyd adborth cadarnhaol ar y broses ymweliadau monitro a pha mor ddefnyddiol oeddent. Soniodd aseswyr prosiectau fod yr ymweliadau yn ffordd neilltuol o ddefnyddiol o ddeall sut yr oedd sefydliadau'n defnyddio'r cyllid, asesu cynnydd a thrafod unrhyw broblemau gweithredu yr oeddent yn eu profi.

4.3.7 <u>Rheolaeth Rhaglenni Grantiau</u>

Yn gyffredinol roedd sefydliadau a dderbyniodd grantiau a hefyd randdeiliaid yn uchel eu clod am reolaeth WVCA o'r cynlluniau grantiau. Dywedodd nifer mai'r WVCA oedd y sefydliad cywir i reoli'r rhaglen grantiau yng Nghymru gan mai dyma'r corff arweiniol ar gyfer gwirfoddoli yng Nghymru. Roedd y sylwadau a wnaed ar reoli rhaglenni grantiau gan randdeiliaid allanol (i'r WVCA) yn cynnwys:

*"Rwy'n credu ei fod yn ardderchog. Rwy'n meddwl eu bod nhw'n gwneud gwaith da iawn, rwy'n credu eu bod yn drwyadl iawn".*

*"Mae ganddyn nhw systemau da iawn yn eu lle".*

Cefnogwyd eu barn gan ffeithiau megis y diffyg cwynion a wnaed gan sefydliadau i Lywodraeth y Cynulliad a'r adroddiad diweddar cadarnhaol a baratowyd gan archwilwyr mewnol Llywodraeth y Cynulliad ar systemau'r WCVA. Roedd mater tanwariant rhaglen yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ond ystyriwyd mai mân beth oedd hyn yng nghyd-destun rhaglen grant oedd yn cael ei rheoli'n gyffredinol dda. Roedd y trosiant cymharol uchel o staff o fewn y WVCA dros gyfnod y cynlluniau grant yn fwy arwyddocaol ond ni theimlwyd i hyn gael unrhyw effaith niweidiol sylweddol ar berfformiad y rhaglenni grant.


Barnwyd bod y berthynas waith rhwng y WVCA a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, a ddisgrifiwyd gan un rhanddeiliaid fel *"un eitha dwylo bant",* yn dda iawn ac addas. Fel y nodwyd eisoes, mae cynrychiolwyr Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cyfrannu fel sylwedyddion i'r paneli grantiau, ac ystyriai pawb yn gysylltiedig fod y rôl hon yn un werthfawr. Credai cynrychiolwyr Llywodraeth y Cynulliad iddynt gael gwybodaeth lawn am gynnydd y rhaglen drwy adroddiadau rheolaidd WVCA a bod unrhyw broblemau yn cael eu tynnu i'w sylw mewn modd amserol. Yn yr un modd, credai cynrychiolwyr WVCA fod ganddynt berthynas waith agored a chryf gyda Llywodraeth y Cynulliad fel bod problemau'n cael eu hadrodd a'u datrys yn gyflym. Dywedwyd bod pa mor gyflym y cydweithiodd WVCA a Llywodraeth y Cynulliad i ddatrys y sefyllfa a grëwyd pan aeth Weston Spirit, un o'r sefydliadau a ariannwyd gan WAC, i anawsterau ariannol, yn enghraifft o hyn lle bu'n bosibl dynodi darparydd arall ac i'w gais gael ei ddatblygu a'i gymeradwyo'n gyflym iawn.

## 4.4 Strwythur Ariannu y Dyfodol

### 4.4.1 <u>Cynlluniau'r Sefydliadau ar gyfer y Dyfodol</u>

Gofynnwyd i'r sefydliadau a arolygwyd am eu cynlluniau ar gyfer gweithgareddau gwirfoddoli yn y dyfodol a'r un amcan pwysicaf a ddynodwyd gan fwyafrif helaeth y rhai a gyfwelwyd (41 sefydliad neu 82% o ymatebwyr) oedd recriwtio mwy o wirfoddolir, fel a welir yn Siart 4.10.

*Siart 4.10 Cynlluniau Gwirfoddoli Sefydliadau ar gyfer y Dyfodol*




Mae hyn yn adlewyrchu'r canfyddiadau o'r gwaith maes fod recriwtio gwirfoddolwyr newydd i gymryd lle'r trosiant naturiol yn her gyson i lawer o sefydliadau. Barnwyd fod nodau eraill, megis hyfforddi a chynyddu sgiliau gwirfoddolwyr presennol neu newydd a chadw'r gronfa bresennol o wirfoddolwyr, hefyd yn bwysig ond yn llai hanfodol gyda thua dau-draean (neu 32 a 31 sefydliad) yn dynodi'r amcanion hyn. Roedd yr ymateb gan sefydliadau a ariannwyd gan MV yn dilyn patrwm ychydig yn wahanol i'r ddwy raglen grant arall gydag ymatebwyr yn rhoi mwy o ffocws ar hyfforddi a chynyddu sgiliau eu gwirfoddolwyr. Dim ond lleiafrif (15 sefydliad neu 30%) a gredai fod angen iddynt ganolbwyntio ar well rheolaeth o weithgaredd gwirfoddoli, efallai'n awgrymu y cafodd yr elfen hon ei thrin yn ystod oes y prosiect (neu i'r gwrthwyneb yn adlewyrchu rhywfaint o hunanfoddhad am y materion hyn).

Dywedodd mwyafrif helaeth y sefydliadau (43 sefydliad neu 86% o ymatebwyr) y bwriadent ariannu'r cynlluniau hyn ar gyfer y dyfodol (neu'n rhannol o leiaf) drwy gynlluniau grant gwirfoddoli WVCA gyda llai'n dewis opsiynau eraill megis defnyddio adnoddau'r sefydliad ei hun (23 sefydliad neu 46%), codi arian (19 sefydliad neu 38%) a chynlluniau grant eraill (12 sefydliad neu 24%). Mae hyn yn arwydd pwysig o'r diffyg cynnydd tuag at (a medrid dadlau yr amhosibilrwydd i lawer o sefydliadau trydydd sector) o greu ffordd hunangynhaliol i ariannu recriwtio, hyfforddi a chadw gwirfoddolwyr.

Roedd sefydliadau a ariannwyd gan VWF a MV yn fwy tebygol o ddynodi'r cynlluniau grant fel llwybr cyllid posibl ar gyfer y dyfodol y medrid ei esbonio gan y ffaith y byddai prosiectau VWF blwyddyn 1 yn rhagweld medru cyflwyno ar gyfer cyllid blynyddoedd 2 a 3 a phrosiectau MV yn medru cyflwyno ceisiadau blynyddol. Roedd prosiectau a ariannwyd yn llawer mwy tebygol o ddynodi adnoddau eu sefydliad eu hunain fel ffynhonnell gyllid bosibl (ar 82%) a all fod yn ganlyniad dwy ffactor - gwell cynllunio strategaeth gadael y prosiectau o fewn y rhaglen ariannu hon a'r sefydliadau hynny yn bod yn llawer mwy tebygol o ddweud y byddai'r prosiectau wedi mynd ymlaen yn yr un ffordd gyda chyllid o fan arall (efallai'n awgrymu, er nodau'r cynllun, nad yw VWF mewn gwirionedd yn gronfa gobaith olaf. Roedd prosiectau a ariannwyd gan WAC ddwywaith mor debyg o ddynodi cynlluniau grant eraill fel ffynhonnell bosibl o gyllid yn y dyfodol (ar 44%) gan awgrymu y gall y sefydliadau hyn fod yn fwy tebygol o fedru cael mynediad i ffynonellau eraill o gyllid sydd ar gael drwy'r sector preifat neu awdurdodau lleol. Dim ond dau sefydliad soniodd am ffynonellau eraill o gyllid ac roedd y rhain yn cynnwys cronfeydd Gwirvol, y Loteri a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

### 4.4.2 Barn ar Strwythur Ariannu yn y Dyfodol

Ystyriodd yr ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid os oedd yn addas cynnal y strwythur ariannu grant presennol ac os na, pa strwythur arall fyddai fwyaf addas. Yn gyffredinol nid oedd unrhyw wir gonsensws ar y mater hwn ymysg rhanddeiliaid er y cydnabu'r rhan fwyaf fod yr agenda polisi wedi symud ymlaen ers sefydlu'r rhaglenni grant a bod angen gweithredu rhai newidiadau fel canlyniad.

Roedd y farn am gymysg am unrhyw syniadau a fyddai'n symleiddio ac uno'r cronfeydd grant, gyda nifer yn lleisio eu pryderon y byddai uno unrhyw rai o'r rhaglenni grant yn arwain at ostyngiad mewn ymwybyddiaeth o fewn y sector. Teimlai'r rhanddeiliaid hyn fod gwahaniad presennol y rhaglenni grant yn galluogi sefydliadau i gysylltu eu hunain yn rhwydd gyda'r brand sy'n adlewyrchu eu hamcanion eu hunain: *“mae rhoi o'r neilltu yn ei wneud yn rhwyddach i'w ddeall”.* Roedd hefyd bryder y medrai dileu'r gwahaniad rhwng, er enghraifft, WAC a VWF arwain at i'r sefydliadau mwy a ariannwyd dan WAC ‘wasgu allan’ sefydliadau llai ac nad oedd ganddynt gymaint o adnoddau i ddatblygu ceisiadau caboledig am gyllid.

Er y medrai llawer o randdeiliaid weld manteision cyflwyno nifer lai o ffrydiau cyllid fel symudiad rhesymegol mewn trefniadau presennol, roedd llawer o ansicrwydd am p'un a fyddai'n gweithio yn ymarferol.

Yn fwy cyffredinol, teimlwyd, yn neilltuol o fewn y trydydd sector ei hunan, ei bod yn hollbwysig diogelu lefel y cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd drwy'r tair rhaglen grant oherwydd y gostyngiad diweddar mewn cyllid sydd ar gael yn gyffredinol ar gyfer y sector fel canlyniad i'r dirwasgiad. Pwysleisiodd nifer o unigolion y dylid trosglwyddo unrhyw arbedion maint a fedrai fod yn ganlyniad uno rhaglenni grant yn ôl i'r pot cyllid.

Roedd cefnogaeth fwy eang ar gyfer adolygu rhaglen grant MV ac ymchwilio'r posibilrwydd o ailenwi ac ailfrandio y dyfarniad a dod â hi'n nes at gynllun GwirVol. Fodd bynnag soniodd nifer o randdeiliaid am yr angen i'w *"diogelu o fewn GwirVol"* fel y dylai cadw pwyslais ar *"wirfoddoli cyson*". Yn gyffredinol medrai rhanddeiliaid weld gwerth a rhesymeg uno cynlluniau GwirVol a MV.

Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y medrid uno rhaglenni grant WAV a VWF, ond roedd llawer yn ystyried fod hwn yn fater cynhennus:

*"Os ydi'r meini prawf yn rhy llydan, mae'n agored i bopeth a felly wyddoch chi ddim yn iawn beth ydi'r disgwyliad a beth mae'r ariannwr ei angen er mwyn gwneud y penderfyniad. Fe fyddwn i'n dadlau dros eu cadw ar wahân i roi'r eglurder hwnnw".*

*"Mae rhai manteision i'w cadw ar wahân. Os ydych chi'n targedu pobl ifanc er enghraifft, yna medrir targedu marchnata a hyrwyddo'n benodol at bobl ifanc. Medrai un rhaglen fwy fod yn llai deniadol i grwpiau penodol".*

Fodd bynnag credai nifer o randdeiliaid fod angen datrys yr anfanteision presennol o fewn y ffrydiau cyllid hyn – materion megis diffyg hyblygrwydd o fewn WAC i ymateb i flaenoriaethau'r llywodraeth yn fwy aml na phob tair blynedd; diffyg sicrwydd o fewn cronfa'r VWF oherwydd y broses gais flynyddol a'r swm anghymesur o weinyddiaeth yn gysylltiedig gyda'r grant VWF. Wrth symud ymlaen awgrymodd nifer o unigolion y medrid uno'r gronfa WAC a VWF yn un rhaglen grant a fyddai'n seiliedig ar egwyddor rhaglen

cyllid grant dair blynedd dreigl. Byddai hyn yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i ymateb i ofynion polisi ar sail llawer mwy rheoilaidd, rhoi pwyntiau mynediad blynyddol i sefydliadau gwirfoddol i'r drefn gyllid a rhoi sicrwydd cyllid tymor-canol (h.y. tair blynedd).

## 5.0 CASGLIADAU

I gloi, dychwelwn i ymchwilio nodau ac amcanion cyffredinol y gwerthusiad.

***A yw'r rhaglenni grant, yn unigol a gyda'i gilydd, wedi cyflawni eu hamcanion a chynyddu lefelau gwirfoddoli yng Nghymru?***

Yn ystod 2008/09, gyda chyllideb o ychydig dan £2m, gyda'i gilydd cefnogodd y tair rhaglen grant recriwtio dros 10,000 o wirfoddolwyr newydd. Hyd yn oed ar ôl caniatáu am y ffaith y bydd cyfran sylweddol ohonynt wedi bod yn newydd i'r sefydliad neilltuol yn hytrach nag yn newydd i wirfoddoli *per se,* mae hyn yn ffigur sylweddol a aiff beth ffordd i gynyddu lefelau gweithgaredd gwirfoddoli yng Nghymru. Mae'r gwerthusiad yn awgrymu fod perfformiad da yn gyffredinol ar dargedau rhaglen grant unigol gyda gorchudd cryf o grwpiau targed ac ardaloedd daearyddol eang, er gyda rhai pryderon y gall y medrant fod wedi treiddio llai i'r ardaloedd mwy poblog, megis Cymoedd De Cymru.

Ar yr un pryd, mae ein canfyddiadau'n awgrymu na fedrir priodoli'r holl allbynnau hyn i effeithiau'r cyllid grant gan mai ychydig o sefydliadau oedd yn adrodd cyflawniadau ar draws y sefydliad yn hytrach na rhai oedd yn cyfeirio'n benodol at y prosiect dan sylw. Dengys ein canfyddiadau hefyd fod y diffiniad o wirfoddolwr 'newydd' yn anghyson ar draws y prosiectau y gwnaethom ymweld â hwy.

Mae hefyd rai cwestiynau yn deillio o'r gwerthusiad am i ba raddau y medrodd y rhaglenni grant ddenu unigolion heb unrhyw brofiad blaenorol o wirfoddoli, mewn geiriau eraill i gynyddu'r gyfran o'r holl oedolion o fewn Cymru sy'n gwirfoddoli mewn un modd neu un arall. Er bod hyn yn amcan sylfaenol i'r holl raglenni grant, ymddengys y bu MV yn fwy effeithiol na'r lleill yn cefnogi unigolion sy'n wirioneddol newydd i wirfoddoli - er y gall hyn i raddau helaeth fod oherwydd y proffil oedran.

Ar ôl dweud hyn, byddem yn pwysleisio fod cynyddu cyfraniad gwirfoddoli gwirfoddolwyr presennol hefyd yn darged haeddiannol (ac yn un sy'n sicr yn cyd-fynd yn dda gyda'r farn 'cyfryngol' am wirfoddoli sy'n ei weld fel bod yn allwedd i alluedd sefydliadau trydydd sector i roi dyfnder ac ehangder

gwasanaethau a chefnogaeth i unigolion a chymunedau na fedrai byth gael ei gyflawni drwy ddarpariaeth statudol) nad yw efallai wedi cael ystyriaeth ddyledus o fewn amcanion y rhaglen grant ac y medrid ei gryfhau o fewn cyllid y dyfodol.

Canfu'r gwerthusiad dystiolaeth i awgrymu fod prosiectau'n cefnogi llawer o wirfoddolwyr i ddatblygu ystod eang o sgiliau a phrofiadau y medrent fynd gyda hwy i gyfleoedd gwirfoddoli, astudio a chyflogaeth yn y dyfodol. Ar yr un pryd, mae'n bwysig tanlinellu y caiff gwirfoddolwyr mewn llawer o achosion eu gyrru yn gyfartal gan gymhellion dyngarol a datblygiad personol.

Er ei bod yn glir fod y ddau gymhelliant yma yn berthnasol i farn Llywodraeth y Cynulliad o werth gwirfoddoli, efallai fod cwmpas am esboniad mwy eglur mewn dogfennau polisi ac yn nhermau canllawiau ar gyfer cynlluniau grant y dyfodol o'r cydbwysedd rhwng gwahanol gymhellion (e.e. cynyddu darpariaeth ac ansawdd gwasanaethau a chefnogaeth a gynigir gan sefydliadau trydydd sector; datblygiad personol unigolion drwy wirfoddoli; creu cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniaeth gymunedol drwy ymestyn gwirfoddoli tu hwnt i'r grwpiau sydd eisoes y mwyaf tebygol o wirfoddoli). Yn yr ystyr hwn, cafodd y graddau y gallasom drwy'r gwerthusiad hwn farnu eu hamcanion ei lesteirio gan y diffyg eglurder am amcanion ehangach Llywodraeth y Cynulliad wrth geisio cynyddu gwirfoddoli.

Gan droi i ystyriaethau 'gwerth am arian', mae'r canfyddiadau'n dangos amcangyfrifon gweddol debyg am 'gost fesul gwirfoddolwr newydd a recriwtiwyd' ym mhob un o'r tair rhaglen, sy'n amrywio rhwng £140-£300. Fodd bynnag, caiff dilysrwydd cymariaethau o'r fath ei gyfyngu'n ddifrifol gan amrywiaeth y grwpiau prosiect a dynesiadau prosiect wrth gyflawni'r hyn sy'n amcanion neilltuol y rhaglen. Mae angen cydnabod hyd yn oed o fewn rhaglenni - ac yn neilltuol o fewn WAC lle mae prosiectau yn neilltuol iawn ac wedi'u teilwra i ofynion y sefydliad unigol (i raddau y mae WAC weithiau'n ymddangos yn fframwaith ar gyfer prosiectau a negodir yn unigol yn hytrach na rhaglen o gwbl) - mae amrywiaeth y prosiectau'n ei gwneud yn anodd datblygu unrhyw fath o dargedau cronnus neu ddangosyddion perfformiad ystyrlon.

Serch hynny, gall unrhyw drefniadau cyllid ar gyfer y dyfodol ddymuno ystyried cynnwys mwy o gyffredinedd ar draws rhaglenni, er enghraifft, yng nghyswllt gosod targedau clir ar gyfer 'nifer y gwirfoddolwyr newydd a recriwtiwyd' a 'nifer mewnbwn oriau gwirfoddolwyr newydd'. Yn ychwanegol, byddai symudiadau i grynhoi cyfanswm (cronnus) nifer gwirfoddolwyr a mewnbwn oriau yn cynnwys cadernid y data a chefnogi gwell penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau yn y dyfodol.

***A yw'r dyraniad presennol o gronfeydd i bob un o'r tri chynllun gwirfoddoli yn addas a'r ffordd orau o gyflawni'r amcan cyffredinol o gynyddu gwirfoddoli ar draws Cymru?***

Pan sefydlwyd y rhaglenni grant i ddechrau, gwnaethpwyd hynny'n annibynnol o'i gilydd. Yn gyffredinol ymddengys eu bod wedi diwallu anghenion y sector dros yr ychydig flynyddoedd diwethf a dangosir hyn gan y galw uchel am adnoddau o'r tu mewn i'r sector. Bu'r galw am y grant VWF yn sylweddol uwch nag ar gyfer MV a WAC gyda dim ond traean o'r sefydliadau a gyflwynodd geisiadau am gyllid dros y tair blynedd ddiwethaf yn llwyddiannus o gymharu gyda hanner ymgeiswyr WAC a thri-chwarter ymgeiswyr MV. Mae hyn yn codi rhai cwestiynau am y rhaniad cymesurol mewn cyllid ac yn awgrymu y medrai'r grant VWF fod wedi manteisio o gyfran ychydig yn uwch.

Mae adborth gan sefydliadau a dderbyniodd grantiau'n awgrymu mai'r WCVA yw'r sefydliad amlycaf i reoli cynlluniau grant i gynyddu gwirfoddoli, o gofio am eu proffil uchel o fewn y sector a'r ymddiriedaeth uchel sydd ganddynt ymhlith sefydliadau trydydd sector, ac mae'n glir o'r adborth gan randdeiliaid ac yn bwysicach y sefydliadau derbyn fod yr WCVA wedi rheoli'r cynlluniau'n broffesiynol ac effeithiol. Cafodd y rhaglenni grant eu hyrwyddo'n effeithiol a chafodd y broses cais a chymeradwyo grant ei rheoli'n effeithiol. Mae'r canfyddiadau yn dangos rhai meysydd lle medrid symleiddio ffurflenni gais a gwella'r canllawiau a gynigir i ymgeiswyr. Ymhellach mae materion a godwyd ar amserlenni cais am MV wedi cyfyngu rhai sefydliadau rhag sicrhau cyllid blynyddol a medrai'r VWF fod wedi sicrhau gwerth mwy am arian pe bai'r baich gweinyddol cymharol fwy wedi ei ddileu. Yn olaf medrai'r WCVA fod wedi dangos ychydig mwy o hyblygrwydd mewn cynnal ymweliadau monitro y

tu allan i oriau gwaith arferol er mwyn darparu ar gyfer anghenion sefydliadau derbyn grant sy'n cwrdd ar fin nos.

Er bod y strwythur cyllid wedi gweithio'n dda hyd yma credwn y byddai'n amserol yn awr i ymdrechu i gael mwy o gydlyniaeth, llai o ddyblygu a chynnig mwy perthnasol i'r sector. Credwn hefyd fod angen gweithredu rhai newidiadau er mwyn cynyddu sicrwydd cyllid ar gyfer sefydliadau (yn neilltuol y rhai'n ariannu drwy'r VWF) a chynnig mwy o hyblygrwydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Caiff ein syniadau ar y newidiadau hyn eu hamlinellu yn Adran 6 (Argymhellion).

# 6.0 ARGYMHELLION

**Argymhelliad 1**

Yng ngoleuni'r dystiolaeth o'r galw, am angen am gefnogaeth barhaus i'r trydydd sector i ddenu a chadw gwirfoddolwyr, argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i ddarparu cyllid i gefnogi gwirfoddoli yng Nghymru ar o leiaf yr un lefel â thros y tair blynedd ddiwethaf. Argymhellwn fod y rhaniad cymesurol presennol ar draws y tair rhaglen yn cael ei adolygu a bod y cyllid ar gyfer y rhaglen VWF yn cael ei gynyddu'n gymesurol.

**Argymhelliad 2**

Oherwydd y dystiolaeth o'n gwaith maes gyda sefydliadau derbyn grant o foddhad sylweddol gyda'r ffordd y cafodd y cynlluniau eu rheoli a'r adborth cadarnhaol a gafwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar effeithlonrwydd gweinyddiaeth y cynlluniau presennol gan y WCVA, argymhellwn (i'r graddau y mae prosesau caffael yn caniatáu) fod Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ddefnyddio'r WCVA yn asiant ar gyfer rheoli cynlluniau grant gwirfoddoli penodol.

**Argymhelliad 3**

Argymhellwn fod Llywodraeth y Cynulliad a'r WCVA ac unrhyw reolwr grant yn y dyfodol yn gweithio tuag at osod craidd cyffredin cyfyngedig o ddangosyddion perfformiad a thargedau ar gyfer pob rhaglen a phrosiect grant gwirfoddoli a fyddai'n hwyluso casglu data cronnus ond na fyddai'n eithrio datblygu targedau mwy teilwredig ar gyfer prosiectau neilltuol (yn arbennig rai helaethach neu fwy blaengar). Medrent gynnwys nifer y gwirfoddolwyr newydd a recriwtiwyd (gyda pheth data demograffig wedi'i symleiddio); nifer yr oriau gwirfoddol ychwanegol a gyfrannwyd; nifer y gwirfoddolwyr a hyfforddwyd. Mae angen diffinio'r targedau hyn yn glir a'u cyfathrebu'n ddigonol i sefydliadau grant a ariannir. Ymhellach credwn byddai monitro a chadw data cronnus ar nifer gwirfoddolwyr a chyfraniad amser yn gwneud y data sydd ar gael yn fwy cadarn.

**Argymhelliad 4**

Wrth symud ymlaen, argymhellwn fod Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio rhoi mwy o eglurdeb am yr ystod o amcanion terfynol mae'n anelu eu cyflawni

drwy annog gwirfoddoli yn gyffredinol a thrwy gynlluniau cyllid yn neilltuol (yn cynnwys rôl gwirfoddoli mewn galluogi cyflenwi gwasanaeth; rôl gwirfoddoli mewn hyrwyddo datblygiad personol a chyfraniad gwirfoddoli i adeiladu cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniaeth gymunedol). I'r graddau y mae hyn yn dangos pwysigrwydd denu a chynnig cyfleoedd i unigolion heb fawr neu ddim profiad blaenorol o wirfoddoli, argymhellwn fod Llywodraeth y Cynulliad Cymru a'r WCVA neu unrhyw reolwr grant yn y dyfodol yn ymchwilio os oes angen gosod unrhyw dargedau penodol a'u monitro ar gyfer unigolion nad ydynt yn gwirfoddoli ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 5**

Oherwydd y dystiolaeth glir am ymrwymiad cymharol isel pobl ifanc mewn gwirfoddoli, argymhellwn fod Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ffocysu sylw ar annog a chynnal gwirfoddoli gan bobl ifanc drwy gefnogi llinyn penodol gyda ffocws ieuenctid o gyllid grant. Credwn y dylai, gyda'r WCVA neu unrhyw reolwr grant yn y dyfodol, ymchwilio'r posibilrwydd o ymgorffori'r rhaglen MV i GwirVol ond sicrhau na chaiff amcanion gwirfoddoli cyson o fewn MV eu colli drwy wneud hynny. Ar yr un pryd credwn y byddai gwerth mewn ailenwi ac ail-frandio'r dyfarniad yma yn unol gyda datblygiadau o'r fath y tu allan i Gymru.

**Argymhelliad 6**

Wrth fynd ag Argymhelliad 5 rhagddo, argymhellwn y dylai proses gais a chymeradwyo MV geisio mynd i'r afael â'r broblem sy'n wynebu sefydliadau a ariennir (yn neilltuol y rhai sy'n gweithio o fewn cylchoedd academaidd) sy'n eu cyfyngu rhag cyflwyno ceisiadau blynyddol rheolaidd.

**Argymhelliad 7**

Argymhellwn fod rhaglenni grant WAC a VWF fel ei gilydd yn cael eu haddasu i fod yn rhaglenni grant treigl tair blynedd i roi mwy o hyblygrwydd a sicrwydd ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad a hefyd y trydydd sector. Yn y ddau achos, dylid datblygu proses gais ar-lein, ond dylid hefyd gadw'r fersiwn copi caled.

**Argymhelliad 8**

Yng nghyswllt VWF, rydym felly'n argymell dileu'r angen i wneud cais am gronfa VWF ar sail flynyddol er mwyn cynyddu sicrwydd i sefydliadau a

ariennir a gostwng y baich gweinyddol a ddodir arnynt: dylai sefydliadau wneud cais am gyllid tair blynedd, ar y sail mai dim ond ar sail cynnydd boddhaol ar dargedau y cadarnheir dyraniadau dangosol ar gyfer yr ail a'r drydedd flwyddyn. Rydym hefyd yn argymhell dileu'r strwythur tapr presennol o fewn VWF (gan gadw cap cyffredinol cyllid prosiect o £43,750 ond galluogi hyblygrwydd am y modd y'i dosberthir dros y cyfnod tair blynedd): er bod y dull presennol yn ymddangos yn rhesymegol nid yw'n cael yr effaith a ddymunir ar sefydliadau gwirfoddoli yn nhermau eu symud tuag at gynaliadwyedd ac mewn termau ymarferol mae'n wrth-reddfol gan fod prosiectau'n aml yn cymryd amser i adeiladu gweithgaredd. Argymhellwn hefyd y dylai'r VWF symud tuag at fodel adrodd chwe-misol (yn neilltuol yn ystod ail a thrydedd blwyddyn cyllid er y medrwn werthfawrogi gwerth adroddiadau mwy cyson yn ystod chwe mis cyntaf prosiect).

**Argymhelliad 9**

Drwy ddod â WAC a VWF i gydymffurfio yn nhermau cynnig cyllid tair-blynedd ar sail dreigl, argymhellwn y dylid rhoi ystyriaeth i ragoriaeth integreiddio pellach rhwng y ddwy a chyflwyno un rhaglen grant. Pe cymerid yr opsiwn hwn argymhellwn neilltuo cyllid ar gyfer prosiectau llai a sefydliadau lleol ar lefel ychydig yn uwch nag a ddyrennir i VWF ar hyn o bryd (o gofio'r galw uwch am y gronfa hon) ac y dylai'r cyllid gweddillol fod ar gael i brosiectau Cymru-gyfan neu ranbarthol. Os yw'r ddwy gronfa'n parhau i gael eu gweithredu ar wahân, argymhellwn ar ddiwedd cylch presennol WAC fod peth trosglwyddiad o WAC i VWF i adlewyrchu'r galw hwn.

**Argymhelliad 10**

Argymhellwn y dylai'r WVCA weithio gyda Chanolfannau Gwirfoddoli a Chynghorau Gwirfoddol Sirol yn yr ardaloedd hynny (yn arbennig yng Nghymoedd De Cymru) sy'n ymddangos eu bod yn cael eu tangynrychioli yn nhermau ceisiadau am gyllid i ddynodi'r rhesymau am hyn a datblygu strategaeth i fynd i'r afael ag unrhyw faterion galluedd a all orwedd tu ôl i hyn. Er bod neilltuo cronfeydd yn ofodol yn debygol o arwain at fiwrocratiaeth nas dymunir, gall fod angen ystyried rhyw elfen o hyn yn y tymor hwy os yw'r sefyllfa'n parhau. Argymhellwn hefyd fod y WCVA yn sicrhau fod Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli yn cael gwybod am y prosiectau a ariennir o fewn eu hardaloedd gan y cynllun(iau) grant.

**Argymhelliad 11**

Oherwydd y pwysau ar gyllidebau a'r lefel bresennol uchel o alw am y cynlluniau (yn neilltuol VWF), yn ogystal â datblygiadau polisi eraill (e.e. cyllid gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli i'r di-waith), argymhellwn fod Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i adolygu'r grwpiau neilltuol i gael eu targedu yn nhermau cefnogaeth i wirfoddoli a seilio penderfyniadau ar dystiolaeth gan, er enghraifft, yr arolwg Byw yng Nghymru am amledd gwirfoddoli. Yn neilltuol, dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried yr achos dros gadw pwyslais ar bobl hŷn yn y cyd-destun neilltuol hwn.

## ATODIAD 1 Ymgynghoriadau a Gynhaliwyd

| Person Cyswllt | Sefydliad |
|---|---|
| Iain Willox | Pennaeth Uned Trydydd Sector, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Amanda Williams | Uned Trydydd Sector, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Paul Dunhill | Uned Trydydd Sector, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Tim Day | Cyfarwyddydd Gwirfoddoli, WCVA |
| Tessa White | Rheolwr Porth Ymrwymiad a Rheolwr Grantiau WCVA |
| Leah Doherty | Cydlynydd Gwirfoddolwyr y Mileniwm a chynrychiolydd GwirVol, WVCA |
| Mark Bendon | Asesydd Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru, WCVA |
| Michael Dupree | Asesydd Cymru: Y Fenter Cymunedau Gweithredol, WVCA |
| Hayley Bevan | Canolfan Gwirfoddoli Powys |
| Alison Steere | Swyddfa Gwirfoddolwyr y Fro (VALE) |
| Delyth Vaughan | Mantell Gwynedd |
| Jane Pagler | Cadeirydd Panel Ymgynghori Gwirfoddolwyr y Mileniwm |

## Sefydliadau Derbyn Grant a Gyfwelwyd

| Rhaglen Grant | Sefydliad |
|---|---|
| VWF | Gwasanaethau Adfocatiaeth Annibynnol BCA |
| VWF | Cynllun Mentora a Mwy The Bridge |
| VWF | Pen yr Enfys |
| WAC | Tros Cynnal |
| WAC | BCTV Cymru |
| WAC | Prime Cymru |
| WAC | Scope |
| WAC | St John Cymru-Wales |
| WAC | Sustrans Cymru |
| MV | Ysgol Uwchradd y Fflint |
| MV | Fferm Gymunedol Abertawe |
| MV | Girlguiding Ceredigion |

## ATODIAD 2 Holiadur Arolwg Ffôn

Comisiynwyd Old Bell 3 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal gwerthusiad o'r rhaglenni grant gwirfoddoli a reolir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Deallaf fod [enw''r sefydliad] wedi derbyn grant drwy un o'r rhaglenni grant [Cymunedau Gweithredol/Gwirfoddoli yng Nghymru/Gwirfoddolwyr y Mileniwm,] i gynyddu a datblygu ei sylfaen gwirfoddolwyr.

Fyddech chi'n barod i mi ddweud wrthych yn fyr am y grantiau a gawsoch a'r gwahaniaeth a wnaeth i'ch sefydliad? Dim ond tua 20 munud o'ch amser y dylai hyn gymryd a chaiff eich holl ymatebion eu cadw'n gyfrinachol. Defnyddir adborth gan ymatebwyr i helpu i lunio polisïau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer cefnogi gweithgaredd gwirfoddoli yng Nghymru.

Cadarnhewch fod yr ymatebydd yn hapus i barhau.

**1.** **COD: Rhaglen Grant**

- ❑ *Cymunedau Gweithredol*
- ❑ *Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru*
- ❑ *Gwirfoddolwyr y Mileniwm*

## Manylion Cefndir y Sefydliad

**2.** **Enw'r Sefydliad**

**3.** **Beth yw prif weithgaredd y wefydliad?**

**4.** **Ym mha feysydd diddordeb y mae'r sefydliad yn gweithredu? [Rhowch un neu ddwy enghraifft a dosbarthu'r ymateb]**

- ❑ *Chwaraeon a hamdden*
- ❑ *Cymuned*
- ❑ *Sefydliad llesiannol*
- ❑ *Iechyd a Gofal Cymdeithasol*
- ❑ *Plant a Theuluoedd*
- ❑ *Ieuenctid*
- ❑ *Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth*
- ❑ *Crefydd*
- ❑ *Rhywedd*
- ❑ *Anabledd*
- ❑ *Yr Amgylchedd*
- ❑ *Addysg a hyfforddiant*
- ❑ *Cymorth rhyngwladol ac argyfwng*
- ❑ *Tai*
- ❑ *Cyngor ac Adfocatiaeth*
- ❑ *Lles Anifeiliaid*
- ❑ *Lleiafrifoedd Ethnig*
- ❑ *Cyfiawnder cymunedol*
- ❑ *Cyflogaeth*
- ❑ *Gwirfoddoli*
- ❑ *Canolwyr*
- ❑ *Arall*

*Os arall manylwch*

**5.** **A yw'r sefydliad yn:**

- ❑ *Sefydliad annibynnol gyda maes o ddiddordeb lleol (e.e. o fewn un awdurdod lleol)*
- ❑ *Sefydliad annibynnol gyda maes o ddiddordeb rhanbarthol*
- ❑ *Sefydliad annibynnol gyda diddordeb Cymru-gyfan*
- ❑ *Cangen leol neu ranbarthol o sefydliad mwy ar draws y Deyrnas Unedig*

**6.** **Ers pryd fu'r sefydliad mewn bodolaeth?**

- ❑ *2005 neu ddiweddarach*
- ❑ *2000-2004*
- ❑ *1995-1999*
- ❑ *1990-1994*
- ❑ *1989 neu gynharach*
- ❑ *Dim yn gwybod*

**7.** **Beth yw trosiant y sefydliad? [Holwch am flwyddyn ariannol 2008/9]**

- ❑ *£10,000 neu lai*
- ❑ *£11,000 - £25,000*
- ❑ *£26,000 - £50,000*
- ❑ *£51,000 - £100,000*
- ❑ *£101,000 - £250,000*
- ❑ *£251,000 - £1 miliwn*
- ❑ *Mwy na £1 miliwn*
- ❑ *Dim yn gwybod*

**8.** **Faint o bobl a gyflogid gan y sefydliad yng Nghymru pan wnaeth gais am gyllid grant? [Holwch am gyfwerth amser-llawn – peidiwch cynnwys gwirfoddolwyr di-dâl/aelodau Bwrdd ac ati]**

- ❑ *Dim*
- ❑ *1-10*
- ❑ *11-20*
- ❑ *21-30*
- ❑ *31-50*
- ❑ *51-100*
- ❑ *100+*
- ❑ *Dim yn gwybod*

**9.** **Faint o bobl oedd yn ymwneud â'r sefydliad fel gwirfoddolwyr yng Nghymru pan wnaeth gais am gyllid grant? [Holwch am bob gwirfoddolwr di-dâl/aelodau Bwrdd ac ati]**

- ❑ *Dim*
- ❑ *1-10*
- ❑ *11-20*
- ❑ *21-30*
- ❑ *31-50*
- ❑ *51-100*
- ❑ *100+*
- ❑ *Dim yn gwybod*

## Cyllid Grant.

**10.** **Beth oedd cyfanswm gwerth y grant y gwnaeth eich sefydliad gais amdano yn y lle cyntaf?**

- ❑ *Hyd at £5,000*
- ❑ *Rhwng £5,001 a £10,000*
- ❑ *Rhwng £10,001 a £25,000*
- ❑ *Rhwng £25,001 a £50,000*
- ❑ *Rhwng £50,001 a £100,000*
- ❑ *Rhwng £100,001 a £200,000*
- ❑ *£200,001 a throsodd*

**11.** **Beth oedd cyfanswm gwerth y grant a ddyfarnwyd i'ch sefydliad?**
**[Ar gyfer Gwirfoddoli yng Ngymru holwch am gyfanswm y grant a ddyfarnwyd hyd yma]**

- ❑ *Hyd at £5,000*
- ❑ *Rhwng £5,001 a £10,000*
- ❑ *Rhwng £10,001 a £25,000*
- ❑ *Rhwng £25,001 a £50,000*
- ❑ *Rhwng £50,001 a £100,000*
- ❑ *Rhwng £100,001 a £200,000*
- ❑ *£200,001 a throsodd*

**12.** **Ym mha flwyddyn y dyfarnwyd y grant i'r sefydliad am y tro cyntaf?**
**[Ar gyfer Gwirfoddoli yng Nghymru holwch am y flwyddyn gyntaf y dyfarnwyd grant]**

- ❑ *2009*
- ❑ *2006*
- ❑ *2007*
- ❑ *2008*
- ❑ *2009*

**13.** **Faint o'r grant yr ydych ei hawlio gan y WCVA (fel ar ddiwedd Mawrth 09)? [Holwch am £000]**

## Nodau ac amcanion y prosiect.

**14.** **Pa heriau gwirfoddoli oedd yn wynebu'r sefydliad cyn iddo wneud cais am y grant?**
**[Anogwch a dewis pob un sy'n berthnasol]**

- ❑ *Anawsterau recriwtio gwirfoddolwyr newydd*
- ❑ *Anawsterau recriwtio gwirfoddolwyr newydd o amrywiaeth eang o gefndir a phrofiad*
- ❑ *Anawsterau cadw gwirfoddolwyr newydd*
- ❑ *Anawsterau cadw gwirfoddolwyr presennol*
- ❑ *Anawsterau cynyddu'r ymrwymiad gan wirfoddolwyr presennol*
- ❑ *Anawsterau darparu cyfleoedd/lleoliadau gwirfoddoli*
- ❑ *Anawsterau yn ymwneud â hyfforddi a chynyddu sgiliau gwirfoddolwyr*
- ❑ *Anawsterau yn hyrwyddo'r sefydliad i ddarpar wirfoddolwyr*
- ❑ *Anawsterau yn rheoli gwirfoddolwyr*

- ❑ *Arall*

*Os Arall, manylwch*

**15.** **Beth oedd y sefydliad yn gobeithio'i gyflawni gyda'r grant? [Holwch am nodau ac amcanion y prosiect] [Dewiswch bob un sy'n berthnasol]**

- ❑ *Recriwtio gwirfoddolwyr newydd*
- ❑ *Recriwtio gwirfoddolwyr newydd o grwpiau targed penodol (e.e. pobl ifanc, pobl anabl, pobl o gymunedau du a lleiafrif ethnig]*
- ❑ *Gwella cadw gwirfoddolwyr*
- ❑ *Cynyddu ymrwymiad gan y gronfa bresennol o wirfoddolwyr*
- ❑ *Rhoi mwy o gyfleoedd/lleoliadau gwirfoiddol i unigoilion*
- ❑ *Hyfforddi a chynyddu sgiliau gwirfoddolwyr*
- ❑ *Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli i ddarpar wirfoddolwyr newydd*
- ❑ *Rheoli cynllun/gweithgaredd gwirfoddoli yn well*
- ❑ *Arall*

*Os Arall, manylwch*

**16.** **Pa rai o'r ardaloedd awdurdodau lleol yr oedd y prosiect a ariannwyd gan y grant yn gweithredu ynddynt? [Dewiswch bob un perthnasol]**

- ❑ *Cymru Gyfan*
- ❑ *Ynys Môn*
- ❑ *Gwynedd*
- ❑ *Conwy*
- ❑ *Sir Ddinbych*
- ❑ *Wrecsam*
- ❑ *Sir y Fflint*
- ❑ *Powys*
- ❑ *Ceredigion*
- ❑ *Sir Benfro*
- ❑ *Sir Gaerfyrddin*
- ❑ *Abertawe*
- ❑ *Castell-nedd Port Talbot*
- ❑ *Pen-y-bont ar Ogwr*
- ❑ *Rhondda Cynon Taf*
- ❑ *Merthyr Tudful*
- ❑ *Torfaen*
- ❑ *Blaenau Gwent*
- ❑ *Caerffili*
- ❑ *Casnewydd*
- ❑ *Caerdydd*
- ❑ *Sir Fynwy*
- ❑ *Bro Morgannwg*

## Cyswllt gyda'r cynlluniau grant.

**17.** **Sut glywodd y sefydliad am y rhaglen grant yn y lle cyntaf? [Dewiswch bob un sy'n berthnasol]**

- ❑ *Sefydliad/unigolyn/eisoes yn ymwneud â WCVA*
- ❑ *Gwneud ein hymholiadau ein hunain i WCVA/Llywodraeth Cynulliad Cymru*
- ❑ *WCVA wedi cysylltu â'r sefydliad*
- ❑ *Gwefan WCVA/Llywodraeth y Cynulliad*
- ❑ *Deunydd hyrwyddo (e.e. cylchlythyr/taflen)*
- ❑ *Digwyddiad / Cynhadledd / Sioe Deithiol*
- ❑ *Argymhelliad gan gydweithiwr/cyfaill*
- ❑ *Dim yn gwybod*
- ❑ *Arall*

*Os Arall, manylwch*

**18.** **Pa mor rhwydd oedd hi i gael gwybodaeth am y rhaglen grantiau?**

- ❑ *Rhwydd iawn* Ewch i 20.
- ❑ *Gweddol rwydd* Ewch i 20.
- ❑ *Gweddol anodd* Ewch i 19.
- ❑ *Anodd iawn* Ewch i 19.

**19.** **[Os C18 = Gweddol anodd neu anodd iawn]**

**Pam ei bod hi'n anodd cael gwybodaeth am y rhaglen grantiau?**

**20.** **Sut (os o gwbl) y medrai'r wybodeath am y rhaglen grant fod wedi bod ar gael yn rhwyddach?**

**21.** **Pa mor rhwydd oedd hi i chi lenwi'r ffurflen cais am grant?**

- ❑ *Rhwydd iawn*
- ❑ *Gweddol rwydd*
- ❑ *Gweddol anodd*
- ❑ *Anodd iawn*

**22.** **[Os C21 = Gweddol anodd neu anodd iawn]**

**Pam ei bod hi'n anodd i lenwi'r ffurflen cais am grant?**

**23.** **Sut (os o gwbl) y medrid newid y ffurflen cais am grant i'w gwneud yn haws i sefydliadau ei llenwi?**

**24.** **Beth yw eich barn am yr agweddau diliynol o'r broses cais am grant a chymeradwyo?**

| | *Anodd Iawn* | *Da* | *Gwael* | *Gwael Iawn* | *D/b* |
|---|---|---|---|---|---|
| Delio gyda'ch ymholiadau | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Pa mor gyflym y cymeradwywyd y cais | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Eich hysbysu am ganlyniad y cais am grant | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

**25.** **Sut, os o gwbl, y credwch y medrid gwella'r broses cais am grant neu gymeradwyo?**

## Ffurflenni monitro grantiau ac ymweliadau.

**26.** **Pa mor rwydd oedd/yw y ffurflenni monitro?**

- ❑ *Rhwydd iawn*
- ❑ *Gweddol rwydd*
- ❑ *Gweddol anodd*
- ❑ *Anodd iawn*

**27.** **Pa newidiadau (os oes rhai) yr hoffech eu gweld yn y ffurflenni monitro?**

**28.** **A wnaeth asesydd grant WCVA gynnal ymweliad monitro i'ch sefydliad?**

- ❑ *Do*
- ❑ *Na*

**29.** **[Os C28= Do]**

**Oeddech chi'n fodlon gyda'r ymweliad monitro a gynhaliwyd?**

- ❑ *Oeddem*
- ❑ *Na*
- ❑ *Dim yn gwybod*

**30.** **[Os C28= Oeddem]**

**Pa fath o wybodaeth oedd yn rhaid i chi ei rhoi i'r asesydd?**

**31.** **[Os C28= Oeddem]**

**Pa newidiadau (os oes rhai) hoffech chi'n cael eu gwneud i'r ymweliadau monitro yn y dyfodol?**

## Targedau a chyflawniadau'r proseict

**32.** **A oedd gan y prosiect darged penodol i'w gyrraedd ar gyfer <u>recriwtio gwirfoddolwyr newydd?</u>**

- ❑ *Oedd*
- ❑ *Na*

**33.** **[Os C32 = Oedd] Beth oedd y targed?**

**34.** **[Os C32 = Oedd] I ba raddau y cyflawnwyd y targed hwn?**

- ❑ *Cafodd y targed ei gyflawni a rhagori arno*
- ❑ *Cyflawnwyd y targed yma eisoes*
- ❑ *Ni chafodd y targed ei gyflawni ond rydym ar y trac i'w gyflawni*
- ❑ *Nid yw'r targed yma'n debygol o gael ei gyflawni*

**35.** **[Os C34 = Dim yn debygol o gael ei gyflawni] Pam fod y targed yma'n debygol o gael ei gyflawni?**

**36.** **A oedd gan y prosiect darged penodol i'w gyflawni ar gyfer <u>cynorthwyo unigolion?</u>**

- ❑ *Oedd*
- ❑ *Na*

**37.** **[Os C36 = Oedd] Beth oedd y targed yma?**

**38.** **[Os C36 = Oedd] I ba raddau y cyflawnwyd y targed yma?**

- ❑ *Cafodd y targed yma ei gyflawni a rhagori arno*
- ❑ *Cyflawnwyd y targed yma eisoes*
- ❑ *Ni chafodd y targed ei gyflawni ond rydym ar y trac i'w gyflawni*
- ❑ *Nid yw'r targed yma'n debygol o gael ei gyflawni*

**39.** **[Os C38 = Dim yn debygol o gael ei gyflawni] Pam nad yw'n debygol y caiff y targed ei gyflawni?**

**40.** **A oedd gan y prosiect darged penodol i'w gyflawni ar <u>hyfforddi unigolion?</u>**

- ❑ *Oedd*
- ❑ *Na*

**41.** **[Os C40 = Oedd] Beth oedd y targed yma?**

**42.** **[Os C40 = Oedd] I ba raddau y cyflawnwyd y targed yma?**

- ❑ *Cafodd y targed yma ei gyflawni a rhagori arno*
- ❑ *Cyflawnwyd y targed yma eisoes*
- ❑ *Ni chafodd y targed ei gyflawni ond rydym ar y trac i'w gyflawni*
- ❑ *Nid yw'r targed yma'n debygol o gael ei gyflawni*

**43.** **[Os C42 =Dim yn debygol o gael ei gyflawni] Pam nad yw'r targed yma'n debygol o gael ei gyflawni?**

**44.** **A oedd gan y prosiect darged penodol i'w gyflawni ar gyfer <u>cynyddu ymrwymiad presennol gwirfoddolwyr?</u>**

- ❑ *Oedd*
- ❑ *Na*

**45.** **[Os C44 = Oedd] Beth oedd y targed yma?**

**46.** **[Os C44 = Oedd] I ba raddau y cyflawnwyd y targed yma?**

- ❑ *Cafodd y targed yma ei gyflawni a rhagori arno*
- ❑ *Cyflawnwyd y targed yma eisoes*
- ❑ *Ni chafodd y targed ei gyflawni ond rydym ar y trac i'w gyflawni*
- ❑ *Nid yw'r targed yma'n debygol o gael ei gyflawni*

**47.** **[Os C46 = Dim yn debygol o gael ei gyflawni] Pam ei bod yn debygol na chaiff y targed yma ei gyflawni?**

**48.** **Oedd gan y prosiect unrhyw dargedau penodol eraill i'w cyflawni?**

- ❑ *Oedd*
- ❑ *Na*

**49.** **[Os C48 = Oedd] Beth oedd y targedau hyn?**

**50.** **[Os C48 = Oedd] I ba raddau y cafodd y targedau hyn eu cyflawni?**

- ❑ *Cafodd y targed yma ei gyflawni a rhagori arno*
- ❑ *Cyflawnwyd y targed yma eisoes*
- ❑ *Ni chafodd y targed ei gyflawni ond rydym ar y trac i'w gyflawni*
- ❑ *Nid yw'r targed yma'n debygol o gael ei gyflawni*

**51.** **[Os C50 = Dim yn debygol o gael ei gyflawni] Pam ei bod yn debygol na chaiff y targedau hyn eu cyflawni?**

**52.** **Beth fu'r her fwyaf i'r sefydliad wrth gyflawni targedau'r prosiect?**

## Mynd i'r afael â heriau gwirfoddoli.

**53.** **Faint o wirfoddolwyr newydd a ymunodd â'r sefydliad fel canlyniad i'r prosiect?**

- ❑ *Dim*
- ❑ *Rhwng 1 a 5 o wirfoddolwyr*
- ❑ *Rhwng 6 a 10 o wirfoddolwyr*
- ❑ *Rhwng 11 a 25 o wirfoddolwyr*
- ❑ *Rhwng 26 a 50 o wirfoddolwyr*
- ❑ *Mwy na 50 o wirfoddolwyr*

**54.** **Faint I wirfoiddolwyr presennol sy'n awr yn gwirfoddoli am fwy o oriau bob wythnos neu fis?**

- ❑ *Dim*
- ❑ *Rhwng 1 a 5 o wirfoddolwyr*
- ❑ *Rhwng 6 a 10 o wirfoddolwyr*
- ❑ *Rhwng 11 a 25 o wirfoddolwyr*
- ❑ *Rhwng 26 a 50 o wirfoddolwyr*
- ❑ *Mwy na 50 o wirfoddolwyr*

**55.** **Gyda'i gilydd, faint o oriau ychwanegoil o amser gwirfoddol a roddwyd i'ch sefydliad bob wythnos fel canlyniad i'r prosiect?**

- ❑ *Dim*
- ❑ *Hyd at 10 awr yr wythnos*
- ❑ *Rhwng 11 a 25 awr yr wythnos*
- ❑ *Rhwng 25 a 50 awr yr wythnos*
- ❑ *Rhwng 51 a 100 awr yr wythnos*
- ❑ *Dros 100 awr yr wythnos*
- ❑ *Dim yn gwybod*

**56.** **I ba raddau y mae cyllid grant wedi'ch helpu i fynd i'r afael â'r heriau gwirfoddoli dilynol?**

| | *Graddau maw (iawn* | *Graddau mawr* | *Graddfa fach* | *Dim* | *D/b* |
|---|---|---|---|---|---|
| Goresgyn anawsterau yn recriwtio gwirfoddolwyr newydd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Goresgyn anawsterau yn recriwtio gwirfoddolwyr o amrediad eang o gefndiroedd a phrofiad | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Goresgyn anawsterau cadw gwirfoddolwyr | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Goresgyn anawsterau'n cynyddu ymrwymiad gan wirfoddolwyr presennol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Goresgyn anawsterau yn darparu cyfleoedd/lleoliadau gwirfoddoli | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Goresgyn anawsterau yn ymwneud â hyfforddi a chynyddu sgiliau gwirfoddolwyr | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Goresgyn anawsterau'n hyrwyddo'r sefydliad i ddarpar wirfoddolwyr | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Goresgyn anawsterau'n rheoli gwirfoddolwyr | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

**57.** **Pa fanteision eraill (os oes rhai) a gafodd y sefydliad? [Holwch am unrhyw fanteision annisgwyl]**

**58.** **A yw'r sefydliad wedi cael unrhyw anawsterau wrth gymryd rhan? [Holwch am unrhyw anfanteision annisgwyl]**

**59.** **Beth ydych chi'n credu fyddai wedi digwydd i'r prosiect pe na bai cyllid grant? [Dewiswch un opsiwn]**

- ❑ *Byddai'r prosiect wedi mynd ymlaen yn yr un ffordd gyda chyllid o fan arall*
- ❑ *Byddai'r prosiect wedi cael ei gyflenwi ar raddfa lai gyda chyllid o fan arall*
- ❑ *Byddai'r prosiect wedi cael ei gyflenwi yn nes ymlaen*
- ❑ *Byddai'r proisect wedi cael ei gyflenwi drwy ddull arall (e.e. drwy sefydliad arall)*
- ❑ *Ni fyddai'r proisect wedi cael ei gyflenwi o gwbl*
- ❑ *Arall*

*Os Arall, manylwch*

**60.** **A throi at y gwirfoddolwyr eu hunain, i ba raddau ydych chi'n meddwl eu bod <u>fel canlyniad i'r prosiect</u> wedi:**

| | *Graddau mawr iawn* | *Graddau mawr* | *Graddfa fach* | *Dim* | *D/b* |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynyddu eu hyder | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwella sgiliau a phrofiad gwaith | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwella rhagolygon o sicrhau cyflogaeth ar dâl | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Eisoes wedi sicrhau cyflogaeth ar dâl | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

**61.** **Cyn belled ag y gwyddoch, a oedd gan y gwirfoddolwyr newydd a gafodd eu denu i'ch sefydliad drwy'r prosiect brofiad blaenorol o wirfoddoli gyda sefydliadau eraill?**

- ❑ *Oedd, y cyfan ohonynt*
- ❑ *Oedd, rhai ohonynt*
- ❑ *Na, dim ohonynt*
- ❑ *Dim yn gwybod*

**62.** **Beth ydych chi'n meddwl y byddai unrhyw wirfoddolwyr newydd a gafodd eu denu drwy'r prosiect wedi ei wneud os nad oedd y prosiect wedi bodoli?**

- ❑ *Edrych am waith ar dâl*
- ❑ *Gwirfoddoli/cynyddu eu gwirfoddoli gyda sefydliad arall*
- ❑ *Cyfuniad o'r ddau*
- ❑ *Y naill na'r llall*
- ❑ *Dim yn gwybod*

## Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol.

**63.** **Pa rai o'r cynlluniau dilynol (os oes rhai) oes gan eich sefydliad dros y flwyddyn neu ddwy nesaf? [Dewiswch bob un sy'n berthnasol]**

- ❑ *Recriwtio mwy o wirfoddolwyr*
- ❑ *Recriwtio mwy o wirfoddolwyr newydd o grwpiau targed penodol (e.e. pobl ifanc, pobl anabl, pobl o gymunedau du a lleiafrif ethnig)*
- ❑ *Cadw mwy o wirfoddolwyr newydd*
- ❑ *Cadw'r gronfa bresennol o wirfoddolwyr*
- ❑ *Cynyddu'r ymrwymiad gan y gronfa bresennol o wirfoddolwyr*
- ❑ *Darparu mwy o gyfleoedd/lleoliadau gwirfoddli ar gyfer unigolion*
- ❑ *Hyfforddi a chynyddu sgiliau gwirfoddolwyr presennol neu wirfoddolwyr newydd*
- ❑ *Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddol i ddarpar wirfoddolwyr newydd*
- ❑ *Rheoli cynllun/gweithgaredd gwirfoddoli yn well*
- ❑ *Arall*

*Os Arall, manylwch*

**64.** **Sut ydych chi'n bwriadu ariannu'r cynlluniau hyn yn y dyfodol? [Dewiswch bob un sy'n berthnasol]**

- ❑ *Cynlluniau grantiau gwirfoddoli WCVA*
- ❑ *Adnoddau'r sefydliad ei hun*
- ❑ *Codi arian*
- ❑ *Cynllun(iau) grant arall*
- ❑ *Arall*

*Os cynllun(iau) grant arall, manylwch*

*Os Arall, manylwch*

## Ymweliad Dilynol

**65.** **Fyddech chi'n barod i gymryd rhan mewn cyfweliad dilynol ac i aelod o'r tîm gysylltu ac ymweld â chi?**

- ❑ *Byddwn*
- ❑ *Na*

*Unrhyw sylwadau/materion:*

**66.** **A fyddai'n bosibl siarad gydag ychydig o'r gwirfoddolwyr a fu'n ymwneud gyda'r prosiect pan ymwelwn â'r sefydliad?**

- ❑ *Bydd*
- ❑ *Na*

*Unrhyw sylwadau/materion par trefniadaeth ymweliad*

**67.** **Pwy yw'r person gorau i ni gysylltu ag ef/hi i drafod y materion hyn a chael adborth ar ran y sefydliad?**

**68.** **Beth yw eu rhif ffôn a chyfeiriad e-bost?**

Diolch i chi am lenwi'r arolwg.

## ATODIAD 3

# Gwerthusiad o Raglen Grantiau Gwirfoddoli Llywodraeth Cynulliad Cymru
# Cyfweliad gyda Sefydliadau a Dderbyniodd Grantiau
# Canllaw Pwnc

## NODYN I'R CYFWELYDD

Gofynnir i chi ymgyfarwyddo â'r ymatebion i'r holiadur ffôn cyn cynnal y gwaith maes a chyfeirio at yr atebion a roddir yn y cyfweliad hwnnw wrth ofyn cwestiynau. Dylai cyfweliadau gael eu recordio, os nad yw'r sawl a gyfwelir yn anghysurus â hyn.

## RHAGYMADRODD

- Diolch i chi am gwblhau arolwg ffôn ac am gytuno i gael cyfweliad pellach.
- Cafodd OB3 ei gomisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (Uned Trydydd Sector o fewn yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol) i gynnal gwerthusiad o'i Rhaglen Grantiau Gwirfoddoli a weinyddir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Bydd y gwerthusiad yn cynnwys tair rhaglen grant - Gwirfoddolwyr y Mileniwm, Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru a Cymru: Y Fenter Cymunedau Gweithredol.
- A siarad yn fras, y meysydd yr hoffwn eu trafod yw:
    - Nodau ac amcanion y prosiect a ariannwyd gan y rhaglen grant;
    - Eich profiadau o'r prosesau cynllun grant yn cynnwys gwneud cais, monitro ac adrodd;
    - Eich profiadau o gyflenwi'r prosiect a'r gwahaniaeth a wnaeth i'r heriau gwirfoddoli sy'n eich wynebu.
- Byddwn yn paratoi adroddiad yn ystod mis Gorffennaf a bydd eich barn yn bwysig wrth fwydo iddo, er y cedwir yr hyn a ddywedwch yn ddienw a ni chaiff ei briodoli i chi.
- Byddwn yn disgwyl i'n sgwrs gymryd tua awr.
- Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau i mi cyn i ni gychwyn.

Y person cyswllt yn Old Bell 3 yw Nia Bryer 01558 668619
Y person cyswllt ar ran y cleient yw Sian Jones, Llywodraeth Cynulliad Cymru 01685729126

## CEFNDIR

| | |
|---|---|
| Enw'r Cyfwelai | |
| Rôl y Cyfwelai | |
| Enw'r Sefydliad | |
| Dyddiad y Cyfweliad | |
| Cyfwelydd | |

## Cefndir y Sefydliad

**Natur y sefydliad (cyfeirier at C3-C9 a C14)**

- Ym mha feysydd diddordeb mae'ch sefydliad yn gweithredu? Beth yw ei brif weithgareddau/gwasanaethau?
- Beth yw'r prif nodau ac amcanion (yn cynnwys amcanion elusennol os yn elusen?)
- Sut ydych chi'n defnyddio gwirfoddolwyr - a ydynt yn fodd i gyflawni diben (e.e. i roi cymorth i drydydd parti; i staffio siop elusen? Neu a yw datblygu sgiliau a hyder y rhai sy'n gwirfoddoli yn rhan ganolog o'ch gweithgaredd?
- Cyn y prosiect, pa fath o wirfoddolwyr oeddech chi'n eu denu a lle oeddent hwy wedi'i seilio? (Holiwch am oedran, rhyw, ethnigrwydd, cefndir cymdeithasol, lleoliad)
- Pa fath o heriau gwirfoddoli oedd yn wynebu'r sefydliad pan wnaethoch gais am y grant?

## Nodau ac Amcanion y Prosiect

**Uchelgais y Prosiect (gweler C15-C16, a C32-C52)**

- A gaf gadarnhau i chi gael cyllid o gronfa Grant xxx?
- Beth oedd nodau ac amcanion gwreiddiol y prosiect? Beth oedd y prosiect yn ceisio'i gyflawni?
- Sut y cafodd yr angen am y prosiect ei ddynodi? Pa ymchwil neu dystiolaeth oedd ar gael?
- Pa fath o weithgareddau oedd y prosiect yn mynd i'w cynnwys?
- A oedd y syniad am y prosiect gennych cyn i chi wybod bod y gronfa grant ar gael neu a oedd yn ganlyniad dod i wybod fod cyllid grant ar gael?
- A gafodd nodau ac amcanion y prosiect eu haddasu o gwbl i adlewyrchu meini prawf y cyllid grant?
- Pa fath o wirfoddolwyr oeddech chi'n gobeithio eu denu drwy'r prosiect? [Holwch am grwpiau targed penodol megis cymunedau du a lleiafrif ethnig, pobl anabl, pobl ifanc, rhieni unigol, pobl ddi-waith]. Ble oeddech chi'n disgwyl iddynt gael eu seilio?
- Pa dargedau (os oedd rhai) a gytunwyd gyda'r WVCA fel gweinyddwyr grant y prosiect? Pwy osododd y targedau yma - ai chi wnaeth eu cynnig neu ai'r WCVA/y panel grantiau wnaeth eu hawgrymu?
- Pa dargedau mewnol (os oes rhai) na chafodd eu rhannu gyda'r WCVA wnaethoch chi osod ar gyfer y prosiect?
- Sut caiff targedau allweddol eu diffinio? Er enghraifft sut ydych chi'n diffinio gwirfoddolydd newydd neu'n diffinio oriau gwirfoddoli ychwanegol?

## Gweithredu'r Prosiect a Chyflawniadau'r Prosiect

**Yn gyffredinol, i ba raddau y mae'r prosiect wedi rhedeg yn ôl y cynllun hyd yma ac a gafodd y targedau eu cyflawni? (C32-C52)**

- A fu unrhyw ohiriadau o gymharu gyda'r cynlluniau gwreiddiol? Os felly, pam?
- Ydych chi wedi hawlio/fyddwch chi'n hawlio holl swm y grant a gynigiwyd? Os na, pam?
- I ba raddau y cafodd y targedau (un a gytunwyd gyda'r WCVA neu a osodwyd yn fewnol) eu cyflawni dros gyfnod y prosiect? (Os yn berthnasol) Pam ei bod yn annhebyg y caiff rhai o'r targedau eu cyflawni?
- Sut mae'r sefydliad yn casglu data allbwn? Pa brosesau dilysu sydd ar waith?
- Pa broblemau (os oes rhai) ydych chi'n eu hwynebu wrth gasglu a dilysu allbynnau?

## Heriau gwirfoddoli

**I ba raddau mae'r cyllid grant wedi galluogi'r sefydliad i fynd i'r afael â'r heriau gwirfoddoli oedd yn ei wynebu? (gweler C53-C59).**

- I ba raddau y gwnaeth y prosiect wahaniaeth i nifer y gwirfoddolwyr newydd sy'n ymuno â'ch sefydliad? I ba raddau mae'r newid hwn yn gynaliadwy ar ôl i gyllid y prosiect ddod i ben?
- I ba raddau y gwnaeth y prosiect wahaniaeth i fath ac ystod y gwirfoddolwyr newydd sy'n ymuno â'ch sefydliad (e.e. ethnigrwydd/oedran/rhyw)? I ba raddau mae'r newid hwn yn gynaliadwy ar ôl i gyllid y prosiect ddod i ben?
- I ba raddau y gwnaeth y prosiect wahaniaeth i nifer y gwirfoddolwyr presennol sy'n awr yn gweithio am fwy o oriau bob wythnos/mis? I ba raddau mae'r newid hwn yn gynaliadwy ar ôl i gyllid y prosiect ddod i ben?
- I ba raddau y gwnaeth y prosiect wahaniaeth i gyfanswm amser gwirfoddolwyr a roddir i'ch sefydliad bob wythnos? I ba raddau mae'r newid hwn yn gynaliadwy ar ôl i gyllid y prosiect ddod i ben?
- I ba raddau mae cyllid y prosiect wedi helpu i fynd i'r afael â heriau gwirfoddoli eraill megis hyfforddi gwirfoddolwyr, rheoli gwirfoddolwyr neu hyrwyddo i ddarpar wirfoddolwyr? Pam eich bod chi'n dweud hyn?
- A fu unrhyw effeithiau anfwriadol (cadarnhaol neu negyddol) o'r prosiect yn nhermau denu a gwneud y defnydd gorau o wirfoddolwyr?

## Diwallu anghenion gwirfoddolwyr

**I ba raddau mae'r cyllid grant wedi helpu gwirfoddolwyr eu hunain? (gweler C60-C62).**

- I ba raddau (os o gwbl) mae'r prosiect wedi galluogi'r sefydliad i hyfforddi neu gefnogi gwirfoddolwyr newydd neu bresennol yn well? (Holwch am enghreifftiau penodol).
- A fedrwch sôn am unrhyw enghreifftiau penodol lle mae'r prosiect wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol i wirfoddolwyr unigol e.e. cymryd cyfleoedd dysgu, ennill cymwysterau, symud ymlaen i gyflogaeth ar dâl, trin problemau personol/materion ac ati.
- Yn fwy cyffredinol, a fedrwch sôn am unrhyw fanteision cadarnhaol eraill i'r gwirfoddolwyr unigoil a gafodd eu recriwtio/cefnogi drwy'r prosiect megis cynyddu hyder? Pa dystiolaeth fedrwch chi roi i gefnogi hyn?
- A fu unrhyw effeithiau anfwriadol (cadarnhaol neu negyddol) o'r prosiect yn nhermau'r effaith ar wirfoddolwyr unigol?

## Cyllid Grant a Gwerth Ychwanegol

**Yn gyffredinol, sut mae'r cyllid grant wedi ychwanegu gwerth i'ch sefydliad? (gweler C10-C13 a C59)**

- Cadarnhewch swm y grant a geisiwyd a swm y grant a ddyfarnwyd.
- [Os derbyniodd sefydliad grant llai nag y gwnaed cais amdano] Pa wahaniaeth gafodd y gostyngiad hwn ar y prosiect a'ch gallu i'w gyflwyno?
- A wnaeth y cyllid grant eich galluogi i ysgogi unrhyw gyllid ychwanegol ar ben y grant (e.e. ei ddefnyddio fel arian cyfatebol?)
- A oedd unrhyw opsiynau cyllid arall ar gael i chi ar y pryd i ariannu'r prosiect? Os felly, beth oeddent a pham oeddech chi'n teimlo mai'r gronfa grant oedd y ffynhonnell gywir o gyllid?
- Beth fyddai wedi digwydd i'r prosiect pe na bai cyllid grant?
- Sut mae'r cyllid grant wedi ychwanegu gwerth i ffynonellau eraill o incwm (megis cyllid grant arall) a dderbyniwch?

## Barn ar y rhaglen grant

**Yn gyffredinol, beth fu eich profiad o'r prosesau rhaglen grant? (gweler C17-C31).**

- Beth yw eich barn am ba mor anodd neu rwydd oedd hi i gael gwybodaeth am y rhaglen grant yn y lle cyntaf?
- Beth yw eich barn ar y ffurflen cais am grant? Pa mor rhwydd neu anodd oedd hi i'w llenwi? Fyddai wedi bod yn well gennych gael proses gais ar lein?
- A wnaethoch ofyn am unrhyw gymorth i lenwi'r ffurflen gais? Os felly, pa mor ddefnyddiol oedd y cymorth yma. Os na, pa gymorth neu hyfforddiant fyddai wedi bod yn ddefnyddiol i chi?
- [Ar gyfer Gwirfoddoli yng Nghymru] Beth yw eich barn am yr angen i wneud cais am gyllid yn flynyddol? Pa newidiadau (os oes rhai) yr hoffech chi eu gweld i newid y model cais yma?
- Beth yw eich barn am y ffordd y cafodd ceisiadau grant eu prosesu a'u cymeradwyo? (Holwch am unrhyw adborth ar y meini prawf ar y rhaglen grantiau a dulliau sgorio yn ogystal ag amseroldeb)
- Beth yw eich barn ar y ffurflenni monitro grant?
- Beth yw eich barn ar yr ymweliadau monitro grant?
- Pa newidiadau (os oes rhai) yr hoffech chi eu gweld i wella'r elfennau hyn o'r prosesau rhaglen grant?

## Rhagolygon ar gyfer y Dyfodol

**Pa gynlluniau gwirfoddoli sydd gan eich sefydliad dros yr ychydig flynyddoedd nesaf? (gweler C63-C64).**

- Pa heriau gwirfoddoli ydych chi'n meddwl y byddwch yn eu hwynebu dros y blynyddoedd nesaf?
- Pa gynlluniau sydd gennych ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau hyn?
- Sut ydych chi'n bwriadu ariannu'r cynlluniau hyn yn y dyfodol?
- Ydych chi'n meddwl y dylai'r rhaglen cyllid grant y buoch yn ymwneud â hi aros fel y mae?
- A oes unrhyw feysydd o weithgaredd gwirfoddoli yng Nghymru nad ydynt yn cael eu hariannu neu eu targedu ar hyn o bryd (e.e. rhanbarthau neu grwpiau targed penodol)?
- A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar gyllid grant gwirfoddoli yng Nghymru?

## ATODIAD 4

### Gwerthusiad o Raglen Grantiau Gwirfoddoli Llywodraeth Cynulliad Cymru
### Cyfweliad gyda Buddiolwyr Gwirfoddol
### Canllaw Pwnc

## RHAGYMADRODD

- Diolch i chi am gytuno cael eich cyfweld..
- Cafodd OB3 ei gomisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (Uned Trydydd Sector o fewn yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol) i gynnal gwerthusiad o'i Rhaglen Grantiau Gwirfoddoli a weinyddir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Bydd y gwerthusiad yn cynnwys tair rhaglen grant – Gwirfoddolwyr y Mileniwm, Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru a Cymru: Y Fenter Cymunedau Gweithredol.
- A siarad yn fras, y meysydd yr hoffwn eu trafod yw:
    - o Eich cefndir ac unrhyw wirfoddoli blaenorol a wnaethoch;
    - o Eich cymhelliant dros ddechrau gwirfoddoli;
    - o Eich profiad o'r prosiect gwirfoddoli a'r sgiliau yr ydych wedi'u hennill;
    - o Boddhad gyda'r profiad hyd yma a'r gwahaniaeth a wnaeth i chi;
    - o Eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol.
- Byddwn yn paratoi adroddiad yn ystod mis Gorffennaf a bydd eich barn yn bwysig wrth fwydo i mewn iddo, er y caiff yr hyn a ddywedwch ei gadw'n ddienw a ni chaiff ei briodoli i chi.
- Ni fyddwn yn disgwyl i'r drafodaeth gymryd mwy na hanner awr.
- Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau i mi cyn i ni gychwyn.

Y person cyswllt yn Old Bell 3 yw Nia Bryer 01558 668619
Y person cyswllt ar ran y cleient yw Sian Jones, Llywodraeth Cynulliad Cymru 01685729126

## CEFNDIR

| | |
|---|---|
| Enw'r Cyfwelai | |

| | |
|---|---|
| Enw'r Sefydliad | |
| Dyddiad y Cyfweliad | |
| Cyfwelydd | |

## Cefndir a phrofiad gwirfoddoli blaenorol

- *Casglwch ddata demograffig drwy bresenoldeb mewn grŵp ffocws (i gynnwys rhyw, oedran ac ethnigrwydd)*
- Beth oeddech chi'n wneud cyn i chi ddechrau ymwneud â'r prosiect gwirfoddoli yma? (Holwch am addysg flaenorol a hanes cyflogaeth)
- Pryd oedd y tro diwethaf i chi weithio neu fod mewn addysg?
- A gawsoch unrhyw brofiadau o wirfoddoli yn y gorffennol? (Os felly holwch am natur y gwaith gwirfoddoli, gyda pha sefydliad, pryd y digwyddodd y gweithgaredd a ph'un ai oedd y profiad yn gadarnhaol neu negyddol).

## Cymhelliant dros ddod yn wirfoddolydd

- Sut y clywsoch chi am y cyfle gwirfoddoli yma? (Holwch am rôl sefydliadau eraill megis Swyddfeydd Gwirfoddoli)
- A oeddech wedi ymwneud gyda'r sefydliad hwn o'r blaen?
- Pam wnaethoch chi benderfynu ymwneud â'r gwaith gwirfoddoli?
- Pam y gwnaethoch chi benderfynu ymwneud â'r sefydliad a'r prosiect yma?
- Beth oeddech chi'n gobeithio ei gael o'r profiad?
- Pe na fyddai'r profiad gwirfoddoli yma wedi bod ar gael, beth ydych chi'n meddwl y byddech wedi'i wneud?

## Eich profiad gwirfoddoli

- Beth yw eich rôl gwirfoddoli a natur y gwaith a wnaethpwyd?
- A yw'r gwaith a'r gweithgareddau a wnaethoch fel y disgwyliech?
- Pa hyfforddiant roddodd y sefydliad i chi? (Holwch am farn ar effeithiolrwydd yr hyfforddiant)
- Sut caiff eich gwaith ei arolygu? Ydych chi'n hapus gyda lefel o oruchwyliaeth a'r arweiniad a gawsoch?
- Pa mor fodlon ydych chi gyda'r profiad a gawsoch hyd yma? (Holwch y rhesymau am foddhad neu anfoddhad)
- Faint o oriau ydych chi'n eu gweithio bob wythnos (neu fis) fel gwirfoddolydd? A yw hyn yn debyg i'r hyn a ddisgwylid gennych?
- Pa sgiliau newydd (os oes rhai) a gawsoch chi fel canlyniad i'ch profiad gwirfoddoli?
- Pa fanteision eraill (os oes rhai) a gawsoch fel canlyniad i'ch profiad yn gwirfoddoli? (Holwch am gyswllt cymdeithasol, cynyddu hyder, gwella rhagolygon sicrhau cyflogaeth ar dâl).

## Cynlluniau'r Dyfodol

- Pa mor hir ydych chi'n disgwyl parhau i wirfoddoli gyda'r sefydliad? (Os am gyfnod penodol, holwch os mai dyna oedd y bwriad adeg cychwyn neu oherwydd rhyw reswm arall).
- Pa gynlluniau eraill (e.e. ar gyfer gwirfoddoli gyda sefydliadau eraill, dysgu, cyflogaeth ar dâl) sydd gennych chi yn y dyfodol agos? Sut ydych chi'n meddwl y bydd eich profiad gwirfoddoli yn eich helpu i wireddu'r cynlluniau hyn?
- A oes gennych unrhyw gynlluniau neu fwriad gwirfoddoli yn y dyfodol? Os felly, beth yw'r cynlluniau hyn?
- Pa fanteision ydych chi'n meddwl y bydd eich profiad gwirfoddoli yn eu rhoi i chi i gael gwaith ar dâl yn y dyfodol?